Caerdydd  
CF10 4UW**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2021**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant  
yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chyngor Caerdydd

Mae Cyngor Caerdydd wedi'i leoli yn ninas Caerdydd ac mae ganddi boblogaeth o 369,000. Mae'r awdurdod lleol yn cynnal 127 o ysgolion. Mae 98 o ysgolion cynradd, gan gynnwys 15 ohonynt sy'n cynnig addysg cyfrwng Cymraeg, dwy ysgol ffrydiau deuol a thair ysgol meithrin a gynhelir. Mae 18 o ysgolion uwchradd, gan gynnwys tair ysgol cyfrwng Cymraeg. Hefyd, mae saith ysgol arbennig ac un uned cyfeirio disgyblion.

Ymgwymerodd y prif weithredwr â'r swydd yn 2013 a phenodwyd y cyfarwyddwr addysg yn 2020. Bu arweinydd y cyngor yn y swydd er 2017 ac ymgwymerodd prif ddeiliad y portffolio gwasanaethau addysg â'r swydd yn 2015. Arolygwyd yr awdurdod lleol ddiwethaf yn 2011 ac fe'i rhoddwyd yn y categori gweithgarwch dilynol monitro gan Estyn. Mewn ymweliad dilynol yn 2014, canfuwyd bod angen gwelliant sylweddol ar yr awdurdod lleol, ac fe arhosodd yn y categori hwn tan 2016.

Caerdydd yw un o'r pum awdurdod lleol yng Nghonsortium Canolbarth y De ar gyfer gwella ysgolion.

Yn 2020-2021, cyllideb addysg net y Cyngor oedd tua £360,114,000. Y gyllideb ysgol ddirprwyedig fesul disgybl yn 2021-22 yw £5,064, sef y 5ed uchaf o'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Mae arolygwyr yn ystyried ystod eang o wybodaeth am y boblogaeth leol wrth werthuso deilliannau ac ansawdd gwasanaethau addysg. Maent yn ystyried y wybodaeth hon ochr yn ochr â gwybodaeth am y boblogaeth genedlaethol. Mae rhywfaint o'r wybodaeth fwyaf defnyddiol am blant a phobl ifanc wedi'i nodi isod:

- Dros gyfartaledd tair blynedd, mae 24.5% o ddisgyblion rhwng 5 a 15 oed yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 20.4%. Yn unol â bron pob awdurdod lleol arall yng Nghymru, mae canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi cynyddu dros y tair blynedd diwethaf.
- Mae 11.8% o ddisgyblion pump oed neu'n hŷn yn rhugl yn y Gymraeg, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 16.1%.
- Daw 35.1% o ddisgyblion pump oed neu'n hŷn o leiafrifoedd ethnig, sy'n sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru, sef 12.2%.
- Mae gan 16.6% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 19.5%.
- Roedd 132 o blant fesul 10,000 dan ofal yr awdurdod lleol yn 2021, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 115 o blant fesul 10,000.

## Crynodeb

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae Cyngor Caerdydd wedi dangos gwelliant cynaledig a chynyddol o ran ansawdd ac effeithiolrwydd ei wasanaethau addysg. Mae uwch arweinwyr yn rhannu gweledigaeth feiddgar ac uchelgeisiol i bob dysgwr, y maent yn ei chyfleu'n glir yn nogfen 'Uchelgais y Brifddinas'. Mae arweinydd y cyngor, aelod o'r cabinet a'r prif weithredwr yn pennu disgwyliadau uchel ar gyfer swyddogion, ysgolion a darparwyr eraill, ac mae ymrwymiad cryf aelodau etholedig a swyddogion ar bob lefel i gefnogi pobl ifanc a'u teuluoedd yn amlwg iawn. Mae'r cyfarwyddwr addysg yn cefnogi'n llawn flaenoriaethau a gweledigaeth strategol 'Caerdydd 2030' a'r ymgyrch tuag at y strategaeth Dinas sy'n Dda i Blant. Aliniodd y cyfarwyddwr cynorthwyol addysg a'i gywerth sy'n gyfrifol am ystadau sirol eu gwaith yn effeithiol ar hyd y pandemig. Caiff y gefnogaeth hon ei pharchu'n fawr gan arweinwyr ysgolion a lleoliadau.

Yn gyffredinol, bu deilliannau arolygiadau rhwng 2017 a mis Mawrth 2020 yn gryf, yn enwedig yn y sector cynradd. O'r 43 o ysgolion cynradd a arolygwyd yn ystod y cyfnod hwn, cafodd pedair ohonynt farnau rhagorol ar gyfer safonau, a 36 ohonynt farnau da.

Bu'r deilliannau i ddisgyblion ar draws cyfnod allweddol 4 uwchlaw neu ymhell uwchlaw'r disgwyliadau ym mwyafrif yr ysgolion yn y tair blynedd cyn y pandemig. Yn gyffredinol, bu deilliannau i ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) uwchlaw deilliannau'r un grŵp yn genedlaethol.

Mae swyddogion ar draws y gyfarwyddiaeth addysg yn cydweithio â'i gilydd yn gynhyrchiol i ystyried ystod o faterion mewn ysgolion. Mae eu dull cydgysylltiedig yn galluogi'r awdurdod lleol i gael dealltwriaeth gadarn o gyd-destunau unigol ei ysgolion. Mae'r awdurdod lleol wedi meithrin perthynas waith gref â'r consortiwm rhanbarthol ac mae prosesau cadarn i gefnogi a herio ysgolion sy'n peri pryder. Ar hyn o bryd, nid yw partneriaid gwella yn ystyried blaenoriaethau strategol Caerdydd yn ddigon da, er enghraifft Addewid Caerdydd, yn eu dulliau o weithio ag ysgolion ac UC Dau.

Mae strategaeth yr awdurdod lleol i ad-drefnu ei ysgolion yn canolbwyntio'n briodol ar ei weledigaeth ar gyfer sicrhau amgylcheddau dysgu o ansawdd uchel i fodloni anghenion plant a phobl ifanc, fel yr amlinellir yn 'Caerdydd 2030'. Mae tîm y Rhaglen Trefniadaeth Ysgolion (RhTY) yn cynnig arweinyddiaeth a chyfarwyddyd bwriadus i helpu gwireddu'r strategaeth hon.

Mae'r awdurdod lleol wedi datblygu gweledigaeth strategol sy'n cael ei deall yn glir ac sydd wedi'i llywio gan ymchwil i gefnogi ymgysylltiad ieuencid a dilyniant i bobl ifanc ar ôl iddynt adael yr ysgol. Mae arweinyddiaeth wleidyddol a gweithredol gref o 'Addewid Caerdydd', drwy gynghrair uchelgeisiol ledled y ddinas, wedi ennyn cefnogaeth sylweddol gan ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys uwch arweinwyr busnesau, ysgolion a cholegau.

Mae strategaeth Addewid Caerdydd wedi manteisio ar feithrin cysylltiadau cryf a sicr â busnesau presennol, ac wedi bod yn gyfrwng grymus ar gyfer denu buddsoddiad gan sefydliadau y mae eu blaenoriaethau corfforaethol yn alinio â rhai'r cyngor.

Blaenoriaethau fel symudedd cymdeithasol a darparu profiadau yn gysylltiedig â gwaith i blant a phobl ifanc. Mae agweddau penodol ar y gwaith yn hynod effeithiol, er enghraifft cynnwys pobl ifanc mewn helpu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Mae gan yr awdurdod lleol Wasanaeth Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig a Theithwyr (EMTAS) sefydledig sy'n goruchwyllo cymorth i ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg neu Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae'r gwasanaeth wedi addasu ei flaenoriaethau'n briodol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf i helpu mynd i'r afael â'r patrwm cyfnewidiol o gymorth sydd ei angen ar ysgolion, disgyblion a'u cymunedau. Mae'r cymorth addysgol i geiswyr lloches yn agwedd arbennig o effeithiol ar y gwaith hwn.

Mae'r awdurdod lleol yn cydweithio'n dda â chyfarwyddiaethau eraill a phartneriaid i gynnig cymorth i blant sy'n derbyn gofal. Mae'r strategaeth rhianta corfforaethol yn cael ei hategu gan gynllun gweithredu cynhwysfawr sy'n amlinellu'n glir y cyfrifoldebau ar draws cyfarwyddiaethau fel addysg, tai a gwasanaethau plant, ac asiantaethau partner gan gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Heddlu De Cymru.

Mae gwasanaeth ieuencid Caerdydd yn cynnig darpariaeth o ansawdd uchel mewn ardaloedd â blaenoriaeth yn y ddinas, sy'n cynnwys cymysgedd o waith mynediad agored a gwaith wedi'i dargedu. Mae pobl ifanc, yn yr ardaloedd sy'n cael eu gwasanaethu, wrth wraidd datblygu gwasanaethau. Mae cefnogaeth i iechyd a lles emosiynol pobl ifanc a'r defnydd effeithiol o blatfformau digidol yn agweddau arbennig o gryf ar ddarpariaeth.

Mae uwch swyddogion ac aelodau etholedig yn deall yn dda yr heriau eang y mae'r gwasanaeth addysg yn eu hwynebu. Maent yn cydnabod, mewn ychydig iawn o achosion, bod ansawdd gwerthuso ar lefel gwasanaeth neu dîm yn rhy amrywiol, sy'n rhwystro swyddogion rhag nodi a mynd i'r afael â meysydd y mae angen eu gwella. Er enghraifft, nid yw arweinyddiaeth ar lefel uwch swyddogion yn cynnig cyfeiriad strategol effeithiol bob tro er mwyn helpu symbylu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg ym mhob rhan o'r ddinas. Hefyd, caiff ei gydnabod y bu gwasanaeth cwnsela'n wan o ran cefnogi anghenion lles plant a phobl ifanc.



## Argymhellion

- A1 Gwella gwasanaethau cwnsela i blant a phobl ifanc
- A2 Gwella ansawdd hunanwerthuso ar lefelau gwasanaeth a thîm ar draws y gyfarwyddiaeth
- A3 Sicrhau bod gwaith y consortiwm rhanbarthol yn canolbwyntio'n briodol ar flaenoriaethau strategol Caerdydd
- A4 Sicrhau arweinyddiaeth strategol glir a throsolwg o ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg

## Beth sy'n digwydd nesaf

Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu, dylai'r awdurdod lleol ddiweddarau ei gynlluniau i fynd i'r afael â'r argymhellion ac ystyried y diffygion a nodwyd drwy'r broses arolygu. Dylai'r awdurdod lleol ddiweddarau ei gynlluniau cyn pen tri mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu.

Bydd Estyn yn gwahodd y darparwr i baratoi tair astudiaeth achos ar ei waith yn ymwneud ag Addewid Caerdydd, cymorth i geiswyr lloches a thrawsnewid gwaith ieuentid, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Deilliannau

Ni allwn roi gwerthusiad llawn o ddeilliannau. Mae hyn oherwydd effaith y pandemig COVID-19, a arweiniodd at atal arolygiadau o ysgolion a'r rhan fwyaf o ddarparwyr addysg eraill er mis Mawrth 2020. Mae hefyd oherwydd y diffyg data ar ddeilliannau y gellir ei gymharu dros amser, gan i'r pandemig achosi newidiadau i'r ffordd y cafodd cymwysterau eu dyfarnu ac effeithio ar y rhan fwyaf o'r data arall rydym yn ei ystyried wrth wneud gwerthusiadau, fel presenoldeb ysgol, gwaharddiadau mewn ysgolion a chyrchfannau dysgwyr ôl-16.

Mae unrhyw werthusiadau sy'n dilyn yn rhoi cyd-destun drwy adrodd ar ddeilliannau cyn y pandemig, neu'n ymwneud â deilliannau mwy diweddar lle mae'r sail dystiolaeth yn ddilys ac yn ddibynadwy.

Rhwng mis Medi 2017 a mis Mawrth 2020, arolygom saith o ysgolion uwchradd, 43 o ysgolion cynradd a dwy ysgol arbennig. Hefyd, arolygom ddau leoliad nas cynhelir. Barnom fod safonau'n rhagorol mewn dwy ysgol uwchradd, yn dda mewn dwy arall ac yn ddigonol mewn tair ohonynt. Barnom fod safonau'n dda mewn llawer o ysgolion cynradd ac yn rhagorol mewn pedair ohonynt. Mewn pum ysgol arall, barnwyd bod safonau'n ddigonol. Roedd safonau mewn ysgolion arbennig a gynhelir yn dda mewn un ohonynt ac yn ddigonol yn y llall. Mewn lleoliadau nas cynhelir, roedd safonau'n dda mewn un ohonynt. Yn y tri arall, nid oedd digon o blant i allu rhoi sylwadau. Mae barnau rhagorol ar gyfer safonau mewn ysgolion uwchradd yn uwch na'r rhai cenedlaethol, ac mewn ysgolion cynradd maent yn unol ag ysgolion eraill ledled Cymru. Ni chafodd unrhyw ysgol arbennig farn ragorol o gymharu ag ychydig yn llai nag un o bob tri'n genedlaethol.

Rhoddwyd dwy ysgolion gynradd mewn categori gweithgarwch dilynol statudol, a rhoddwyd naw ysgol arall yn y categori gweithgarwch dilynol adolygu gan Estyn. O'r rhain, roedd pump ohonynt yn ysgolion cynradd, tair ohonynt yn ysgolion uwchradd ac un ohonynt yn ysgol arbennig. Mae un ysgol uwchradd yn y categori adolygu gan Estyn o hyd.

Bu safonau ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 (2017-2019) mewn wyth ysgol yn gyson uchel ac ymhell uwchlaw'r disgwyliadau. Mewn wyth ysgol arall, mae safonau'n unol â'r disgwyliadau neu'n uwch, yn gyffredinol. Yn y ddwy ysgol sy'n weddill, mae safonau'n amrywiol mewn un ohonynt ac yn gyson islaw'r disgwyliadau yn y llall.

Yn gyffredinol, bu deilliannau i ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim uwchlaw rhai'r un grŵp yn genedlaethol. Mae cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim sy'n cyflawni 5 gradd A/A\* yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Ar y cyfan, mae merched yn perfformio'n well na bechgyn ar draws y cyfnodau allweddol, ond mae'r perfformiad yn unol â'r perfformiad ledled Cymru, yn gyffredinol. Mae'r bwlch mwyaf nodedig rhwng merched a bechgyn mewn llythrennedd.

Cyn y pandemig, roedd barnau arolygiadau ar gyfer lles ac agweddau at ddysgu mewn ysgolion yng Nghaerdydd yn unol â'r rhai cenedlaethol, ac ni nodwyd bod

unrhyw ysgol yng Nghaerdydd yn anfoddhaol. At ei gilydd, roedd cyfraddau presenoldeb ysgol yn dda, er bod cyfran y disgyblion a oedd yn absennol yn gyson o ysgolion uwchradd yn cynyddu ac uwchlaw cyfartaledd Cymru. Mae gwaharddiadau'n parhau i effeithio'n anghymesur ar ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai ag anghenion addysgol arbennig. Er bod cyfraddau gwaharddiadau am gyfnod penodol yn lleihau'n raddol mewn ysgolion uwchradd, roeddent yn cynyddu'n sylweddol mewn ysgolion cynradd, ond mae'r gyfradd hon yn well na'r cyfartaledd yng Nghymru. Roedd cyfran y bobl ifanc nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn 16 oed yn unol â chyfartaledd Cymru.

Yn ystod y pandemig, cefnogwyd plant a phobl ifanc drwy ystod o weithgareddau i gefnogi eu lles. Er enghraifft, cymerodd nifer sylweddol o bobl ifanc ran mewn gweithgareddau buddiol dan arweiniad y gwasanaeth ieuencid, gan gynnwys gweithgareddau ar-lein arloesol. Cymerodd miloedd o blant a phobl ifanc ran yn y rhaglen 'Gwên o Haf' yn 2021 fel rhan o waith Caerdydd i fod yn 'Ddinas sy'n Dda i Blant', a ddarparodd ystod eang o weithgareddau ysgogol a dymunol i gefnogi eu lles. Fodd bynnag, bu nifer y plant a phobl ifanc sy'n manteisio ar wasanaeth cwnsela'r awdurdod yn gyffredinol, ac effaith y gwasanaeth hwn ar les plant a phobl ifanc, yn wan am nifer o flynyddoedd.

Mae plant a phobl ifanc yn manteisio'n rhwydd ar gyfleoedd i leisio eu barn. Maent yn dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt pan gânt gyfle i wneud hynny.

### **Gwasanaethau addysg**

Dan Faes Arolygu 2, mae Estyn yn pennu cwestiynau arolygu lleol sy'n berthnasol i bob awdurdod lleol. Mae cwestiynau arolygu lleol yn canolbwyntio ar wasanaethau addysg sy'n ymwneud â blaenoriaethau strategol cyfredol yr awdurdod lleol neu'n deillio o wybodaeth sydd gan Estyn am wasanaethau addysg yn yr awdurdod lleol.

#### **Pa mor effeithiol y mae'r her, cymorth ac ymyrraeth mewn ysgolion i alluogi pob dysgwr i wneud cynnydd da?**

Yn ystod cyfnod y pandemig, cryfhaodd yr awdurdod lleol ei berthynas â'i ysgolion yn sylweddol. Trwy gydol y cyfnod hwn, creodd cyfathrebu gwell a ffocws crys ar les penaethiaid ymdeimlad o bartneriaeth a chydymddiriedaeth a chefnogaeth.

Yn y gyfarwyddiaeth, mae swyddogion ar draws timau yn cydweithio â'i gilydd yn gynhyrchiol i ystyried ystod o faterion mewn ysgolion. Maent yn ystyried gwybodaeth sydd ar gael iddynt o ystod o safbwyntiau ac yn alinio eu gwaith â blaenoriaethau strategol allweddol. Mae'r dull cydgysylltiedig hwn yn galluogi'r awdurdod lleol i ennill dealltwriaeth gadarn o gyd-destunau unigol ei ysgolion. Ers dechrau'r pandemig, mae pob aelod o'r tîm rheoli estynedig yn gysylltiedig â chlwstwr o ysgolion sy'n cynnig rhagor o gyfleoedd i nodi agweddau pwysig ar ddarpariaeth ac arfer. Mae'r ffyrdd defnyddiol hyn o weithio yn golygu y caiff unrhyw faterion sy'n ymwneud ag ysgolion eu rhannu â'r uwch dîm rheoli'n brydlon.

Mae'r awdurdod lleol wedi meithrin perthynas waith gref â phrif bartneriaid gwella o'r consortiwm rhanbarthol, ac mae prosesau cadarn ar waith i gefnogi a herio ysgolion sy'n peri pryder.

Caiff cyfarfod Risg Pob Ysgol ei ddefnyddio'n effeithiol. Mae swyddogion o ystod o dimau, fel adnoddau dynol, diogelu ac anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cyfrannu gwybodaeth werthfawr am bob ysgol. Caiff y cyfarfodydd hyn eu cadeirio gan brif bartneriaid gwella. Mae'r awdurdod lleol yn coladu gwybodaeth ac yn gwerthuso ymyriadau a gwaith partneriaid gwella yn effeithiol i gael darlun cyflawn o welliant ac ymyrryd mewn ysgolion mewn ffordd effeithlon. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gynhwysfawr o anghenion ysgolion yng Nghaerdydd, yn gyffredinol. Er enghraifft, mae llawer o ysgolion mewn categori gweithgarwch dilynol Estyn wedi gwneud digon o gynnydd i'w tynnu o'r categori hwnnw. Yn gyffredinol, mae partneriaid gwella'n darparu gwerthusiad cadarn o gynnydd ar sail tystiolaeth uniongyrchol o ddarpariaeth ac arweinyddiaeth yn yr ysgolion hyn. Fodd bynnag, nid yw cyfraniadau gan bartneriaid gwella'n helpu swyddogion i ystyried sut gallai agweddau ar gymorth gysylltu â gwelliannau bob tro, er enghraifft mewn addysgu a phrofiadau dysgu.

Mae prif bartneriaid gwella'n rhannu gwybodaeth â phartneriaid gwella sy'n eu helpu i ddeall cyd-destunau unigol pob ysgol. Trwy gydol y pandemig, mae'r partneriaid gwella wedi ategu dull yr awdurdod lleol o gefnogi lles penaethiaid yn effeithiol. Maent yn glir mai eu briff yw cynorthwyo ysgolion mewn ffordd bwrpasol ac maent yn sensitif i'r cyd-destun cyfredol mewn ysgolion. Fodd bynnag, nid yw adroddiadau partneriaid gwella'n ddigon gwerthusol bob tro. Mae gormod o amrywiad, er enghraifft, o ran sut maent yn adrodd ar agweddau allweddol ar waith yr ysgol, yn enwedig o ran addysgu a'r cwricwlwm. Ar ben hynny, nid yw eu gwaith yn adlewyrchu blaenoriaethau strategol Caerdydd yn ddigon da, er enghraifft gwaith Addewid Caerdydd.

Ar gyfer ychydig iawn o ysgolion, mae cyfarfodydd y 'Tîm o Amgylch yr Ysgol' a gyflwynwyd yn ddiweddar iawn yn profi'n ffordd ddefnyddiol ychwanegol o sicrhau y caiff cymorth integredig ei gynnig i ysgolion lle mae pryderon penodol. Mae enghreifftiau'n cynnwys cynorthwyo ysgolion â diwygio anghenion dysgu ychwanegol a darpariaeth arall, fel cymorth i ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg neu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Mae dulliau amrywiol o rannu arfer effeithiol ac arloesol rhwng ysgolion. Fodd bynnag, nid yw'r holl ysgolion yn gwybod sut i gael mynediad at y gwaith hwn.

Mae'r awdurdod lleol yn cynnig ystod werthfawr o ddysgu proffesiynol i benaethiaid, athrawon a staff cymorth. Mae'r rhain yn ategu arlwy'r consortiwm rhanbarthol drwy gynnig cyfleoedd dysgu sydd wedi'u teilwra'n effeithiol i'r cyd-destun lleol. Mae'r rhain yn cynnwys rhaglen i benaethiaid newydd sy'n rhoi arweiniad ymarferol defnyddiol ar arwain ysgol yng Nghaerdydd, a chymorth i ysgolion roi'r diwygiadau anghenion dysgu ychwanegol ar waith. Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio'r arbenigedd yn ei dimau i gynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol sy'n ategu blaenoriaethau strategol yr awdurdod lleol yn dda. Er enghraifft, mae'r tîm e-ddysgu wedi cydweithio ag ymarferwyr yn ystod y pandemig i greu 'gweithlu sy'n hyddysg mewn technoleg', ac mae cynorthwywyr addysgu wedi elwa ar hyfforddiant mewn dulliau llythrennedd.

Mae'r awdurdod lleol wedi elwa ar ei waith partneriaeth â sefydliadau addysg uwch i ddatblygu cyfleoedd dysgu i ymarferwyr. Trwy weithio â'r Brifysgol Agored, mae'r awdurdod lleol yn cynnig rhaglen sy'n canolbwyntio ar ddatblygu dulliau addysgu a chynnwys ar gyfer dysgu o bell. I helpu ymarferwyr i ymgysylltu â datblygiadau'r

Cwricwlwm i Gymru, mae'r awdurdod lleol wedi lansio cwrs 'cyfrifiadura yn y cwricwlwm' mewn partneriaeth â Phrifysgol Abertawe. Mae'r cwrs hwn yn cynorthwyo ymarferwyr i ystyried cynllunio'r cwricwlwm ar gyfer cyfrifiadura, yn gysylltiedig â gwyddoniaeth a thechnoleg. Caiff y cwrs ei gyflwyno â phartneriaid yn y diwydiant drwy sesiynau ar-lein byw.

### **Pa mor dda mae cynlluniau trefniadaeth ysgolion yr awdurdod lleol yn sicrhau darpariaeth addysg briodol i bob plentyn ac unigolyn ifanc, gan gynnwys darpariaeth cyn-ysgol?**

Mae strategaeth yr awdurdod lleol ar gyfer ad-drefnu ei ysgolion yn canolbwyntio'n briodol ar ei weledigaeth ar gyfer sicrhau amgylcheddau dysgu o ansawdd uchel i fodloni anghenion plant a phobl ifanc, fel yr amlinellir yng nghynllun Caerdydd 2030.

Yn gyffredinol, mae tîm y Rhaglen Trefniadaeth Ysgolion (RhTY) yn darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad bwriadus i helpu gwireddu'r strategaeth hon. Mae gan y tîm RhTY rolau a chyfrifoldebau clir ac ystod addas o brofiad ac arbenigedd mewn cynllunio lleoedd ysgol. Maent yn defnyddio ystod dda o ffynonellau gwybodaeth, gan gynnwys arolygon cyflwr adeiladau, tystiolaeth ymchwil a data'n effeithiol i helpu llywio eu penderfyniadau strategol. Mae hyn yn sicrhau bod ganddynt wybodaeth gyfredol am gyflwr, digonolrwydd ac addasrwydd eu hadeiladau ysgol. Mae'r tîm RhTY hefyd yn defnyddio ystod o bartneriaid a darparwyr allanol yn dda i ategu'r broses hon. Er enghraifft, gwnaethant gomisiynu arolwg o'r holl ysgolion a lleoliadau'n ddiweddar i bennu effeithlonrwydd adeiladau i lywio buddsoddiad yn y dyfodol a lleihau costau ynni. Mae hyn yn helpu'r tîm i gynllunio rhaglen fuddsoddi sylweddol dros y pum mlynedd nesaf i gefnogi'r gwelliannau gofynnol i tua dau draean o adeiladau ysgol. Er y rhannwyd y cynllun â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys arweinwyr ysgolion, cadeiryddion cyrff llywodraethol ac aelodau etholedig, mae'r tîm RhTY yn cydnabod yr angen i wella cyfathrebu ag ysgolion, yn enwedig yn ymwneud â chyflwyno'r rhaglen a blaenoriaethu atgyweiriadau a gwaith cynnal a chadw brys.

Mae'r awdurdod lleol wedi buddsoddi'n dda mewn ystod o brosiectau cyfalaf yn ystod cam cyntaf rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru rhwng 2014 a 2019. Mae hyn wedi'i alluogi i wneud cynnydd da o ran sicrhau bod yr ysgolion priodol o'r math priodol yn y lleoedd priodol i fodloni anghenion ei ddysgwyr. Mae'r awdurdod lleol wedi cynyddu buddsoddiad cynlluniedig i dros £284 miliwn ar gyfer y cyfnod pum mlynedd o 2019. Er bod cyflwyno'r rhaglen hon wedi'i ohirio rhywfaint oherwydd y pandemig COVID-19, mae'r tîm RhTY wedi sicrhau bod ymgynghoriadau a phrosesau penderfynu allweddol wedi parhau.

Yn gyffredinol, mae'r awdurdod lleol wedi buddsoddi mewn ystod addas o brosiectau cyfalaf i gynyddu nifer y lleoedd mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r tîm RhTY yn cydnabod yr angen i fod yn rhagweithiol wrth gynllunio lleoedd ysgol i ysgogi'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg ar draws y ddinas drwy'r Cynllun Strategaeth Cymraeg mewn Addysg (CSCM) 2022-32 drafft. Mae gan yr arweinyddiaeth wleidyddol ddealltwriaeth glir o'r gofyniad i gynyddu nifer y lleoedd ym mhob sector cyfrwng Cymraeg. Mae cynigion diweddar, fel yr ymgynghoriad i sefydlu ysgol dwy ffrwd newydd ar ddatblygiad tai Plasdŵr, yn gam cadarnhaol ac yn arwydd o ymrwymiad yr awdurdod lleol i gynyddu nifer y lleoedd mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn unol â'i gynllun datblygu lleol. Fodd bynnag, nid yw'r arweinyddiaeth ar lefel uwch

swyddogion yn darparu cyfeiriad strategol effeithiol bob tro i helpu ysgogi'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg ym mhob rhan o'r ddinas.

Yn ddiweddar, mae'r awdurdod lleol wedi ymgynghori ar gynigion i gynyddu darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol (ADY) i helpu bodloni'r galw cyfredol a rhagamcanol ar gyfer gwasanaethau a gwella'r amgylchedd dysgu. Mae cynigion diweddar, fel y rhai sy'n ceisio darparu lleoedd o ansawdd uchel mewn ysgolion arbennig cynradd i ddisgyblion ag Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol a lleoedd mewn Canolfannau ag Adnoddau Arbenigol i'r rhai ag anghenion cymhleth, wedi'u seilio ar egwyddorion priodol a byddant yn cynyddu nifer y lleoedd yn sylweddol. Mae'r awdurdod lleol hefyd yn cydnabod yn briodol yr angen i gynyddu darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg i fodloni'r galw cynyddol am gymorth arbenigol i ddisgyblion. Mae agor Canolfan ag Adnoddau Arbenigol cyfrwng Cymraeg newydd yn Ysgol Gymraeg Pwll Coch wedi cynyddu nifer y lleoedd i ddisgyblion ag ADY yn y sector cynradd. Mae cynlluniau tebyg i gynyddu nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag ADY sydd angen cymorth arbenigol mewn ysgolion uwchradd, gan nad yw'r ddarpariaeth gyfredol yn bodloni'r galw am lleoedd bob tro.

Mae'r awdurdod lleol yn cynllunio'n briodol ar gyfer addysg feithrin drwy gyfuniad o ysgolion a gynhelir ac ychydig o leoliadau nas cynhelir. Yn gyffredinol, mae'r trefniadau hyn yn darparu cyfleoedd addas i rieni a gofalwyr ddewis darpariaeth yn eu hardal leol. Fodd bynnag, gall y galw uchel hanesyddol am lleoedd ar gyfer darpariaeth feithrin mewn ychydig o ardaloedd yn y ddinas gyfyngu ar y dewis i rieni a gofalwyr, yn enwedig y rhai sy'n dewis mynychu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Mae'r tîm RhTY yn gwerthfawrogi mewnbyn rhanddeiliaid allweddol, fel Mudiad Meithrin a sefydliadau eraill, i helpu sefydlu trefniadau gofal cofleidiol wrth gynllunio ysgolion newydd. Gwnânt ddefnydd da o gysylltiadau sefydledig rhwng y tîm a gweithwyr proffesiynol allweddol ar draws yr awdurdod lleol, asiantaethau eraill a grwpiau cymunedol i werthuso anghenion cymunedau. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori ag ystod addas o randdeiliaid wrth ymgymryd â gwerthusiad o wasanaethau addysg a chymunedol mewn rhannau penodol o'r ddinas. Mae'r gwaith hwn yn helpu'r awdurdod lleol i fodloni ei ddyhead i sicrhau bod ysgolion yn rhan annatod o'u cymunedau ac yn helpu bodloni anghenion lleol.

### **Pa mor dda mae'r awdurdod lleol yn cydweithio â phartneriaid (a phobl ifanc) drwy 'Addewid Caerdydd' i fodloni ei uchelgais bod pob dysgwr yn symud ymlaen i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ôl-16?**

Mae'r awdurdod lleol wedi datblygu gweledigaeth strategol sy'n cael ei deall yn dda ac sydd wedi'i llywio gan ymchwil i gefnogi ymgysylltiad ieuencid a dilyniant i bobl ifanc ar ôl iddynt adael yr ysgol. Mae arweinyddiaeth wleidyddol a gweithredol gref o ran 'Addewid Caerdydd', drwy gynghrair uchelgeisiol ledled y ddinas, wedi ennyn cefnogaeth sylweddol gan ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys uwch arweinwyr busnesau, ysgolion a cholegau.

Bu Addewid Caerdydd yn gyfrwng grymus ar gyfer denu buddsoddiad gan fusnesau a diwydiant mewn cyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth i bobl ifanc. Mae nodau'r strategaeth hirdymor hon wedi esblygu'n addas er mwyn ymateb i flaenoriaethau addysgol cenedlaethol a heriau'r pandemig.

Mae arweinyddiaeth strategol gref wedi sicrhau bod blaenoriaethau Addewid Caerdydd yn alinio'n agos â nodau rhanbarthol drwy waith Partneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae hyn wedi cynhyrchu strategaeth effeithiol, gydlynus sydd o fudd i bobl ifanc. Mae'r fframwaith llywodraethu'n integreiddio blaenoriaethau Addewid Caerdydd ar draws cyfarwyddiaethau'r cyngor ac wedi gwella dealltwriaeth swyddogion o ofynion cyflogwyr o ran medrau, yn enwedig mewn sectorau twf newydd fel seiberddiogelwch. Mae tîm Addewid Caerdydd yn cynnal digwyddiadau hyfforddiant defnyddiol i bartneriaid sy'n helpu datblygu eu dealltwriaeth o'r rhwystrau a'r heriau mae pobl ifanc yn eu hwynebu, yn enwedig yng nghymunedau mwyaf difreintiedig y ddinas.

Yn bwysig, mae grŵp llywio gweithredol Addewid Caerdydd yn cynnal trosolwg da o gynnydd yn erbyn y blaenoriaethau. Mae eu harweinyddiaeth weithredol yn gryf ac mae eu gwaith yn ymestyn yn eang. Mae partneriaid ac ysgolion yn gwerthfawrogi eu harbenigedd a'u cymorth. Gan arwain drwy esiampl, mae gwasanaethau mewnol yr awdurdod lleol yn gweithio â'i gilydd yn llwyddiannus i gynnig cyfleoedd gwerthfawr niferus i bobl ifanc, fel prentisiaethau, profiad gwaith, gwirfoddoli, hyfforddeiaethau a swyddi.

Mae'r awdurdod lleol yn cyfathrebu'n llwyddiannus iawn ag ysgolion, pobl ifanc a phartneriaid drwy gyfryngau sy'n cynnwys gwefan ddynodedig Addewid Caerdydd, y plattform 'Beth nesaf?', tudalennau cyfryngau cymdeithasol a chylchlythyrau cyson. Mae hyn yn galluogi swyddogion i sicrhau bod ysgolion a darparwyr eraill yn ymwybodol o'r cyfleoedd eang sydd ar gael i bobl ifanc a brocera partneriaethau sy'n bodloni anghenion unigol ysgolion. Mae mentrau, fel wythnosau 'Agor eich llygaid', wedi cynorthwyo uwch arweinwyr a staff mewn ysgolion i ddatblygu eu gwybodaeth am y medrau mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt, yn ogystal â rhoi mewnwelediad gwerthfawr i ddisgyblion cynradd i ystod eang o yrfaeod a dysgu pellach.

Er bod y dull hwn yn gymharol newydd, mae'r fforwm busnes ysgolion eisoes yn gwneud gwahaniaeth i ddisgyblion mewn ysgolion uwchradd. Mae cyfarfodydd strategol bob tymor rhwng cyflogwyr ac uwch arweinwyr ysgolion yn cyfarwyddo'r gwaith hwn yn llwyddiannus. Maent yn nodi llwybrau dysgu addas ac yn ymgorffori gyrfaeod a phrofiadau gwerthfawr yn gysylltiedig â gwaith yn y cwricwlwm. Nid yw prosesau'r awdurdod lleol ar gyfer sicrhau bod partneriaid gwella'r consortiwm yn cynorthwyo ac yn herio ysgolion mewn perthynas â'r disgyblion hynny sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ac yn gwbl ymwybodol o Addewid Caerdydd ac yn ei gefnogi, wedi'u datblygu cystal.

Mae diwylliant iach o drafod a myfyrio rhwng partneriaid amrywiol ar lefelau gwahanol o'r gwaith yn rhoi adborth defnyddiol sy'n llywio cynllunio effeithiol ar gyfer gwella. Er enghraifft, mae cynnal grwpiau ffocws â grwpiau o ddisgyblion, fel y rhai sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol, wedi helpu'r awdurdod lleol i ddeall yn well sut i deilwra profiadau i'w hanghenion. Mae'r bartneriaeth hefyd yn elwa ar wybodaeth sy'n cael ei chasglu am y farchnad lafur yng Nghaerdydd gan y gyfarwyddiaeth Datblygu Economaidd i dargedu adnoddau a sicrhau bod prosiectau'n berthnasol i bobl ifanc.

Mae gwelliannau o ran adnabod ac olrhain dysgwyr cyn-16 y nodir eu bod yn fregus, y rhai sy'n gadael Blwyddyn 11 a phobl ifanc ôl-16 yn golygu bod yr awdurdod lleol a'i bartneriaid mewn sefyllfa well i gynnig cymorth amserol ac unigol. Er enghraifft,

mae'r fforwm pontio amlasiantaeth wythnosol yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i fynd i'r afael ag anghenion cynyddol pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. Yn benodol, mae mentoriaid ieuenctid yn chwarae rôl gref o ran eu cefnogi wrth bontio i Goleg Caerdydd a'r Fro.

Mae'r awdurdod lleol yn deall bod graddfa gynyddol y partneriaid a'r cyfleoedd sydd ar gael drwy Addewid Caerdydd, ynghyd ag effaith y pandemig, yn achosi heriau ar gyfer rheolaeth strategol yr agwedd hon ar ei waith. Mae swyddogion yn cydnabod yr angen i adolygu darpariaeth i sicrhau bod dysgwyr bregus sydd yn y perygl mwyaf o beidio â symud ymlaen i gyrchfan ôl-16, neu gynnal cyrchfan ôl-16, yn elwa ar y cymorth a'r cyfleoedd sy'n cael eu cynnig. Maent hefyd wedi nodi'r angen i sicrhau arlwy deg, sydd wedi'i deilwra'n briodol i ysgolion cyfrwng Cymraeg, ysgolion arbennig a'r uned cyfeirio disgyblion drwy Addewid Caerdydd.

Dros amser, bu'r awdurdod lleol yn hynod effeithiol o ran cydlynu'r gallu i bobl ifanc fanteisio ar gyngor gyrfaoedd, profiadau yn gysylltiedig â gwaith a llwybrau dysgu drwy waith partneriaeth llwyddiannus rhwng darparwyr addysg a'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Bu hyn yn hollbwysig o ran codi dyheadau plant a phobl ifanc ar draws y ddinas.

Er gwaethaf y pandemig COVID-19, mae ffocws cryfach yr awdurdod lleol ar bontio ôl-16 drwy waith Addewid Caerdydd wedi parhau i gael effaith gadarnhaol ar y rhan fwyaf o ddysgwyr o ran eu cynorthwyo i fanteisio ar addysg, cyflogaeth a hyfforddiant.

### **Pa mor dda mae'r awdurdod lleol yn bodloni anghenion addysgol plant a phobl ifanc sy'n siarad Cymraeg a Saesneg fel iaith ychwanegol?**

Mae gan yr awdurdod lleol Wasanaeth Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig a Theithwyr sefydledig sy'n goruchwyllo cymorth i ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg neu Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae'r gwasanaeth wedi addasu ei flaenoriaethau'n briodol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf i helpu mynd i'r afael â'r patrwm cyfnewidiol o gymorth sydd ei angen ar ysgolion, disgyblion a'u cymunedau. Mae swyddogion yn hwyluso cyfleoedd rheolaidd i rannu arfer effeithiol ag awdurdodau lleol eraill ledled Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig, ac yn defnyddio syniadau buddiol gan awdurdodau eraill i gryfhau eu gwaith. Er enghraifft, mae swyddogion wedi addasu darpariaeth gref mewn ymgysylltu â theuluoedd, sy'n cael ei defnyddio mewn awdurdod lleol arall yng Nghymru, i gryfhau eu cyngor i ysgolion yn y maes hwn.

Mae'r awdurdod lleol yn dosbarthu cyllid grant i ysgolion ar sail yr arolwg 'Asesiad Anghenion' blynyddol o gaffael iaith disgyblion. Mae'n dyrannu bron y cyfan o'r grant yn uniongyrchol i ysgolion i'w galluogi i ddewis sut i gefnogi eu disgyblion. Mae ysgolion o'r farn bod hon yn ffordd fuddiol o ddosbarthu cyllid, gan ei bod yn eu galluogi i gyflogi staff i ddarparu cymorth pwrpasol i ddisgyblion yn eu cymunedau penodol. Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio gweddill y grant i ariannu tîm bach o weithwyr proffesiynol yn ganolog, gan gynnwys swyddogion 'Cau'r Bwlch' sydd wedi'u dyrannu i bob rhan o'r ddinas. Mae un o'r swyddogion hyn yn gweithio ag ysgolion cyfrwng Cymraeg yn bennaf i oruchwyllo eu darpariaeth i ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg fel iaith ychwanegol. Mae'r tîm yn ymateb yn gyflym os oes angen cymorth di-oed ar ysgol. Er enghraifft, pan gafodd un ysgol gynradd nifer fawr o ddisgyblion Tsieineaidd, cynorthwyodd y tîm canolog yr ysgol i ddod o hyd i



wirfoddolwyr i weithio â'r disgyblion hyn yn eu mamiaith. At ei gilydd, mae ysgolion yn teimlo bod gwaith y tîm canolog yn llwyddiannus dros ben o ran eu helpu i gefnogi disgyblion a staff yn effeithiol.

Mae'r awdurdod lleol yn rhoi arweiniad a chymorth defnyddiol i ysgolion ar sut i ddefnyddio eu cyllid grant. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod lleol yn monitro'n rheolaidd sut mae'r holl ysgolion yn gwario eu gwant a'i effaith gyffredinol ar wella deilliannau a lles disgyblion.

Mae darpariaeth yr awdurdod lleol i gefnogi disgyblion y mae addysg cyfrwng Cymraeg yn newydd iddynt yn effeithiol. Mae bron pob un o'r disgyblion sy'n mynychu dwy uned drochi iaith yr awdurdod lleol, sef un uned gynradd ac un uned uwchradd, yn gwneud cynnydd da o ran dod yn hyderus mewn defnyddio'r Gymraeg. O ganlyniad, ar ôl cyfnod priodol yn yr uned, mae'r disgyblion hyn yn manteisio ar y cwricwlwm cyfrwng Cymraeg prif ffrwd yn llwyddiannus. Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio'r ddarpariaeth yn gymorth ychwanegol i ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg y mae'r cyfnodau clo wedi cael effaith negyddol arnynt, er mwyn helpu gwella eu medrau Cymraeg.

Mae swyddogion yn trefnu digwyddiadau hyfforddiant rheolaidd i staff ysgolion ar themâu perthnasol, er enghraifft ar ailymgysylltu â disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol ar ôl y cyfnod clo, a chefnogi lles ceiswyr llocher, ffoaduriaid a newydd-ddyfodiaid. Maent yn defnyddio'r digwyddiadau hyn i hwyluso rhannu arfer dda drwy wahodd ysgolion i arddangos eu gwaith.

O ganlyniad i'r cymorth a'r arfer gref hon, mae llawer o ddisgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol yn cyflawni'n dda o gymharu â'u cyfoedion, yn enwedig erbyn diwedd cyfnod allweddol 4.

Mae'r awdurdod lleol yn cynnig lefel uchel o gymorth i geiswyr lloches a ffoaduriaid sy'n cyrraedd yr ardal. Mae hyn yn cynnwys cynnig cymorth hynod effeithiol ar gyfer anghenion addysgol plant sydd newydd gyrraedd drwy drefnu cyfleoedd dysgu iddynt yn gyflym. Er enghraifft, cyn pen pythefnos o gyrraedd y ddinas yn ddiweddar, cydlynodd swyddogion addysgu ar gyfer grwpiau mawr o blant o Affganistan. Mae hyn yn cynnwys ffoaduriaid sy'n cael eu lletya yng Nghaerdydd cyn iddynt gael eu gwasgaru i rannau eraill o Gymru. Mae'r awdurdod lleol yn cydweithio ag ysgolion cynradd ac uwchradd lleol i ryddhau athrawon sy'n siarad ieithoedd perthnasol i gynorthwyo'r disgyblion hyn. Caiff y cymorth hwn naill ai ei gynnig yn ei lety neu yn yr ysgol, lle mae'n bosibl gwneud hynny.

### **Pa mor dda mae gwasanaethau addysg yn gweithio â chyfarwyddiaethau a phartneriaid eraill i gynnig cymorth i wella deilliannau addysg a lles plant sy'n derbyn gofal?**

Mae'r gwerthusiadau yn yr adran hon o'r adroddiad yn darparu cyd-destun drwy adrodd ar ddeilliannau cyn y pandemig, neu'n ymwneud â deilliannau mwy diweddar lle mae'r sail dystiolaeth yn ddilys ac yn ddibynadwy.

Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol wedi cynyddu o un flwyddyn i'r llall am o leiaf y saith mlynedd diwethaf. Caiff y mwyafrif ohonynt eu haddysgu mewn ysgolion yng Nghaerdydd neu ddarparwyr eraill yn yr awdurdod lleol. Mae'r

awdurdod lleol wedi cryfhau ei systemau ar gyfer cipio gwybodaeth am berfformiad addysgol ar ddiwedd cyfnodau allweddol. Dros amser, mae perfformiad plant sy'n derbyn gofal wedi gwella'n gyffredinol, ond mae'n fwy amrywiol ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 ac yn sylweddol is na phlant nad ydynt yn derbyn gofal.

Mae'r strategaeth rhianta corfforaethol a ddiwygiwyd yn ddiweddar yn darparu fframwaith clir ar gyfer gwaith rhwng cyfarwyddiaethau yn yr awdurdod lleol a phartneriaid. Yn bwysig, rhannodd plant a phobl ifanc eu safbwyntiau, pryderon a dyheadau ar gyfer y dyfodol. O ganlyniad, mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar bum mater allweddol sy'n cael effaith uniongyrchol ar blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, gwella lles emosiynol ac iechyd corfforol plant sy'n derbyn gofal, gwella eu cyflawniad addysgol, cyflogaeth a hyfforddiant, a darparu cartrefi cysurus, diogel a sefydlog iddynt.

Mae'r awdurdod lleol yn cydweithio'n dda â chyfarwyddiaethau eraill a phartneriaid i gynnig cymorth i blant sy'n derbyn gofal. Mae'r strategaeth rhianta corfforaethol yn cael ei hategu gan gynllun gweithredu cynhwysfawr sy'n amlinellu'n glir y cyfrifoldebau ar draws cyfarwyddiaethau fel addysg, tai a gwasanaethau plant, ac asiantaethau partner gan gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Heddlu De Cymru. Yn ddiweddar, mae aelodau etholedig wedi cael diweddariad ar weithgarwch sy'n ymwneud â'r blaenoriaethau yn y strategaeth. Fodd bynnag, mae hyn yn ymwneud yn gyffredinol â gweithgarwch yr ymgymeryd ag ef, ac nid yw'r effaith uniongyrchol ar blant sy'n derbyn gofal yn glir bob tro.

Yn ddiweddar iawn, mae'r awdurdod lleol wedi sefydlu grŵp gweithredol rhianta corfforaethol. Nod y grŵp hwn yw cynnig atebion amlasiantaeth, amlddisgyblaethol i'r blaenoriaethau a nodwyd yn y strategaeth rhianta corfforaethol. Mae swyddogion yr awdurdod lleol o'r gwasanaethau addysg a phlant yn cyfarfod o leiaf bob mis ac yn trafod meysydd gwaith allweddol, gan gynnwys achosion unigol. Yn bwysig, maent yn rhoi diweddariadau rheolaidd i aelodau etholedig ar agweddau gwahanol ar eu gwaith ac yn rhoi gwybod i aelodau am bwysau ar y gwasanaeth nawr ac yn y dyfodol. Mae creu dangosfwrdd perfformiad wedi helpu swyddogion yn hyn o beth. Mae aelodau etholedig yn deall eu rôl o ran rhiant corfforaethol ac yn cyflawni'r ddyletswydd hon yn effeithiol.

Yn ddiweddar, mae'r gyfarwyddiaeth addysg wedi cymryd cyfrifoldeb am gwblhau cynlluniau addysg personol, ac mae hyn wedi cynyddu'r gyfradd gwblhau yn sylweddol. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod lleol yn cipio ac yn gwerthuso data ar les a dilyniant dysgwyr yn systematig. Yn yr un modd, er bod yr awdurdod lleol yn cydweithio'n agos â'r consortiwm rhanbarthol i ddyrannu'r grant datblygu disgyblion i blant sy'n derbyn gofal, nid yw'r awdurdod lleol yn gwerthuso ansawdd cyffredinol cynllunio ac effaith defnyddio'r grant.

Mae'r awdurdod lleol yn dathlu llwyddiannau unigol plant a phobl ifanc drwy'r Gwobrau Bright Sparks. Mae hwn yn ddigwyddiad cynhwysol sy'n canolbwyntio ar y plentyn, sy'n cynnwys plant a phobl ifanc o ystod o ddarpariaeth, gan gynnwys darparwyr y tu allan i'r sir.

Yn ddiweddar, mae'r awdurdod lleol wedi creu capasiti staffio ychwanegol ac wedi penodi pedwar mentor dysgu i weithio â phlant sy'n dod at ddiwedd eu haddysg statudol, ac athro cynhwysiant i gefnogi datblygiad cynlluniau unigol i blant ag

anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn adeiladu ar gymorth a ffurfiolwyd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ac a gipiwyd mewn addewidion tîm ar gyfer darpariaeth i blant sy'n derbyn gofal.

Dros amser, mae'r awdurdod lleol wedi meithrin perthynas gref a gwerthfawr â'r sefydliadau mae'n eu comisiynu i ddarparu addysg i blant sy'n derbyn gofal. Mae'r awdurdod lleol yn rhoi fframwaith sicrhau ansawdd i ddarparwyr ac yn cael trafodaethau â nhw am ddarpariaeth y cwricwlwm, cynllunio ar gyfer dilyniant disgyblion a hunanwerthuso. Mae'r awdurdod lleol yn amlinellu'n glir ystod y wybodaeth y mae'n disgwyl i ddarparwyr adrodd arni mewn perthynas â darpariaeth addysg a chynnydd disgyblion. Mae cyfathrebu rhwng swyddogion a darparwyr yn rheolaidd ac yn effeithiol. Yn gyffredinol, mae swyddogion yn cynnig her briodol i newidiadau mewn darpariaeth ac o ran trafod deilliannau ymweliadau Estyn â darparwyr. Yn ogystal â'r fframwaith sicrhau ansawdd, mae darparwyr yn elwa ar y pecyn cymorth hunanwerthuso diogelu a ddarperir gan yr awdurdod lleol. Mewn ychydig iawn o achosion, nid yw cymorth gan yr awdurdod lleol i blant sy'n derbyn gofal ac sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn ddigon amserol. Er bod yr awdurdod lleol yn cydweithio'n agos â darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol, mae cofnodion monitro systematig o ddarparwyr unigol yn anghyson.

Yn ddiweddar iawn, mae'r awdurdod lleol wedi sefydlu canolfan asesu breswyl sydd wedi'i lleoli yng Nghaerdydd. Mae plant yn mynychu am gyfnod byr tra caiff eu hanghenion iechyd, addysg a lles eu hasesu. Y bwriad yw y bydd y dull hwn yn llywio'r gwaith o baru anghenion unigolion â lleoliadau yn y dyfodol. Er bod y datblygiad hwn yn un cadarnhaol ac yn arwydd o fwriad yr awdurdod lleol i deilwra darpariaeth hirdymor i blant sy'n derbyn gofal, nid yw effaith y ddarpariaeth newydd hon wedi'i chadarnhau hyd yn hyn.

### **Pa mor dda mae'r awdurdod lleol yn defnyddio gwaith ieuenctid i gefnogi pobl ifanc?**

Mae gwasanaeth ieuenctid Caerdydd yn cynnig darpariaeth o ansawdd uchel mewn ardaloedd blaenoriaeth yn y ddinas, sy'n cynnwys cymysgedd o waith mynediad agored a gwaith wedi'i dargedu. Mae pobl ifanc, yn yr ardaloedd sy'n cael eu gwasanaethu, wrth wraidd datblygu gwasanaethau.

Mae'r gwasanaeth yn cydweithio â chwe darparwr partner gwaith ieuenctid a chymunedol, sy'n cyfoethogi'r arlwy i bobl ifanc. Mae amrywiaeth eang o ddarpariaeth sy'n bodloni meysydd blaenoriaeth lleol a chenedlaethol allweddol ar gyfer gwaith ieuenctid. Er enghraifft, mae mentoriaid ieuenctid yn gweithio mewn ysgolion uwchradd i gefnogi'r disgyblion hynny sydd mewn perygl o beidio ag ymgysylltu ag addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Mae'r gwasanaeth ieuenctid hefyd yn cynnig cymorth i bobl ifanc sy'n ddigartref. Mae cymorth i iechyd a lles emosiynol pobl ifanc yn arbennig o gryf.

Mae gweithwyr ieuenctid yn hyblyg, yn ddyfeisgar ac yn dra chymwys ar gyfer yr amrywiaeth eang o rolau maent yn eu cyflawni. Mae gwaith partneriaeth cryf a sefydledig, fel gyda chyfiawnder ieuenctid, gwasanaethau cymdeithasol a thrwy ddatblygu grwpiau gweithredu ieuenctid.

Darparodd gweithwyr ieuenctid lefel uchel o gymorth i bobl ifanc a gwasanaethau addysg yn ystod y cyfnodau clo. Gweithiont ochr yn ochr â chydweithwyr eraill i gynnis cymorth gwerthfawr i bobl ifanc y nodwyd y byddant yn debygol o elwa ar ddarpariaeth hybiau mewn ysgolion. Lle'r oedd yn briodol, cynhaliodd gweithwyr ieuenctid ymweliadau rheoledig â chartrefi a chludo dros ddwy fil o barseli bwyd i deuluoedd. Roedd y gwasanaeth ieuenctid yn ystwyth wrth addasu ei ddarpariaeth i fodloni anghenion pobl ifanc yn well. Pan gaeodd canolfannau ieuenctid, gwnaeth gweithwyr ieuenctid waith allgymorth a helpodd timau i reoli digwyddiadau'n cynnwys gangiau o bobl ifanc.

Dros y 12 mis diwethaf, mae'r gwasanaeth ieuenctid wedi datblygu arlwy arloesol o waith ieuenctid digidol, sy'n darparu gwaith ieuenctid effeithiol i ystod ehangach o bobl ifanc yn y ddinas. Caiff y gwaith hwn ei arwain gan bobl ifanc, a gydweithiodd yn effeithiol â gweithwyr ieuenctid a datblygwyr gwe i greu gwefan bwrsol sy'n addas i bobl ifanc ar gyfer y gwasanaeth ieuenctid. Cydweithiont â phartneriaid a phenderfynu ar y cynnwys a'r platfform digidol mwyaf priodol ar gyfer gweithgareddau ar-lein. Mae'r awdurdod lleol wedi cydnabod gwerth y dull hwn ac mae ganddo gynlluniau i ddatblygu'r agwedd hon ar ddarpariaeth gwaith ieuenctid ymhellach.

Caiff pobl ifanc o ardaloedd difreintiedig o'r ddinas eu targedu'n effeithiol. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn cynnis gallu cyfyngedig i bobl ifanc o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol ehangach ar draws y ddinas fanteisio arno. O ganlyniad, nid yw pob unigolyn ifanc yn cael yr un cyfleoedd i elwa ar ddarpariaeth y gwasanaeth ieuenctid neu'r cymorth y mae gweithwyr ieuenctid yn ei gynnis.

Caiff gwasanaethau gwaith ieuenctid eu gwerthfawrogi'n fawr gan y rhai sy'n eu derbyn. Yn gyffredinol, nid yw gormod o arweinwyr ysgolion, llywodraethwyr a phartneriaid ehangach yn deall ehangder a photensial llawn y gwaith hwn o ran cefnogi pob unigolyn ifanc.

Mae enghreifftiau da o unigolion yn defnyddio'r Gymraeg â phobl ifanc fel rhan o'r arlwy gwaith ieuenctid. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod lleol yn defnyddio staff Cymraeg eu hiaith yn effeithiol i gyfoethogi ac ehangu arlwy'r gwasanaeth ieuenctid. At ei gilydd, nid oes arlwy ragweithiol ddigonol i bobl ifanc ymgysylltu â'r Gymraeg, ac nid yw gwaith ieuenctid mynediad agored drwy gyfrwng y Gymraeg wedi'i integreiddio'n dda mewn darpariaeth brif ffrwd.

Yn ddiweddar, mae'r cyngor wedi cyfeirio cyllid ychwanegol i gefnogi mentrau amrywiol i ymgysylltu â phobl ifanc a gwella eu hiechyd a lles er mwyn ymateb i'r pandemig. Fodd bynnag, mae cynaliadwyedd y mentrau hyn yn y dyfodol yn ansicr oherwydd y ddibyniaeth ar gyllid grant am gyfnod cyfyngedig o ffynonellau allanol.

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o ddarpariaeth. Mae trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn effeithiol. Mae cynlluniau strategol ar gyfer y gwasanaeth ieuenctid yn alinio'n dda â blaenoriaethau'r cyngor ac yn adlewyrchu ymrwymiad y cyngor i ddinas sy'n dda i blant. Yn ogystal, mae aelodau Fforwm Ieuenctid Caerdydd yn eistedd ar nifer o bwyllgorau craffu.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae uwch arweinwyr yn rhannu eu gweledigaeth ar gyfer pob dysgwr yn feiddgar ac yn glir gan gyfleu bod 'addysg yn bwysig i bawb' yn 'Uchelgais y Brifddinas'. Trwy'r 'Uchelgais Prifddinas', mae arweinydd y cyngor, aelod y cabinet a'r prif weithredwr yn pennu disgwyliadau uchel ar gyfer swyddogion, ysgolion a darparwyr eraill drwy roi ystyriaeth briodol i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Un o gryfderau amlwg yr awdurdod lleol yw'r gwaith â phartneriaid o fewn a'r tu hwnt i'r cyngor i gyflawni strategaethau allweddol yn effeithiol, gan gynnwys Addewid Caerdydd. Mae'r cyfarwyddwr addysg yn cefnogi'n llawn y weledigaeth strategol a'r blaenoriaethau sydd wedi'u hamlinellu yng ngweledigaeth 'Caerdydd 2030' a'r ymgyrch tuag at y strategaeth Dinas sy'n Dda i Blant. Mae uchelgeisiau corfforaethol yn llywio gwaith y tîm addysg yn berthnasol, ynghyd â blaenoriaethau penodol sydd wedi'u nodi o fewn y gyfarwyddiaeth.

Mae'r pwyllgor craffu plant a phobl ifanc yn darparu craffu cryf ac amserol ar nifer o faterion perthnasol y mae addysg yn yr awdurdod lleol yn eu hwynebu, gan gynnwys cynigion sensitif yn ymwneud â threfniadaeth ysgolion ac ystod o wasanaethau cymorth i ysgolion. Mae swyddogion, a phartneriaid gwadd, yn darparu adroddiadau clir a defnyddiol i'r pwyllgor. Mae uwch swyddogion yn cynorthwyo'r pwyllgor ymhellach drwy ddarparu eglurder a gwybodaeth ychwanegol berthnasol yn ystod cyfarfodydd a'r cyfnod cyn craffu. Mae'r pwyllgor craffu'n dilyn trywydd meysydd sydd â ffocws yn ei raglen waith ac yn ysgrifennu at yr aelod cabinet i fynegi ei arsylwadau gydag argymhellion heriol addas. Bu hyfforddiant i aelodau craffu yn fuddiol dros amser, ac mae'r cadeirydd ac aelodau'r pwyllgor wedi manteisio ar arweiniad defnyddiol ar eu rôl o o ran craffu a herio perfformiad neu bolisi. Er 2018, mae'r pwyllgor wedi cynnwys cynrychiolydd o'r fforwm ieuencid sy'n dod â safbwynt defnyddiol i drafodaethau craffu. Yn ystod y pandemig, cydweithiodd cadeirydd y pwyllgor craffu plant a phobl ifanc yn effeithiol â'r pedwar cadeiryddion craffu eraill, gan sicrhau bod addysg wrth wraidd penderfyniadau hanfodol yn ymwneud â COVID-19.

Mae ymrwymiad cryf aelodau etholedig a swyddogion ar bob lefel i gefnogi pobl ifanc a'u teuluoedd yn amlwg iawn. Aliniodd y cyfarwyddwr cynorthwyol addysg a'i gywerth sy'n gyfrifol am iechyd a diogelwch eu gwaith yn effeithiol ar hyd y pandemig. O ganlyniad, gallant ymateb yn gyflym i anghenion ysgolion a darparwyr eraill erbyn hyn wrth i'r sefyllfa o ran COVID-19 newid. Caiff y gefnogaeth hon ei pharchu'n fawr gan arweinwyr ysgolion a lleoliadau. Yn ystod y cyfnod hwn, mae swyddogion wedi meithrin perthynas gryfach a mwy cydweithredol ag arweinwyr ysgolion. Trwy'r gwaith hwn, maent wedi meithrin ymddiriedaeth ac wedi darparu sail gadarn ar gyfer gwaith gwella cydweithredol pwrpasol yn y dyfodol.

Mae uwch swyddogion ac aelodau etholedig yn deall yn dda yr heriau eang y mae'r gwasanaeth addysg yn eu hwynebu. Maent yn cydnabod ei bod yn adeg amserol i adnewyddu'r weledigaeth deng mlynedd "Caerdydd 2030", yn enwedig oherwydd y newidiadau mewn addysg oherwydd y pandemig, ac wedi cymryd camau cynnar i wneud hynny. Gan mwyaf, mae gan uwch swyddogion rolau a chyfrifoldebau clir sy'n gysylltiedig â gweithgareddau ar draws y gyfarwyddiaeth, ac maent yn cyflawni'r swyddogaethau hyn yn dda. Yn gyffredinol, mae timau gwasanaeth yn cyflawni eu gwaith yn fwriadus ac yn effeithiol. Mewn ychydig o achosion, nid yw timau'n casglu gwybodaeth berthnasol gan ysgolion, fel gwariant cyllid grant, i werthuso effaith eu

gwaith neu ddiwygio cynlluniau eu timau'n berthnasol. Mewn ychydig o achosion, nid yw llinellau atebolrwydd yn ddigon clir, er enghraifft o ran arweinyddiaeth strategol ar bob agwedd ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a datblygiad cyffredinol y Gymraeg ar draws ysgolion yng Nghaerdydd.

Mae ymrwymiad corfforaethol cryf i hunanwerthuso agored, rheolaidd a thrylwyr i gefnogi cynllunio ar gyfer gwella, ac mae hyn yn amlwg yn yr ymagwedd ffocysedig tuag at hunanwerthuso blaenoriaethau strategol yn y gyfarwyddiaeth addysg. Mae gwerthusiad y gyfarwyddiaeth ei hun o gynnydd yn erbyn ei blaenoriaethau yn cytuno'n gyffredinol â chanfyddiadau'r arolygiad hwn, a chaiff hyn ei adlewyrchu yn adroddiad lles blynyddol diweddaraf Caerdydd hefyd.

72. Bydd Gwasanaethau Pobl AD yn parhau i gefnogi Penaethiaid a Chyrff Llywodraethu cyfrwng Cymraeg i fynd i'r afael ag unrhyw heriau recriwtio y gallant ddod ar eu traws, yn benodol o ran cynllunio ac agor ysgolion newydd ac ehangu'r ddarpariaeth mewn eraill. Bydd cyngor hefyd yn parhau i fod ar gael ynghylch cynllunio'r gweithlu a strwythurau staffio ysgol gyfan.

73. Wrth i'r Cyngor barhau i gynyddu darpariaeth y Gymraeg ar draws ein hysgolion, bydd Gwasanaethau Pobl AD yn parhau i weithio gyda'r gyfarwyddiaeth Addysg a phartneriaid i nodi cyfleoedd i ddatblygu'r gweithlu presennol ac yn y dyfodol i ddiwallu anghenion ysgolion yng Nghaerdydd. Bydd hyn yn cynnwys cefnogi'r amrywiaeth gynyddol o fewn y gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg.

### **Goblygiadau Eiddo**

74. Bydd Ystadau Strategol yn cefnogi cydweithwyr Addysg ar unrhyw ofynion tir ac eiddo i gefnogi'r Cynllun hwn. Os oes angen unrhyw drafodion neu brisiadau tir sy'n deillio o hynny i gyflawni unrhyw gynigion, dylid gwneud hynny yn unol â phroses Rheoli Asedau'r Cyngor ac mewn ymgynghoriad ag Ystadau Strategol a meysydd gwasanaeth perthnasol.

### **Goblygiadau Traffig a Thrafnidiaeth**

#### **Cyd-destun Polisi Trafnidiaeth**

75. Mae Papur Gwyn Trafnidiaeth y Cyngor yn nodi ymrwymiad y Cyngor i gyflawni amrywiaeth o brosiectau trafndiaeth trawsnewidiol er mwyn helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, llygredd aer ac effeithiau andwyol dibyniaeth ar geir ar iechyd pobl.

76. Targed y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig yw sicrhau rhaniad 50:50 rhwng siwrneiau ceir a rhai ar droed, beic neu drafndiaeth gyhoeddus erbyn 2026.

77. Mae Papur Gwyn Trafnidiaeth y Cyngor yn gosod targed newid moddol llawer mwy uchelgeisiol ac mae'n ceisio sicrhau fod dros 60% o deithiau gwaith dyddiol i gael eu gwneud drwy ddulliau teithio cynaliadwy erbyn 2025 gyda'r gyfran hon yn cynyddu i tua 75% erbyn 2030.

78. Er mwyn cyrraedd y targed hwn bydd angen newidiadau i'r ffordd y mae plant yn teithio i'r ysgol.

79. Mae teithio i'r ysgol yn creu pwysau sylweddol ar rwydwaith trafndiaeth Caerdydd. Mae 30% o'r holl deithiau ceir yn ystod oriau brig y bore yn deithiau i'r ysgol. Gwneir tua 40,000 o deithiau mewn car i'r ysgol bob dydd yng Nghaerdydd.

80. Mae llawer o deithiau i'r ysgol yn fyr iawn: mae 75% o siwrneiau i addysg yng Nghaerdydd o fewn 3km i gartrefi pobl. Gellai mwy o'r teithiau hyn

gael eu gwneud drwy ddulliau llesol os yw pob ysgol wedi'i chysylltu'n dda â'u dalgylchoedd drwy lwybrau teithio llesol diogel a chyfleus.

81. Mae'r Papur gwyn Trafnidiaeth yn cynnwys yr ymrwymiad i "Ddatblygu Cynlluniau Teithio Llesol a llwybrau cerdded a beicio hygyrch ar gyfer pob ysgol drwy weithio gyda phlant, athrawon, rhieni a llywodraethwyr i hyrwyddo cerdded, sgwera a beicio nôl a blaen i'r ysgol;

#### Pellteroedd teithio

82. Nodir bod y pellter teithio cyfartalog i ddisgyblion ysgolion Cymraeg yn hirach nag i ysgolion Saesneg sydd yn nes at ei gilydd ac sydd â dalgylchoedd llai.
83. Gallai cyflawni'r targedau CSCA o weld disgyblion a addysgir mewn ysgolion Cymraeg yn cynyddu o 18% yn 2021 i 25-29% yn 2032 olygu y gallai fod angen mwy o ysgolion cyfrwng Cymraeg a gweld rhai ysgolion Saesneg yn newid i addysg cyfrwng Cymraeg. Gyda chynnydd yn nosbarthiad ysgolion Cymraeg, gallai'r pellter teithio cyfartalog i ysgolion cyfrwng Cymraeg leihau, gyda chynnydd cyfatebol yn y pellter teithio cyfartalog i ysgolion cyfrwng Saesneg. O ganlyniad, gall teithio cyfartalog cyffredinol i bellteroedd ysgol gynyddu oherwydd bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cael eu haddysgu mewn ysgolion Saesneg.

#### Teithio gan Ddysgwyr

84. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru i'r CSCA yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor nodi sut y bydd yn hyrwyddo mynediad i addysg o ran cludiant i ddysgwyr. Dylai'r Cyngor hefyd ystyried effaith polisïau cludiant ysgol a allai gael effaith andwyol ar gyfraddau trosglwyddo mewn ysgolion Cymraeg.
85. Mae Cyngor Caerdydd yn darparu cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i ddisgyblion Cymraeg sydd o oed ysgol statudol (5 i 16) sy'n byw 2 filltir neu fwy yn yr oed cynradd, neu 3 milltir neu fwy yn yr oed uwchradd, (wedi'i fesur yn ôl y pellter cerdded byrraf sydd ar gael) o'u hysgol dalgylch briodol agosaf ar gyfer eu cyfeiriad cartref.
86. Mae polisi cludiant presennol Cyngor Caerdydd o'r cartref i'r ysgol yn nodi bod 4 categori/math o ran yr ysgol briodol agosaf. Sef:-
- i. Yr Ysgol Gymunedol Cyfrwng Saesneg agosaf;
  - ii. Yr Ysgol Gymunedol Cyfrwng Cymraeg agosaf;
  - iii. Ysgol agosaf yr Eglwys yng Nghymru; ac
  - iv. Yr Ysgol Gatholig agosaf.
87. Yn unol â pholisi presennol y Cyngor, darperir cludiant am ddim i ddisgyblion sy'n byw mwy na'r pellteroedd cerdded statudol o'u hysgol Gymraeg ddalgylch briodol agosaf, heb ystyried a oes ysgol Saesneg neu ysgol Ffydd agosach.
88. Pan agorir ysgolion newydd a bod dalgylchoedd yn cael eu dynodi ar gyfer pob math/categori o ysgol, mae Caerdydd yn cymhwyso'r un

egwyddor i bob ysgol gan fod y dalgylch newydd yn berthnasol i bob disgybl sy'n dechrau mewn ysgol o'r mis Medi y mae'r newid yn dod i rym. Mae'r dalgylch newydd hefyd yn berthnasol i unrhyw ddisgyblion sy'n dechrau yn yr ysgol ym mhob blwyddyn ddilynol wedi hynny.

89. Gyda'r gostyngiad cyfartalog mewn pellter teithio i'r ysgol ar gyfer disgyblion cyfrwng Cymraeg, disgwylid y ceid gostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael cludiant i'w hysgol Gymraeg agosaf. I'r gwrthwyneb, efallai y bydd rhywfaint o gynnydd yn nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Saesneg sy'n gymwys i gael cludiant am ddim.
90. Bydd angen ystyried goblygiadau Teithio Dysgwyr unrhyw gynigion ar gyfer ysgolion Cymraeg newydd a throsi ysgolion Saesneg presennol yn rhai cyfrwng Cymraeg yn ofalus ar lefel cynllunio strategol y ddarpariaeth a thrwy bob cam o ddatblygu prosiectau unigol (adeiladau newydd a newidiadau i ysgolion presennol). Bydd hyn yn cynnwys ystyried goblygiadau cost unrhyw gynnydd yn yr hawl i gludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol ac effaith polisiâu cludiant o'r cartref i'r ysgol y Cyngor ar fynediad i addysg Gymraeg.

#### Cynlluniau Teithio Llesol i'r Ysgol

91. Mae'r Cyngor am gynyddu nifer y disgyblion sy'n teithio i ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg drwy gerdded a beicio yn hytrach na chael eu gyrru. Mae'r Cyngor wedi ymrwmo i sicrhau bod gan bob ysgol yng Nghaerdydd Gynllun Teithio Llesol erbyn 2022. Mae cynllun felly'n nodi camau gan yr ysgol i gynorthwyo ac annog teithio llesol i'r ysgol a bydd hefyd yn nodi unrhyw welliannau i seilwaith ar ac oddi ar y safle sy'n angenrheidiol i hwyluso teithiau llesol.
92. Bydd unrhyw ddatblygiadau ysgol newydd neu ehangu safleoedd ysgol presennol sy'n deillio o'r CSCA yn rhoi cyfle i sicrhau bod seilwaith teithio llesol yn cael ei gynllunio a'i ddarparu'n briodol fel elfen hanfodol ac annatod o ddyluniad y cynllun.
93. Yn allweddol i hyn fydd sicrhau fod dyluniad a gosodiad yr adeiladau a'r trefniadau mynediad i'r safle yn rhoi blaenoriaeth i deithio llesol a dulliau teithio cynaliadwy. Elfennau allweddol eraill fydd lleoliad y pwyntiau mynediad mewn safleoedd a fydd yn ystyried aliniad y rhwydwaith ffyrdd a llwybrau ger llaw ac a fydd yn anelu at gadw pellteroedd cerdded a beicio mor fyr â phosib ac osgoi gwyradau diangen i bobl yn teithio ar droed ac ar feic. Mae datblygu'r safle newydd arfaethedig yn rhoi cyfle i ddylunio mynedfeydd mewn lleoliadau mwy priodol a chyfleus sy'n gweddu'r hyn y dymunir ei weld.
94. Bydd angen i bob ysgol Gymraeg newydd neu ysgol sydd wedi newid/ehangu i fod yn gyfrwng Cymraeg gael Cynllun Teithio Llesol ar waith o ddechrau eu gweithrediad. Dylai Cynllun Teithio Llesol ar gyfer safle ysgol newydd neu ysgol sydd wedi newid i fod yn Gymraeg gael ei lywio gan Asesiad Trafnidiaeth (ar gyfer adeiladu o'r newydd neu ehangu safle sy'n bodoli eisoes) ac unrhyw Gynllun Teithio Llesol sy'n bod eisoes

a'i ddatblygu gyda chyfranogiad llawn y disgyblion a'r staff a chynnwys disgyblion a staff ym mhoblogaethau'r ysgolion sy'n bwydo, lle bo'n bosibl. Dylai'r Cynllun Teithio Llesol ar gyfer ysgol uwchradd fod yn gysylltiedig â'r Cynlluniau Teithio Llesol ar gyfer yr ysgolion clwstwr lleol. Bydd hyn yn helpu i annog teithio llesol ar draws pob grŵp oedran a sicrhau y bydd pob disgybl sy'n mynd i'r ysgol newydd yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen arnynt i deithio i'r ysgol trwy ddulliau llesol. Gall swyddogion Cynlluniau Teithio Llesol y Cyngor gefnogi datblygu Cynllun Teithio Llesol a'i roi ar waith. Gellir cynnig cymorth arall drwy Dîm Diogelwch ar y Ffyrdd y Cyngor sy'n darparu Hyfforddiant Beicio Safonau Cenedlaethol i ysgolion yng Nghaerdydd.

### **Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

95. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb cychwynnol wedi'i wneud. Daeth i'r casgliad y byddai'r CSCA drafft yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad y Gymraeg ac na fyddai'n effeithio'n negyddol ar grŵp penodol mewn cymdeithas. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei atodi fel Atodiad 3.

96. Bydd yr Asesiad Effaith hwn yn cael ei adolygu ar ôl yr ymgynghoriad.

### **ARGYMHELLION**

Argymhellir i'r Cabinet wneud y canlynol:

- (i) Cymeradwyo CSCA 2022-2031 i'w gyflwyno i Weinidogion Llywodraeth Cymru.
- (ii) Cymeradwyo cyhoeddi CSCA 2022-2031 ar wefan y Cyngor yn dilyn cymeradwyaeth gan Weinidogion Llywodraeth Cymru.
- (iii) Dirprwyo cyfrifoldeb i'r Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes i ddatblygu a gweithredu cynlluniau gweithredol ar y cyd â'r Fforwm Addysg Gymraeg i gyflawni'r mesurau llwyddiant a nodir yn y strategaeth.

<b>UWCH SWYDDOG CYFRIFOL</b>	<b>Enw'r Cyfarwyddwr</b>
Richard Portas	Melanie Godfrey
	Dyddiad cyflwyno i swyddfa'r Cabinet

*Atodir yr atodiadau canlynol:*

Atodiad 1: CSCA Caerdydd 2022-2031

Atodiad 2: Crynodeb o'r materion a godwyd a dadansoddi ymatebion

Atodiad 3: Ymatebion ffurfiol yn llawn

Atodiad 4: Adroddiad Cryno ar yr Arolwg Cyhoeddus

Atodiad 5: Adroddiad Cryno ar yr Ymgynghoriad Disgyblion 'Sgwrs Fawr y Gymraeg'

Atodiad 6: Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

*Rhoddwyd ystyriaeth i'r papurau cefndir canlynol:*

Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, Ionawr 2021.



## CSCA Caerdydd 2022-2032 - DRAFFT YMGYNGHORI

### Rhagair

#### Ein gweledigaeth yw gweld Caerdydd sy'n wirioneddol ddwyieithog.

Rydym wedi cymryd camau breision tuag at y weledigaeth hon, ond ni allwn orffwys ar ein rhwyfau. Mae rhagor gennym i'w wneud o hyd er mwyn sicrhau bod prifddinas Cymru yn fan lle mae'r Gymraeg yn iaith fyw a bywiog y mae pob person ifanc yn cael cyfle i'w chlywed, ei siarad a'i mwynhau ym mhob agwedd ar eu bywydau ac yn cael ei chydabod fel iaith sy'n agos at galon prifddinas ein cenedl.

Teimlaf yn gryf dros bwysigrwydd creu cyfleoedd i blant a phobl ifanc prifddinas Cymru ddod yn siaradwyr hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg. Rydym am i'n system addysg sicrhau bod pob person ifanc, o bob un cymuned ledled Caerdydd yn cael y cyfle i siarad Cymraeg, i fod yn falch o'u hunaniaeth ac yn gallu dathlu a mwynhau'r ddwy iaith yn eu bywydau bob dydd.

Mae twf parhaus ein sector addysg Gymraeg ar draws pob cyfnod yn hanfodol i gyflawni hyn er mwyn cynyddu nifer y bobl o bob oed sy'n dod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg. Rydym yn falch o fod yn ddinas amrywiol amlieithog; ein hawydd yw adeiladu ar hyn ac i bob person ifanc gael yr hyder a'r gallu i ddefnyddio eu holl ieithoedd yn hyderus gyda'u teuluoedd, eu cymunedau ac yn ddiweddarach i gario'r cyfoeth hwn o wybodaeth ieithyddol i'w manau gwaith a'u bywydau fel oedolion.

Profwyd bod gallu dwyieithog neu amlieithog ag iddo nifer o fanteision, o enedigaeth hyd at henaint gyda dros hanner poblogaeth y byd yn gallu siarad dwy iaith neu fwy. Drwy alluogi ein pobl ifanc i fod yn ddwyieithog rydym yn gwneud dewis gweithredol i gynyddu datblygiad eu gweithrediadau gwybyddol a chymdeithasol. Wrth iddynt ddod yn oedolion dwyieithog, byddant yn cael mwy o gyfleoedd o fewn y gweithlu wrth i fwy o sefydliadau ledled y wlad ddarparu eu gwasanaethau yn Gymraeg ac yn Saesneg. Pan ychwanegwch at hyn, y gall bod yn ddwyieithog helpu i ddiogelu rhag dechrau dementia, mae'n amlwg yng Nghymru mai'r Gymraeg yw ein rhodd i'w rhannu, rhodd sy'n ehangu cyfleoedd nid yn unig ar gyfer plentyndod ond gydol oes.

Mae'r Strategaeth Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd hon yn ceisio nodi'n glir ymrwymiad cadarn, dyheadau clir a'r camau yr ydym yn bwriadu eu blaenoriaethu yng Nghaerdydd gyda'n partneriaid i gryfhau twf addysg Gymraeg ymhellach a nifer ein dinasyddion sy'n ymgysylltu'n weithredol â'r Gymraeg ac yn ei defnyddio'n hyderus. Bydd hyn yn ei dro yn cyfrannu at godi proffil ein hiaith genedlaethol a'r mwynhad ohoni nawr ac yn y dyfodol.

#### Arweinydd, Aelod Cabinet dros Addysg, Y Cyfarwyddwr Addysg

## **Prifddinas Cymru. Prifddinas Gymraeg.**

Yn ogystal â bod yn Brifddinas Cymru, mae gan Gaerdydd rôl bwysig i'w chwarae fel Prifddinas Gymraeg.

Mae hyn yn fwy na rôl symbolaidd. Ar ôl gweld twf sylweddol yn y boblogaeth dros y ddau ddegawd diwethaf, mae Caerdydd wedi gwneud cyfraniad trawiadol at dwf y Gymraeg.

Dros y 30 mlynedd ddiwethaf, mae nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd wedi mwy na dyblu gyda ffigyrau'r cyfrifiad diwethaf yn dangos bod dros 16% o boblogaeth y ddinas yn meddu ar un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg. Mae gan Gaerdydd ar hyn o bryd y trydydd nifer uchaf<sup>1</sup> o siaradwyr Cymraeg fesul awdurdod lleol yng Nghymru.

Mae hyn yn adlewyrchu'r gwaith rhagorol a wnaed ar draws y ddinas - yn cynnwys amrywiaeth o bartneriaid - i hyrwyddo'r Gymraeg ac yn dangos effaith mentrau partneriaeth fel y rhai a ddatblygwyd gan Weithgor Caerdydd Ddwyeithog.

Yr hyn sy'n amlwg hefyd yw pwysigrwydd canolog addysg Gymraeg ar gyfer twf y Gymraeg. Mae data'r Cyfrifiad yn dweud wrthym, ymhlith unigolion 5-15 oed, fod canran y disgyblion sy'n gallu siarad Cymraeg wedi cynyddu o 7.5% yn 1981 i 26.7% yn 2011. Mae data derbyn i ysgolion mwy diweddar hefyd yn dangos bod nifer y plant sydd wedi cofrestru mewn addysg Gymraeg wedi cynyddu 16% (1,752 o ddisgyblion) rhwng 2012 a 2018.

Mae'r ymrwymiad i wneud pob ysgol yng Nghaerdydd yn ysgol dda, y buddsoddiad o £280m mewn ysgolion a'r gwelliant parhaus o ran cyrhaeddiad addysgol i gyd wedi bod yn sail i'r twf hwn. Wrth i Gaerdydd edrych i'r 10 mlynedd nesaf, bydd y Cyngor yn cadw ei ymrwymiad i wneud pob ysgol yng Nghaerdydd yn ysgol dda tra'n sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i fod yn nodwedd ddiffiniol ar addysg yng Nghaerdydd.

Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn nodi cyfres o ymrwymadau uchelgeisiol i adeiladu ar y cynnydd a wnaed hyd yma. Bydd y rhain yn sicrhau bod pob plentyn yn y ddinas yn gallu derbyn addysg Gymraeg, y bydd y nifer sy'n derbyn addysg Gymraeg yn cynyddu ac, drwy'r defnydd sylweddol ar y Gymraeg mewn addysg cyfrwng Saesneg, y bydd pob plentyn yn teimlo'n hyderus yn siarad Cymraeg.

---

<sup>1</sup> Arolwg Blynyddol y Boblogaeth

## **Ein gweledigaeth: Caerdydd wirioneddol ddwyieithog.**

Byddwn yn sicrhau twf ein sector addysg Gymraeg ar draws pob cyfnod er mwyn cynyddu nifer y bobl o bob oed sy'n dod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg gyda'r hyder a'r awydd i ddefnyddio eu holl ieithoedd ym mhob agwedd ar eu bywydau.

### **Yn sail i'n gweledigaeth mae'r egwyddorion canlynol:**

- Bydd egwyddorion y 'cymdogaethau 15-munud'<sup>2</sup> yn cael eu cymhwysu i sicrhau bod pob dysgwr yn gallu cyrchu addysg Gymraeg o fewn pellter rhesymol i'w cartrefi.
- Ceisio sefydlu o leiaf 50% o'r ddarpariaeth newydd ar safleoedd y CDLI fel darpariaeth cyfrwng Gymraeg.
- Gall pob plentyn yn y ddinas ddewis derbyn eu haddysg yn yr iaith o'u dewis gyda manteision addysg ddwyieithog yn cael eu hyrwyddo'n weithredol i bob rhiant o eni'r plentyn.
- Bydd rhieni'n cael cymorth i drosglwyddo eu plentyn, neu blant, i addysg Gymraeg ar unrhyw oedran, gyda throchi o ansawdd uchel yn cael ei gynnig i gefnogi ceisiadau trosglwyddo yn ystod y flwyddyn.
- Bydd dysgwyr sydd wedi cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg drwy'r cyfnod cynradd yn cael eu cefnogi'n rhagweithiol i barhau â darpariaeth uwchradd Gymraeg.
- Bydd y Cyngor yn gweithio gydag ystod eang o bartneriaid i hyrwyddo a chynyddu'n rhagweithiol ddwyieithrwydd Gymraeg/Saesneg.
- Bydd pob dysgwr yn cael cymorth i fod yn hyderus mewn dwy iaith o leiaf.
- Bydd holl ysgolion Caerdydd yn cynyddu faint o Gymraeg a addysgir, a ddefnyddir ac a glywir yn eu hysgolion, yn gyson â'r Cwricwlwm i Gymru newydd.
- Bydd dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cael cyfle ieithyddol cyfartal.
- Bydd dysgwyr sydd â'r Gymraeg neu'r Saesneg fel ieithoedd ychwanegol yn cael cyfle ieithyddol cyfartal.
- Er mwyn hwyluso twf addysg Gymraeg byddwn yn ceisio cynnal capasiti ledled y ddinas yn y sector Gymraeg ar 10% uwchlaw'r nifer a ragamcenir.

---

<sup>2</sup> [Cynllun Corfforaethol \(caerdydd.gov.uk\)](http://caerdydd.gov.uk) t.56

**Er mwyn gwireddu ein gweledigaeth byddwn yn sicrhau bod:**

- Mwy o blant meithrin/tair oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg
- Mwy o blant dosbarth derbyn/pump oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg
- Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cam o'u haddysg statudol i'r llall.
- Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau asesedig mewn Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol.
- Cynnydd yn y ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) (yn unol â'r dyletswyddau a osodir gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thriwlynlys Addysg (Cymru) 2018.
- Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

## **Cymraeg 2050**

### ***Miliwn o Siaradwyr Cymraeg a phwysigrwydd Addysg Gymraeg***

#### Cyd-destun Strategol

Yn 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth Gymraeg *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg* yn unol ag Adran 78 Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r strategaeth yn cefnogi 'hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg' a'i nod hirdymor yw i Gymru gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae'r strategaeth yn enwi addysg drochi cyfrwng Cymraeg fel y 'prif ddull ar gyfer sicrhau bod plant yn gallu datblygu eu sgiliau Cymraeg, ac ar gyfer creu siaradwyr newydd' (*Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg, tud21*). Felly, bydd argaeledd addysg Gymraeg yn allweddol i gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg.

Y targed cenedlaethol yw “*Cynyddu cyfran pob grŵp blwyddyn ysgol sy'n derbyn addysg Gymraeg o 22 y cant (yn seiliedig ar 7,700 o ddysgwyr saith oed yn 2015/16) i 30 y cant (tua 10,500 ym mhob grŵp blwyddyn) erbyn 2031, ac yna 40 y cant (tua 14,000 ym mhob grŵp blwyddyn) erbyn 2050.*”

Cydnabyddir yn y strategaeth y bydd y dull yn amrywio ar draws gwahanol ranbarthau yng Nghymru yn dibynnu ar nodweddion eu poblogaethau. Mae'r strategaeth hefyd yn nodi ardaloedd sydd â dwysedd poblogaeth uchel ond canran is o siaradwyr Cymraeg fel ardaloedd sydd â photensial penodol ar gyfer twf.

Mae Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol osod targed deng mlynedd yn amlinellu'r cynnydd disgwylidig yn y plant Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ardal yr awdurdod lleol yn ystod oes Cynllun.

Mae Caerdydd wedi ymrwmo i sicrhau graddfa o dwf yn unol â'r 25-29% fel ag a roddwyd gan Lywodraeth Cymru<sup>3</sup>. Fodd bynnag, rhaid i'r targed lleol gydbwysu uchelgais gyda dealltwriaeth o'r tueddiadau sy'n bodoli, sy'n cynnwys gostyngiad yn y cyfraddau geni ac ansicrwydd cynyddol yn ymwneud â dewisiadau derbyn i ysgolion oherwydd y pandemig.

Targed deng mlynedd Caerdydd felly yw "cynyddu canran y plant Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghaerdydd 9% i 27% o'r garfan gymwys."

Gwyddom o'n profiad ein hunain ac fel y nodir yn Cymraeg 2050 mai addysg drochi Gymraeg lawn – h.y. addysg mewn lleoliad Cymraeg neu drwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf – yw'r ffordd fwyaf effeithiol a dibynadwy o greu unigolion sydd â'r sgiliau a'r hyder angenrheidiol i'w galluogi i ddefnyddio'r iaith yn naturiol ac yn gyfforddus yn eu bywydau bob dydd.

Wrth i'r cwricwlwm newydd gael ei gyflwyno bydd rôl addysg cyfrwng Saesneg yn dod yn gliriach o ran ei gallu i gynhyrchu dysgwyr sy'n gallu defnyddio'r Gymraeg ac sydd

---

<sup>3</sup> I gael esboniad manwl o'r fethodoleg a weithredwyd ar gyfer pennu'r targed hwn, gweler y Nodyn Technegol yn ([canllawiau-cynllun-strategol-cymraeg-mewn-addysg.pdf \(llyw.cymru\)](#))

am ddefnyddio'r Gymraeg wrth symud ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant neu yn ystod eu gyrfa.

### Cefndir deddfwriaethol a Statudol ar gyfer y CSCA

Un o'r prif flaenoriaethau yw trawsnewid sut mae'r Gymraeg yn cael ei haddysgu a'i hasesu er mwyn sicrhau y gall pob dysgwr fod yn hyderus yn eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg pan fyddant yn gadael yr ysgol.

Er mwyn annog a hwyluso twf hirdymor a chynaliadwy ar gyfer addysg Gymraeg a gwella safonau addysgu Cymraeg, bydd y CSCA yn ystyried y canlynol:

- Diwygiadau i'r system addysg (h.y. cwricwlwm ac asesu, atebolrwydd datblygu'r gweithlu a'r ymagwedd cenedlaethol tuag at ddysgu proffesiynol).
- Gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018
- Rhaglen Colegau ac Ysgolion yr 21ain Ganrif
- Canllawiau gwella ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd
- Aseidiadau Digonolrwydd Gofal Plant
- Cytundeb cyfreithiol a wneir dan adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990
- Gwasanaethau plant a phobl ifanc
- Cod derbyn i ysgolion
- Cod trefniadaeth ysgolion
- Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008
- Hyfforddiant ac Addysg Ôl-16
- Strategaethau Hyrwyddo 5 mlynedd awdurdodau lleol, a wnaed o dan safon 145 a 146 Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015
- Cynlluniau Datblygu Lleol

### Cyd-destun Demograffig

Dadansoddiad manwl o dueddiadau poblogaeth yng Nghaerdydd, gan ddefnyddio amcanestyniadau poblogaeth Llywodraeth Cymru a'r rhagolygon a baratowyd gan ddefnyddio data cofrestru meddygon teulu'r GIG, sy'n darogan lleihad mewn cyfraddau geni ledled y ddinas. O gofio'r cyd-destun hwn, mae'n amlwg y bydd sicrhau'r twf a dargedir yn y sector Cymraeg yn gofyn am ddull sy'n cydnabod holl

anghenion a nodweddion gwahanol ein cymunedau lleol wrth ddwyn cynigion ger bron ar gyfer newid.

Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda'r holl bartneriaid a rhanddeiliaid er mwyn sicrhau bod addysg Gymraeg yn cael ei dosbarthu'n effeithiol ledled y ddinas, gan wneud y mwyaf o'r ddarpariaeth bresennol a'i gwella ac ychwanegu capasiti yn ôl yr angen yn y lleoliadau cywir. Bydd hyn yn berthnasol i bob cam dysgu, o'r blynyddoedd cynnar drwy'r ddarpariaeth addysg statudol yr holl ffordd drwodd i addysg uwch ac addysg bellach.

### Ehangu Addysg Gymraeg

Mae Caerdydd wedi buddsoddi'n sylweddol yn nhwf addysg Gymraeg drwy ddarparu lleoedd ychwanegol wrth fynd i addysg gynradd ac wrth drosglwyddo i addysg uwchradd. Mae sefydlu'r ddarpariaeth drochi hynod lwyddiannus hefyd wedi chwarae rhan hanfodol o ran cefnogi a chynyddu nifer y trosglwyddiadau yn ystod y flwyddyn.

Ers 2010, mae Caerdydd wedi cynyddu'r capasiti Cymraeg sydd ar gael ar fynd i'r sector cynradd oddeutu 6 dosbarth mynediad (DM) ac mae nifer y disgyblion derbyn wedi cynyddu tua 0.25% y flwyddyn ar gyfartaledd rhwng Medi 2015 a Medi 2020.

Yn yr un cyfnod, ar lefel uwchradd mae'r awdurdod wedi sefydlu trydedd ysgol Gymraeg yng Nghaerdydd ynghyd ag ychwanegu capasiti yn un o'r ysgolion a oedd yma'n barod gan arwain at gynydd cyffredinol o 7DM wrth fynd i flwyddyn 7.

Mae Caerdydd hefyd wedi sefydlu ei darpariaeth Drochi Cymraeg hynod lwyddiannus. Wedi'i sefydlu i ddechrau yn y sector cynradd i gefnogi rhieni i drosglwyddo eu plant i addysg cyfrwng Cymraeg, mae'r ddarpariaeth wedi tyfu i groesawu disgyblion yn CA3 a CA4. Mae hyn wedi golygu y gall disgyblion o Gaerdydd ac awdurdodau cyfagos bontio'n effeithiol o ysgolion Saesneg i ysgolion Cymraeg, gan ddod yn fyfyrwyr cwbl ddwyieithog a phrofi llwyddiant wrth gyrraedd pob carreg filltir allweddol.

### Cydnabod heriau Cyflawni a Hyrwyddo'r Gymraeg drwy gydol ein Sector Addysg

Mae twf addysg Gymraeg yn llwyddiant y dylid ei ddathlu'n briodol, ond mae'n amlwg bod mwy i'w wneud. Er y bu cynnydd o ran maint y ddarpariaeth o ansawdd uchel a'r nifer sy'n manteisio ar leoedd cyfrwng Cymraeg, mae heriau'n parhau o hyd ynghlwm â thwf parhaus, yn enwedig o ystyried y gostyngiad yn y cyfraddau geni a'r angen i ddiwallu anghenion ein cymunedau amrywiol.

Wrth symud ymlaen byddwn yn sicrhau, fel dinas amrywiol, bod pawb yn deall manteision addysg Gymraeg a'r manteision cadarnhaol o gofleidio'r Gymraeg. Bydd hyn yn golygu ymgysylltu â chymunedau nad ydynt yn draddodiadol efallai wedi ystyried addysg Gymraeg i'w plant a datblygu dulliau wedi'u teilwra ar gyfer pob cymuned.

Yn ogystal â chynyddu nifer y bobl sy'n derbyn darpariaeth Gymraeg o'r blynyddoedd cynnar ac ar ddechrau addysg statudol, mae angen hefyd ystyried ymhellach rôl bosibl y ddarpariaeth Trochi Cymraeg fel rhan o strategaeth ragweithiol ar gyfer twf yn y dyfodol.

Mae hyn yn rhan o ddull cydgysylltiedig o sicrhau bod teuluoedd yn teimlo'n hyderus ac yn cael eu cefnogi pe baent yn dewis darpariaeth Gymraeg. Bydd hyn yn gofyn am rwydwaith cymorth pwrpasol sy'n rhan o'r cynnig ysgol ffurfiol ac nid yw'r pandemig diweddar ond wedi pwysleisio'r angen am gymorth caffael iaith dwys o'r math hwn. Yn ychwanegol at hyn, mae angen pwysleisio argaeledd lleoedd arbenigol yn y sector Cymraeg ar gyfer plant sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a fydd yn eu galluogi i weld cynnydd yn unol â'u potensial.

Yn gyson ag ymrwymïadau'r Cyngor fel Dinas sy'n Dda i Blant, bydd y Cyngor yn parhau i ymgysylltu â phobl ifanc a'u teuluoedd ar nifer o faterion pwysig. Mae deall y rhesymau pam mae teuluoedd wedi dewis addysg Gymraeg, neu efallai pam nad ydynt wedi dewis Cymraeg i'w plant, yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Mae angen deall hefyd pam y byddai pobl ifanc a allai fod wedi derbyn addysg statudol Gymraeg yn dewis peidio â dilyn addysg bellach neu addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn yr un modd, mae angen deall yn well pam y gallai diffyg hyder fod ar rai pobl ifanc i ddefnyddio unrhyw Gymraeg yn eu gyrfaedd fel oedolion a'r hyn y credant y gallem ni ei wneud i newid hyn.

Rydym hefyd yn cydnabod nad yw manteision clywed, siarad a mwynhau dysgu yn Gymraeg wedi'u cyfyngu i'r rhai sy'n dewis addysg Gymraeg. Mae'n bwysig bod y Cyngor yn gosod disgwyliadau uchel o ran sut y bydd y cwricwlwm i Gymru newydd yn cael ei gyflwyno o ran darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer caffael iaith drwy ddysgu a defnyddio mwy o Gymraeg yn ein hysgolion Saesneg. Mae datblygiad ein model iaith ddeuol newydd i sicrhau ei fod yn cael ei weithredu'n llwyddiannus yn flaenoriaeth os ydym am sefydlu hyn fel templed ar gyfer ysgolion newydd eraill yn y dyfodol. Mae'r Strategaeth hon felly'n ailddatgan ymrwymïad Cyngor Caerdydd i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y ddinas a gwella faint o Gymraeg a ddefnyddir ym mhob un o'n hysgolion a'n darpariaethau addysgol.

### Llunio darpariaeth yn y Ddinas

Bydd sicrhau twf cynaliadwy lleoedd cyfrwng Cymraeg a sicrhau cynnydd yn y galw yng nghyd-destun gostyngiad mewn cyfraddau geni yn gofyn am gynllunio manwl ar sail gwybodaeth. Mae dyrannu lleoedd cyfrwng Cymraeg o fewn y rhaglen fuddsoddi ysgolion Band B bresennol yn fan cychwyn rhagorol. Wrth symud ymlaen, mae'r cyfle i wneud y mwyaf o effaith Grantiau Cyfalaf Addysg Gymraeg, dyraniad ysgolion newydd a gaiff eu sicrhau drwy'r Cynllun Datblygu Lleol a'r potensial i ehangu'r ddarpariaeth ymhellach drwy Raglen Buddsoddi Mewn Ysgolion Band C yn cynnig cyfleoedd pellach sylweddol.

Mae Caerdydd hefyd yn parhau i fod â'r swm a argymhellir o lefydd gwag yn y sector cynradd Cymraeg, er bod amrywiannau yn y cyfraddau derbyn ar draws y ddinas. Mae hyn yn golygu bod pocedi o annigonolrwydd a nifer fach o ysgolion sy'n ei chael hi'n anodd denu nifer gyson o ddisgyblion i gefnogi hyfywedd.

Yn yr uwchradd, mae'r galw am leoedd wrth bontio i Flwyddyn 7 yn uchel ac mae lleoedd wedi'u cynyddu er mwyn ymateb i hyn wrth i'r garfan fwy ei maint o ddysgwyr symud ymlaen o'r sector cynradd. Fodd bynnag, roedd hyn cyn y gostyngiad a ragamcennir yn y boblogaeth gyffredinol. Yn yr ysgolion cynradd ac uwchradd hynny,



mae gwaith yn mynd rhagddo i fynd i'r afael ag unrhyw gynnydd dros dro tymor byr a ragwelir i ddarparu ar gyfer carfanau poblogaeth ehangach penodol er mwyn sicrhau digonolrwydd lleoedd yn yr ardaloedd perthnasol. Gwneir hyn yng nghyd-destun ymarfer tymor hwy i nodi sut y gall buddsoddiad cyfalaf ar raddfa fawr yn hanner olaf y CSCA hwn gefnogi twf yn effeithiol ac yn gynaliadwy.

Wrth symud ymlaen, bydd Rhaglen Ysgolion Band B yr 21ain Ganrif uchelgeisiol y Cyngor yn buddsoddi £283 miliwn yn Ysgolion Caerdydd. Fel y rhaglen fuddsoddi ysgolion fwyaf yng Nghymru, bydd yn cynyddu'r ddarpariaeth ac yn gwella dosbarthiad capasiti ysgolion meithrin ac ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg. Bydd hefyd yn gwella'r cyfleusterau cymunedol sydd ar gael i gefnogi anghenion gofal plant ehangach. Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd unrhyw raglenni buddsoddi mewn ysgolion - fel Band C - yn cynnwys buddsoddiad ar raddfa fawr i ehangu'r sector Cymraeg uwchradd.

Er mwyn cyflawni'r targedau uchelgeisiol a osodwyd yn genedlaethol, ac er mwyn llwyddo i gyflawni ein dyheadau o ran addysg Gymraeg, mae angen ar fyrder i gynyddu nifer yr athrawon sy'n siarad Cymraeg yn rhugl. Mae hon yn her genedlaethol na ellir ei gorbwysleisio ac mae'n un a fydd yn gofyn am ymateb cydgysylltiedig gan bob lefel o Lywodraeth yng Nghymru. Felly, mae maint yr her yn mynnu lefelau digynsail o gydweithio ac ymyrraeth i sicrhau nad yw ansawdd uchel addysg Gymraeg yn cael ei wanhau ac y gellir gwella faint o Gymraeg a addysgir ar draws y system addysg.

### Prifddinas Gymraeg

Fel Prifddinas i Gymru, mae Caerdydd wedi ymrwymo i gefnogi'r gwaith o gyflawni Cymraeg 2050, ac mae'r Cyngor yn cydnabod yn llawn bwysigrwydd y gyfundrefn addysg wrth gyflawni'r dyhead hwn.

Felly, mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yn nodi cynllun deng mlynedd Cyngor Caerdydd i gynyddu a gwella'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a'r Gymraeg fel pwnc addysgol. Mae'n adeiladu ar ein cyflawniadau hyd yma ac yn nodi'r camau y bwriadwn eu cymryd er mwyn gwneud pob dysgwr yng Nghaerdydd yn siaradwyr Cymraeg hyderus.

## **Addewid Caerdydd i Weithredu**

Mae'r adran hon o'r cynllun yn nodi'r camau y bwriadwn eu cymryd fel Cyngor Caerdydd ynghyd â'n partneriaid fel ein hymrwymiad ar y cyd i gyflawni'r canlyniadau a nodwyd. O dan bob un o'r saith deilliant ceir gwybodaeth am rai o'n cyflawniadau diweddaraf ynghyd â'r sefyllfa bresennol, a'r camau penodol a gymerwn ar gyfer pob deilliant dros oes y cynllun hwn.

Mae'r camau trosfwaol hyn wedi'u rhannu'n ddau gyfnod o bum mlynedd yr un. Y set gyntaf o gamau gweithredu yw'r rhai yr ydym yn disgwyl eu blaenoriaethu yn hanner cyntaf y cynllun a fydd yn cyd-fynd â Strategaeth Caerdydd Ddwieithog 5 Mlynedd Cyngor Caerdydd gyda nifer o dargedau a rennir. Bydd llawer o'r rhain yn sail i'r hyn sy'n dilyn a/neu'n sicrhau bod y camau gweithredu yn ystod yr ail bum mlynedd olaf wedi eu seilio ar wybodaeth ac yn adeiladu ar ddealltwriaeth gadarn o'r hyn y mae cymunedau lleol yn ei ddymuno gan eu hysgolion ac angen sicrhau bod yr hyder ganddynt i gofleidio'r iaith gyda'u plant ac ar gyfer eu haddysg.

Bydd hefyd yn cynnwys unrhyw gamau y mae eu hangen i sicrhau unrhyw gapasiti angenrheidiol er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cynnig lle cyfrwng Cymraeg i unrhyw deulu sy'n gofyn am le, ynghyd ag ymateb i'r angen i wella'r gefnogaeth yn dilyn y pandemig er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu cyflawni eu potensial waeth beth fo'r heriau a achoswyd gan y tarfu hwn ar eu darpariaethau dysgu arferol.

Bydd yr ail bum mlynedd yn cynnwys mwy o gapasiti parhaol a fydd yn golygu bod angen ymgynghori statudol ac mewn rhai achosion gyfnodau cyn-adeiladu a chyfnodau adeiladu. Bydd hefyd yn adeiladu ar yr enillion cynnar o ran uwchsgilio iaith ymhlith y gweithlu ac yn galluogi mwy o gynnydd yn y Gymraeg a addysgir, a ddefnyddir ac a glywir ar draws pob ysgol yng Nghaerdydd ac mewn ystod ehangach o sefyllfaoedd cymdeithasol a gweithgareddau allgyrsiol.

Erbyn diwedd y cyfnod hwn byddem yn disgwyl ein bod wedi cyflawni'r camau gweithredu a nodir yn y cynllun hwn a bod gennym ddealltwriaeth gadarn o sut rydym yn bwriadu symud ymlaen ac adeiladu ar ein cyflawniadau i gynllunio ar gyfer y CSCA nesaf er mwyn sicrhau ein bod yn parhau ar ein taflwybr fel rhan o'r daith genedlaethol tuag at Gymru gydag o leiaf 1 miliwn o bobl sy'n nodi eu bod yn hyderus i siarad a defnyddio'r Gymraeg.

## **Y Camau Nesaf**

Bydd rhagor o fanylion a chynlluniau gweithredu i alluogi gweithredu'r camau isod yn deillio o'r strategaeth gymeradwy cyn ei gweithredu yn rhan olaf 2022. Bydd y cynlluniau gweithredu hyn yn rhoi mwy o fanylion yn nodi cerrig milltir, dangosyddion llwyddiant, partneriaid sy'n cyd-fynd â chyflawni targedau a bennwyd ynghyd â gwybodaeth am fonitro a gwerthuso i gefnogi gwaith partneriaeth ac atebolrwydd ar y cyd.

Ar gyfer pob canlyniad byddwn yn:

- Cytuno ar yr ystod o gynrychiolaeth gan swyddogion a rhanddeiliaid i ffurfio is-grŵp i greu cynlluniau gweithredu i yrru'r gwaith hwn yn ei flaen.

- Gosod amserlen ar gyfer datblygu cynlluniau gweithredu gyda therfynau amser a nifer y cyfarfodydd
- Ailystyried cwmpas mecanweithiau Gorchwyl a Gorffen er mwyn sicrhau ffocws a sgiliau i gyflawni'r camau
- Datblygu cynlluniau gweithredu gan gynnwys sicrhau gwaelodlinau cyfredol, mireinio camau gweithredu, diffinio prosesau monitro a gwerthuso.
- Cytuno ar fecanweithiau cyfathrebu ac adrodd i Fforwm Addysg Gymraeg Caerdydd
- Gweithredu strategaeth gymeradwy a chynlluniau gweithredu cysylltiol ar y cyd â phartneriaid i wireddu'r weledigaeth a nodir.
- Adolygu'r cynllun a'r camau gweithredu a gyflawnwyd yn flynyddol gan adrodd yn ôl i'r Fforwm Addysg Gymraeg a Chaerdydd Ddwieithog

Yn ogystal â'r broses adolygu flynyddol a amlinellir uchod, rydym yn bwriadu cynnal proses adolygu ffurfiol ar ôl 2 flynedd ac o bosibl yn diwygio deilliannau yn ôl yr angen unwaith y derbynnir diweddariadau o'r fath. Y rheswm dros hyn yw'r cyd-destun ehangach y caiff y cynllun hwn ei baratoi oddi mewn iddo. Mae gan yr ystod o newidiadau a gwybodaeth/canllawiau pellach a ddisgwylir dros y 18 mis i 2 flynedd nesaf y potensial i effeithio ar y camau gweithredu a sut y cânt eu cyflawni. Os bydd unrhyw dargedau ychwanegol yn cael eu hychwanegu neu os caiff y rhai a nodir eu diwygio, byddwn yn cyflwyno cynllun diwygiedig i Weinidogion Cymru fel y nodir yn Rheoliad 8.

Bydd unrhyw gynigion sy'n gofyn am fuddsoddiad cyfalaf yn amodol ar sicrhau ffrydiau ariannu perthnasol (Cyfalaf Addysg Gymraeg, Ysgolion y 21ain Ganrif, CDLI). Os na sicrheir cyllid o fewn yr amserlen ddynodedig, gallai hyn arwain at ailbroffilio o fewn y cynllun.

## Deilliant 1 - Mwy o blant meithrin/plant tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yng nghyfnod y CSCA blaenorol (2017-2020) mae Cyngor Caerdydd a phartneriaid wedi:

- Sefydlu Cylch Meithrin Pwll Coch a agorodd ym mis Medi 2020 a Chylch Meithrin Y Waun Ddyfal a agorodd ym mis Medi 2021
- Cynyddu nifer y lleoedd addysg feithrin Cymraeg sydd ar gael mewn ysgolion cymunedol a gynhelir.
- Sefydlu Is-grŵp Hyrwyddo Fforwm Addysg Gymraeg Caerdydd gweithredol i symud gwaith yn ei flaen o ran datblygu hyrwyddo ymhellach opsiynau addysg Gymraeg yn Ardal yr Awdurdod Lleol.

Ar hyn o bryd mae 18.5% o blant meithrin / plant tair oed sy'n cymryd lle mewn addysg feithrin yng Nghaerdydd yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae ein targedau ar gyfer y deng mlynedd nesaf fel y nodir yn y tabl isod<sup>4</sup>:

Niferoedd a % y plant 3 oed sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg									
2022 - 2023		2023 - 2024		2024 - 2025		2025 - 2026		2026 - 2027	
698-740	19.0-19.8%	733-790	19.8-21%	755-826	20.5-22.1%	778-863	21.3-23.3%	803-902	22-24.4%
2027 - 2028		2028 - 2029		2029 - 2030		2030 - 2031		2031 - 2032	
830-943	22.8-25.6%	857-984	23.5-26.7%	883-1024	24.3-27.9%	911-1066	25-29%	931-1090	25.8-30.2%

Er mwyn cyflawni'r canlyniad hwn a thyfu'r nifer sy'n manteisio ar leoedd addysg feithrin Cymraeg o 18.5% i rhwng 25-30% o'r garfan poblogaeth gymwys yn y 5 mlynedd cyntaf byddwn yn:

1. Gwella dealltwriaeth o anghenion a dewisiadau rhieni ar gyfer addysg eu plant drwy:
  - a. Gynnal a gweithredu ar ganlyniad arolwg i rieni yn gofyn ynghylch pa ffynonellau y maent yn tueddu eu defnyddio ar gyfer gwybodaeth am addysg er mwyn targedu negeseuon yn well e.e. cyfryngau cymdeithasol, [gwefan Awdurdod Lleol](#), [gwefannau partneriaid](#) neu ffynonellau llafar mewn cydweithrediad â Chaerdydd Ddwyeithog<sup>5</sup>
  - b. Cynnal ymchwil ar lefel micro gyda Chaerdydd Ddwyeithog gan gynnwys ardaloedd penodol o'r ddinas lle mae'r nifer sy'n manteisio ar addysg Gymraeg yn isel a/neu o fewn grwpiau/cymunedau penodol sydd heb gynrychiolaeth ddigonol (gan gynnwys Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig

<sup>4</sup>Ceir rhagor o wybodaeth am y rhain ar dud 8-9 y Tafllwybr - Atodiad 1.

<sup>5</sup> Strategaeth Caerdydd Ddwyeithog 2022-2027 Thema Un Amcan 1+2

Leiafrifol) i ddeall y rhesymau dros hyn ynghyd â gweithredu hyrwyddiadau pwrpasol o enedigaeth i oed meithrin yn ogystal â hyrwyddo manteision cyffredinol cadarnhaol bod yn ddwyieithog a dysgu Cymraeg ar yt cyd a Caerdydd Ddwyieithog<sup>6</sup>

- c. Cefnogi menter beilot gan Caerdydd Ddwyieithog i weithio'n ddwys mewn 2 ardal wahanol o'r ddinas gyda dwy ysgol gynradd sy'n profi gostyngiad yn nifer y plant sy'n chwilio am le yn y dosbarth derbyn/meithrin

## 2. Gwella cyfathrebu â rhieni drwy:

- Gynnal prosiect peilot i gasglu gwybodaeth gan rieni wrth gofrestru genedigaethau eu plentyn/plant er mwyn sefydlu ffordd fwy uniongyrchol o gyfathrebu â theuluoedd, gan ganiatáu ar gyfer arolwg wedi ei dargedu o rieni newydd er mwyn hwyluso cyfathrebu mwy effeithiol ynghylch opsiynau meithrin ac ysgolion.
- Darparu pecyn o wybodaeth hygyrch ac o ansawdd uchel i rieni a gofalmwr ar y cyd â sefydliadau partner ynghylch addysg Gymraeg a darpariaeth leol i hyrwyddo ymwybyddiaeth, ysgogi diddordeb a chefnogi penderfyniadau ar sail gwybodaeth<sup>7\*</sup>

## 3. Cynnydd yng nghyfleoedd cymdeithasol cyfrwng Cymraeg y blynyddoedd cynnar a chodi ymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth hon law yn llaw â phartneriaid ac ar y cyd â Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog<sup>8</sup>

## 4. Cynyddu lleoedd gofal plant cofleidiol cyfrwng Cymraeg i gefnogi rhieni sy'n manteisio ar y cynnig gofal plant ar y cyd â'n partneriaid drwy ddatblygu lleoliadau newydd a/neu ehangu ac adleoli lleoliadau presennol i safleoedd ysgolion gan gynnwys:

- a. Adleoli ac ehangu darpariaeth y Cylch Meithrin sy'n gwasanaethu'r Eglwys Newydd i'w lleoli ar safle ysgol Gymraeg leol.
- b. Sefydlu lleoliad gofal sesiynol cyfrwng Cymraeg newydd yn yr ysgol newydd y cytunwyd arno ar gyfer Plasdŵr.

## 5. Darparu o leiaf 192 o leoedd addysg feithrin a gynhelir Cymraeg newydd erbyn 2025-2026 drwy fwrw ymlaen â chynigion i gynyddu'r ddarpariaeth gynradd Gymraeg sy'n gwasanaethu:

- Trelái a Chaerau yn ne-orllewin y ddinas;
- Trowbridge a Llaneirwg yn nwyrain y ddinas.
- Llwynbedw, Gabalfa, Y Mynydd Bychan a Phlasnewydd yn ardal ganolog y ddinas.
- Y Tyllgoed, Radur a Phentre-poeth yn y gogledd-orllewin

<sup>6</sup> Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-27 Thema Un, Amcan 8

<sup>7</sup> Cysylltiadau â Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-2027 ar draws pob thema. Mae enghreifftiau'n cynnwys: [Cymraeg i blant | LIYW. CYMRU](#), [I Rieni - Meithrin](#), [Adre | Hafan \(cymraeg4parents.cymru\)](#)

<sup>8</sup> Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2022-2027 Thema Un, Amcan 4

6. Sicrhau cyllid a phenodi/cynnal swydd Swyddog Hybu Addysg Gymraeg (ar draws Rhanbarth De-ddwyrain Cymru) ar y cyd â Chaerdydd Ddwylieithog fel rhan o'u Strategaeth 2022-2027<sup>9</sup> i gefnogi ymchwil a hyrwyddo addysg Gymraeg a chyfleoedd cymdeithasol ehangach

Dros y 10 mlynedd nesaf byddwn yn:

7. Datblygu rhagor o opsiynau gofal plant cofleidiol Cymraeg er mwyn cefnogi rhieni i fanteisio ar y cynnig 30 awr ar y cyd â'n partneriaid gan gynnwys Mudiad Meithrin drwy:

- Archwilio dichonoldeb adeiladu gofod a chyfleusterau ar gyfer darparu gofal plant Cymraeg (megis darpariaeth Cylch Meithrin) i'w gynnwys ym mhob ysgol gynradd Gymraeg newydd.
- Archwilio cyfleoedd i adeiladu gofod a chyfleusterau ar gyfer darparu gofal plant Cymraeg (megis darpariaeth Cylch Meithrin) i'w cynnwys mewn ysgolion cynradd Cymraeg sydd eisoes yn bodoli gan ddefnyddio Grantiau Cyfalaf Addysg Gymraeg.

8. Gweithio gyda darparwyr gofal plant a Rhaglen Dechrau'n Deg i ysgogi'r galw i gynyddu nifer y lleoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg a gaiff eu llenwi

9. Sicrhau bod cydweithwyr iechyd a gwasanaethau cyffredinol eraill yn ymwybodol o'r CSCA ac yn mynd ati i hyrwyddo negeseuon cyson ynghylch manteision bod yn ddwyieithog ac yn gallu chwalu mythau a phryderon i gefnogi penderfyniadau rhieni ynghylch addysg eu plentyn

10. Cynyddu nifer y lleoedd addysg feithrin Gymraeg sy'n cyd-fynd â'r ddarpariaeth gynradd er mwyn sicrhau bod gennym gapasiti a dosbarthiad priodol o leoedd ledled y ddinas. I'w gyflawni drwy

- a. sefydlu dosbarthiadau meithrin sydd ynghlwm wrth bob ysgol/ffrwd cyfrwng Cymraeg newydd a ddatblygir i wasanaethu cymunedau CDLI newydd a
- b. darparu lleoedd ychwanegol mewn ysgolion cynradd estynedig a/neu ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg newydd a ddatblygir drwy Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Mae'r prif bartneriaid sy'n gyfrifol am weithredu'r camau uchod yn cynnwys:

- Menter Caerdydd
- Ymwelwyr Iechyd a Meddygfeydd y GIG
- Gwasanaethau Plant

---

<sup>9</sup> Strategaeth Caerdydd Ddwylieithog 2022-2027 Thema Un, Amcan 7

## Deilliant 2 - Mwy o blant dosbarth derbyn/plant pump oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yng nghyfnod y CSCA blaenorol (2017-2020) mae Cyngor Caerdydd a phartneriaid wedi:

- Cynnal adolygiad dalgylch a gweithredu'r newidiadau cysylltiedig o fis Medi 2021 i gefnogi twf a chynaliadwyedd y Sector Cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd yn y dyfodol.
- Datblygu ysgol ffrwd ddeuol newydd i wasanaethu datblygiadau tai newydd yng ngogledd-orllewin y Ddinas. Bydd hyn yn cynnwys un ffrwd Gymraeg a ffrwd ddwy iaith lle dysgir y Gymraeg a'r Saesneg hyd at 50:50
- Sicrhau a manteisio i'r eithaf ar fuddsoddiad cyfalaf mewn amrywiaeth o ysgolion cynradd Cymraeg er mwyn sicrhau cyfleusterau o ansawdd uchel i gadarnhau atebion ehangu dros dro.

Ar hyn o bryd mae 18% o blant oed Derbyn yng Nghaerdydd yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg<sup>10</sup>. Mae hyn yn arwydd bod twf o fewn y sector cynradd Cymraeg ar daflywbr cadarnhaol<sup>11</sup>.

Bu twf cyfartalog o tua 0.25% y flwyddyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf yng nghanran y plant sy'n mynd i Ddosbarthiadau Derbyn Cymraeg. Mae'r tabl isod yn dangos, er bod cynnydd wedi bod, nad yw wedi bod yn gyson.

	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21
<b>Cymraeg</b>	695	747	710	706	683	749
<b>%Cyfrwng Cymraeg</b>	15.9%	17.2%	17.2%	17.0%	16.5%	18.0%

Bydd sicrhau twf cynaliadwy lleoedd cyfrwng Cymraeg a sicrhau cynnydd yn y galw yng nghyd-destun gostyngiad mewn cyfraddau geni yn gofyn am gynllunio manwl ar sail gwybodaeth. Rydym yn cydnabod bod mwy o ddisgyblion yn cyrchu eu haddysg statudol drwy gyfrwng y Gymraeg yn dybiaeth allweddol nid yn unig i'r CSCA ond i'r strategaeth Cymraeg 2050 genedlaethol.

Bydd y camau a nodir yn y deilliant hwn yn gweithio tuag at y cynnydd a ddymunir yn nifer y disgyblion sy'n mynd i Ddosbarth Derbyn mewn ysgolion Cymraeg. Rydym yn cydnabod bod Caerdydd yn ddinas sy'n tyfu ac er ein bod yn rhagweithiol yn ein gweledigaeth a'n cynllunio, rhaid i ni hefyd ymateb i anghenion ein cymuned wrth ddatblygu cynnig ysgolion sy'n gadarn fel y gall wrthsefyll yr amrywiadau yn y boblogaeth sy'n digwydd yn naturiol.

<sup>10</sup> Mae rhestr lawn o ysgolion Caerdydd gan gynnwys y rhai Cymraeg, eu lleoliad a'u niferoedd disgyblion ar draws y ddinas i'w gweld ar wefan y Cyngor [Ysgolion Caerdydd](#)

<sup>11</sup> Ceir dirnadaethau manylach ynglŷn â'r taflywbr ar dudalen 16-27 y Taflywbr, Atodiad 1

Mae ein targedau ar gyfer y deng mlynedd nesaf fel y nodir yn y tabl isod:

Niferoedd a % y plant 5 oed sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg									
2022 - 2023		2023 - 2024		2024 - 2025		2025 - 2026		2026 - 2027	
725- 765	19.0- 19.8%	747- 792	19.8- 21%	785- 846	20.5- 22.1%	809- 885	21.3- 23.3%	833- 924	22.0- 24.4%
2027 - 2028		2028 - 2029		2029 - 2030		2030 - 2031		2031 - 2032	
860- 965	22.8- 25.6%	889- 1010	23.5- 26.7%	918- 1054	24.3- 27.9%	946- 1095	25- 29%	975- 1141	25.8- 30.2%

Er mwyn cyflawni'r canlyniad hwn a thyfu canran y plant oedran Derbyn a addysgir yn Gymraeg o 18% i 27% erbyn 2031, yn y 5 mlynedd cyntaf byddwn yn:

1. Cynnal ymchwil gan gynnwys arogl rhieni cyffredinol a grwpiau ffocws wedi eu targedu mewn rhannau penodol o'r ddinas lle mae'r nifer sy'n manteisio ar addysg Gymraeg yn isel a/neu o fewn grwpiau/cymunedau penodol heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a PYADd (FSM) i ddeall y rhesymau dros hyn ynghyd â gweithredu ymgyrchoedd hyrwyddo micro pwrpasol fel y bo'n briodol.
2. Gwneud addysg Gymraeg yn brif opsiwn a awgrymir i deuluoedd sy'n chwilio am le addysg yng Nghaerdydd gan ein gwasanaeth derbyn ac yn llenyddiaeth ein canllawiau derbyn
  - a. Pob cam gweithredu ar gyfer mynd i'r ysgol gynradd yn gyson â Deilliant 1 uchod.
  - b. Gweithio gyda phartneriaid cenedlaethol i fynd i'r afael â phroblemau systemau i addasu trefn ysgolion ar ddechrau'r daith addysg statudol er mwyn codi gwelededd ysgolion Cymraeg wrth chwilio am ddarpariaeth addysg.
3. Datblygu a gweithredu hyrwyddo wedi'i dargedu ar y cyd â Chaerdydd Ddwyeithog a gynlluniwyd i ysgogi awydd a chynyddu'r nifer sy'n manteisio ar leoedd Cymraeg mewn ardaloedd lle mae'r galw yn isel.
4. Mynd ati i hyrwyddo'n weithredol y cyfle i drosglwyddo i addysg Gymraeg drwy fanteisio ar y ddarpariaeth drochi gynradd Gymraeg, a hynny i bob ymholiad newydd ar drosglwyddo yn ystod y flwyddyn ar gyfer derbyn i ysgolion Caerdydd.
5. Gwella ystod a'r hyrwyddo ar weithgareddau allgyrsiol a chyfleoedd cymdeithasol eraill o fewn a thu allan i'r ysgol ar y cyd â phartneriaid Caerdydd ddwyeithog/Fforwm Addysg Gymraeg gan gynnwys Menter Caerdydd, yr Urdd, cymuned ein hysgolion, busnesau lleol a gwirfoddolwyr/cyn-ddisgyblion Cymraeg eu hiaith.



6. Ceisio cynnal capasiti ledled y ddinas yn y sector Cymraeg cynradd ar 10% uwchlaw'r nifer a ragamcenir ar oed Derbyn i gefnogi twf a chaniatáu derbyn yn ystod y flwyddyn a hyblygrwydd ar gyfer pontio.
7. Darparu o leiaf 4DM o gapasiti cyfrwng Cymraeg newydd<sup>12</sup> ar lefel gynradd (gyda meithrinfa) erbyn 2025-2026 drwy fwrw ymlaen â chynigion i gynyddu'r ddarpariaeth gynradd Gymraeg sy'n gwasanaethu:
  - Trelái a Chaerau yn ne-orllewin y ddinas;
  - Trowbridge a Llaneirwg yn nwyrain y ddinas;
  - Llwynbedw, Gabalfa, y Mynydd Bychan a Phlasnewydd yn ardal ganolog y ddinas;
  - a'r Tyllgoed, Radur a Phentre-poeth yn y gogledd-orllewin
8. Datblygu a gweithredu'r model iaith ddeuol lle dysgir y Gymraeg a'r Saesneg hyd at 50:50 sydd i ddechrau yn yr ysgol Gymraeg a deuol newydd ar gyfer Plasdŵr<sup>13</sup> drwy barhau â'r gwaith gydag arweinwyr ysgol cryf sy'n darparu addysg yng Nghaerdydd, y consortiwm ac arweinyddiaeth yr ysgol newydd ym Mhlasdŵr i greu amgylchedd dysgu lle gall pob plentyn ffynnu mewn dwy iaith.

Dros y 10 mlynedd nesaf byddwn yn:

9. Ymgymryd â gwaith monitro ac ymchwil â ffocws ar y model iaith ddeuol i nodi arfer llwyddiannus i lywio'r gwaith o gyflymu twf y model fel y bo'n briodol.
10. Defnyddio'r dystiolaeth o lwyddiant modelau iaith ddeuol (Caerdydd ac eraill) i Rannu arfer gorau ar y model iaith ddeuol a allai fod o fudd i ysgolion eraill ledled y ddinas a chefnogi ysgolion cyfrwng Saesneg presennol i ystyried a ydynt yn barod i symud ar hyd y continwmm dwyieithog i gategori ieithyddol gwahanol gyda mwy o addysgu a dysgu yn cael eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg.
11. Hyrwyddo modelau ysgol sy'n cynnig mwy o ddefnydd o'r Gymraeg ynghyd â manteision pob un o ran caffael iaith a'r potensial i elwa ar sgiliau Cymraeg gwell.
12. Sicrhau'r capasiti mwy sydd ei angen i gyflawni cyfanswm o 8DM Cymraeg newydd ar lefel gynradd (gyda meithrinfa) ar draws oes y cynllun er mwyn parhau i dyfu a bodloni dyheadau cymunedau ar draws y ddinas yn gynaliadwy.

Mae'r prif bartneriaid sy'n gyfrifol am weithredu'r camau uchod yn cynnwys:

- |  |   |
|--|---|
| <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyngor Caerdydd</li> <li>• Consortiwm Canolbarth y De</li> <li>• Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd</li> <li>• Ysgolion Caerdydd</li> <li>• Gwasanaethau Plant</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Menter Caerdydd</li> <li>• Ymwelwyr Iechyd a Meddygfeydd y GIG</li> <li>• RhAG</li> <li>• Yr Urdd</li> <li>• Mudiad Methrin</li> </ul> |
|--|---|

<sup>12</sup> Strategaeth Caerdydd Ddwyeithog 2022-2027 Thema Un, Amcan 9

<sup>13</sup> Yn gyson â Chategori 2 yn Nogfen Categori 2 Llywodraeth Cymru

### Deilliant 3: Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cam o'u haddysg statudol i'r llall.

Yng nghyfnod y CSCA blaenorol (2017-2020) mae Cyngor Caerdydd a phartneriaid wedi:

- Ychwanegu 1DM ar gyfer Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr o flwyddyn academaidd 2020/21 i gynnig mwy o gapasiti i ateb y galw a ragamcennir am lleoedd Cymraeg mewn ysgolion uwchradd.
- Cynhaliwyd adolygiad dalgylch gyda newidiadau cysylltiedig a weithredwyd o flwyddyn academaidd 2021/22 i wella'r cydbwysedd rhwng nifer y plant a nifer y lleoedd sy'n gwasanaethu pob ardal yng Nghaerdydd.
- Tyfu'r ddarpariaeth Trochi Cymraeg i ddarparu ar gyfer myfyrwyr oedran uwchradd a chynyddu nifer y bobl ifanc sy'n gallu trosglwyddo'n llwyddiannus o addysg gynradd Saesneg i addysg uwchradd Gymraeg.

Mae data CYBLD yn dangos nad yw'n ymddangos bod trosglwyddo dysgwyr rhwng cyfnodau allweddol yn broblem sylweddol. Fodd bynnag mae pandemig COVID-19 a'r angen am ddysgu o bell wedi cyflwyno heriau i ysgolion a theuluoedd. Rydym yn ymwybodol bod hyn wedi cael effaith tymor byr gyda nifer fach o deuluoedd yn dewis tynnu eu plant allan o addysg Gymraeg. Bydd yn rhaid aros i weld os oes goblygiadau hirdymor i'r tarfu, o ran trosglwyddiadau diweddarach ar ddiwedd blwyddyn neu ar adegau pontio.

Bu cynnydd bychan yn nifer y trosglwyddiadau yn ystod y flwyddyn allan o ysgolion Cymraeg yn ystod y pandemig. Gwelwyd hefyd nifer tebyg o ddisgyblion yn symud allan o Gaerdydd ac yn symud i ddarpariaeth amgen (gan gynnwys addysg ddewisol yn y cartref, ysgol arbennig, UCD ac addysg breifaf).

Dyma'r sefyllfa yn gysylltiedig â phlant sy'n trosglwyddo allan o ysgolion Cymraeg yn ystod y flwyddyn dros y tair blynedd diwethaf:

I le'r aeth disgyblion ysgolion cynradd ac uwchradd Cymraeg a adawodd yn ystod y flwyddyn

	2018-19		2019-20		2020-21	
Symud o Gaerdydd	64	37%	66	36%	61	30%
Trosglwyddo i ysgol Gymraeg arall yng Nghaerdydd	55	32%	48	27%	35	17%
Trosglwyddo i ysgol Saesneg yng Nghaerdydd	42	25%	59	33%	93	47%
Arall*	11	6%	8	4%	11	6%

<b>Cyfanswm</b>	<b>172</b>	<b>100%</b>	<b>181</b>	<b>100%</b>	<b>200</b>	<b>100%</b>
-----------------	------------	-------------	------------	-------------	------------	-------------

\*Yn cynnwys Addysg Ddewisol yn y Cartref, Addysg Heblaw yn yr Ysgol, ysgol arbennig neu UCD, ysgol breifat

Mae'n werth nodi, o ddisgyblion a drosglwyddodd i ysgol awdurdod lleol prif ffrwd arall yng Nghaerdydd, fod newid sylweddol o ran y rhaniad rhwng y rhai yn aros yn y sector Cymraeg a'r rhai yn trosglwyddo i addysg Saesneg. Byddwn yn parhau i fonitro hyn yn y blynyddoedd i ddod i asesu a yw hwn yn ddigwyddiad ynysig sy'n deillio o heriau'r pandemig neu batrwm cylchol.

Er bod nifer o ddisgyblion wedi trosglwyddo allan o addysg Gymraeg, mae hyn wedi ei liniaru i raddau gan nifer o ddisgyblion sy'n dewis trosglwyddo i'r sector Cymraeg o'r sector Saesneg. Mae gan Gaerdydd ddarpariaeth Trochi Cymraeg uchel ei barch a hynod effeithiol. Gwelwyd niferoedd cynyddol o ddisgyblion yn trosglwyddo'n llwyddiannus o ddarpariaeth Saesneg i ymuno â chyfoedion newydd mewn darpariaeth Gymraeg.

Er mwyn cyflawni'r deilliant hwn a chynyddu nifer y plant sy'n parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cam o'u haddysg statudol i'r llall, yn ystod y 5 mlynedd cyntaf byddwn yn:

1. Monitro ceisiadau ar gyfer trosglwyddo o ysgolion cyfrwng Cymraeg i'r sector Saesneg yn y ddinas a chynnal ymchwil pellach lle mae'r rhai sy'n optio allan o'r sector hwn yn dod o faes/grŵp penodol i sicrhau gwell dealltwriaeth o bryderon a sicrhau bod sicrwydd a chymorth priodol yn cael eu darparu gyda'r bwriad o annog ailystyriaeth i aros.
2. Cadw'r lefelau uchel o ddilyniant o ysgolion cynradd Cymraeg i rai uwchradd Cymraeg o dan adolygiaeth gyson.
3. Gweithio mewn partneriaeth agos ag ysgolion i wella'r wybodaeth sydd ar gael ar wefannau ysgolion unigol i esbonio'r gwerth a osodir ar ddatblygu sgiliau ieithyddol Cymraeg, manteision bod yn ddwyieithog a'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y caiff plant a phobl ifanc eu cefnogi yn eu dysgu gan gynnwys:
  - Cynyddu'r cyfeirio at gyfleoedd dysgu Cymraeg a chymdeithasu y tu allan i'r ysgol er mwyn normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg y tu allan i amgylchedd dysgu ffurfiol yr ysgol.
  - Cefnogi cydweithio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd i gynhyrchu adnoddau sy'n hyrwyddo dilyniant ieithyddol i rieni/gofalwyr ac sy'n rhoi sicrwydd er mwyn cefnogi cadw disgyblion.
  - Sicrhau bod y daith addysgol gyfan o'r feithrinfa i ôl-16 yn glir i deuluoedd er mwyn datblygu hyder pellach wrth ddewis addysg Gymraeg gan gynnwys tynnu sylw at y cymorth sydd ar gael i blentyn ddatblygu a magu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol.

4. Darparu cyngor, dysgu proffesiynol ac adnoddau i ysgolion Saesneg i gynyddu canran y cwricwlwm a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg a gweithredu'r Gymraeg Ar Draws y Cwricwlwm gan gynyddu faint o ddysgu a gynigir a mwy o gyfleoedd ai ddefnyddio'r Gymraeg.
5. Dathlu a rhannu arfer da ledled Caerdydd a rhanbarth ehangach y de-ddwyrain mewn amrywiaeth o ffyrdd e.e., gweminarau, podlediadau, blogiau a theithiau cerdded dysgu.
6. Nodi a darparu cymorth â ffocws i ysgolion lle gallai cyfraddau pontio fod yn destun pryder a chyhoeddi adnoddau i gynyddu hyder disgyblion, ynghyd â chefnogi a rhoi sicrwydd i rieni/gofalwyr ynghylch pontio rhwng cyfnodau i annog cyfraddau cadw disgyblion.
7. Ceisio defnyddio o leiaf un o safleoedd ysgolion uwchradd y CDLI i gynyddu nifer y lleoedd uwchradd Cymraeg yng Nghaerdydd<sup>14</sup>.
8. Cyflwyno ceisiadau (cyfalaf a refeniw) i sicrhau cyllid i gefnogi ehangu'r ddarpariaeth drochi Gymraeg (ar lefelau cynradd ac uwchradd) i gynyddu a chynnal nifer y lleoedd sydd ar gael i'r ddau:
  - Galluogi strategaeth hyrwyddo ragweithiol er mwyn annog ystyriaeth i roi'r cyfle i drosglwyddo o ysgolion Saesneg a/neu ysgolion model deul i addysg uwchradd Gymraeg wrth drosglwyddo i'r sector uwchradd.
  - Cefnogi caffael iaith dwys yn ôl yr angen er mwyn gwella hyder dysgwyr a rhoi mwy o sicrwydd i rieni sy'n dewis addysg Gymraeg y bydd eu plentyn yn cael y cyfle i gyrchu cymorth os bydd ei angen.
9. Gweithio gydag ysgolion cynradd Cymraeg i sicrhau cynnydd yn y niferoedd sy'n hyfforddi'n athrawon ac mewn ffeiriau gyrfaoedd i gefnogi nifer uwch o'n pobl ifanc i ystyried manteision ac amrywiaeth y cyfleoedd sydd i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
10. Cynyddu darpariaeth hyfforddiant Cymraeg i rieni sy'n anfon eu plant i ysgolion Cymraeg yn unol â Strategaeth Caerdydd Ddwieithog..

Dros y 10 mlynedd nesaf byddwn yn:

11. Bwr wymlaen â chynlluniau i gynyddu capasiti parhaol y ddarpariaeth uwchradd Gymraeg er mwyn sefydlu capasiti ledled y ddinas yn y sector sydd 10% uwchlaw'r niferoedd a ragamcenir.
12. Parhau i ddatblygu ar y cydweithrediad presennol gyda'r sector uwchradd Cymraeg i ddarparu dysgu proffesiynol pwnc-benodol, yn enwedig mewn meysydd lle ceir prinder ymarferwyr drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r prif bartneriaid sy'n gyfrifol am weithredu'r camau uchod yn cynnwys:

---

<sup>14</sup> Uchelgais a rennir a gaiff ei adlewyrchu yn Strategaeth Caerdydd Ddwieithog 2022-2027 Thema Un, Amcan 9

- Cyngor Caerdydd
- Consortiwm Canolbarth y De
- Ysgolion Caerdydd
- Gwasanaethau Plant
- Menter Caerdydd
- Coleg Caerdydd a'r Fro (CCF)

- RhAG
- Meddygfeydd y GIG
- Yr Urdd
- Prifysgol Metropolitan Caerdydd
- Prifysgol Caerdydd
- Cyngor y Gweithlu Addysg

#### **Deiliant 4 - Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau a asesir yn y Gymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg**

Yng nghyfnod y CSCA blaenorol (2017-2020) mae Cyngor Caerdydd a phartneriaid wedi:

- Cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n astudio'n ddwyieithog a thrwy gyfrwng y Gymraeg yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro
- Wedi llwyddo i gefnogi myfyrwyr i fanteisio ar ystod eang o opsiynau a chyrsgiau TGAU ac ôl-16 drwy gydweithio agos rhwng y tair ysgol uwchradd Gymraeg sy'n galluogi myfyrwyr i barhau â'u hastudiaethau yn y Gymraeg.

Ar hyn o bryd mae dysgwyr ym mhob un o dair ysgol uwchradd gymunedol Gymraeg Caerdydd yn astudio pob pwnc (heblaw am Saesneg Iaith a Llenyddiaeth) drwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel TGAU ac ar gyfer Safon Uwch neu debyg. Mae'r cynnig academaidd yn cynnwys amrywiaeth o opsiynau pwnc i ddysgwyr eu dewis gyda pheth gweithio traws-ysgol yn i wella'r ystod o bynciau 14-19 sydd ar gael. Mae deilliannau dysgwyr ar draws y tair ysgol yn gryf. Mae nifer y disgyblion sy'n cael eu derbyn ym Mlwyddyn 7 yn cynyddu'n gyson â'r carfannau mwy sy'n symud drwy'r system.

Astudir Cymraeg fel ail iaith fel pwnc gorfodol drwy holl ysgolion uwchradd cymunedol Saesneg Caerdydd gydag ymwybyddiaeth ehangach o'r cyfle i drosglwyddo o'r sector Saesneg i'r sector Gymraeg ar lefel uwchradd drwy fynychu darpariaeth drochi Cymraeg CA3/4.

Mae Coleg Caerdydd a'r Fro hefyd wedi nodi cynnydd yn nifer y bobl ifanc sy'n astudio'n ddwyieithog a thrwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys 46 o bobl ifanc sy'n astudio gwallt a harddwch, a 24 o ddysgwyr sy'n astudio cymwysterau BTEC lefel 3 dwyieithog. Nododd y coleg newid mawr yn agweddau dysgwyr tuag at y Gymraeg a'u gallu i weld y modd y bydd yr iaith yn eu helpu yn y dyfodol. Y bwriad yw y bydd y ddau gwrs yn hyrwyddo'u hunain drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig ar gyfer Medi 2021.

Yn amlwg, gan gysylltu â'r deiliant blaenorol, er mwyn sicrhau mwy o ddisgyblion yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg, mae'n dal yn hanfodol ceisio dal gafael ar ddysgwyr sydd wedi dechrau yn y sector cynradd Cymraeg wrth bontio i ysgol uwchradd.

Mae darparu dysgu ac addysgu ar-lein wedi bod yn hanfodol yn ystod y pandemig. Er bod hyn wedi deillio o angen, mae uwchsgilio'r gweithlu a'r cymhwysedd technegol yn

rhoi'r cyfle posibl i archwilio a darparu ystod o ddarpariaeth a chofleidio technoleg fel mecanwaith ar gyfer ehangu'r cwricwlwm Cymraeg sydd ar gael ar draws yr awdurdod lleol. Mae darpariaeth eisoes yn cael ei rhannu ar draws ysgolion.

I gyflawni'r deilliant hwn a sicrhau bod mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau a asesir yn y Gymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, yn y 5 mlynedd cyntaf byddwn yn:

1. Nodi a manteisio i'r eithaf ar adnoddau pellach i ehangu a bywiogi'r enghreifftiau o'r ystod o yrfaeodd lle defnyddir y Gymraeg gan ysgogi mwy o bobl ifanc i fanteisio arnynt ymhellach i'w gyrfa ddysgu ac annog defnydd ehangach o'r Gymraeg y tu hwnt i'r cwricwlwm a chymwysterau ar y cyd â Chaerdydd Ddwyeithog<sup>15</sup>.
2. Ymgymryd ag ymchwil â ffocws gyda phobl ifanc ar y cyd ag ysgolion, colegau a phartneriaid i gael gwell dealltwriaeth o'u rhesymau dros ddewis eu hopsiynau a beth allai eu hannog i ddewis Cymraeg Safon Uwch.
3. Gweithio gyda phartneriaid ar draws y Fforwm Addysg Gymraeg, Caerdydd Ddwyeithog ac Addewid Caerdydd i amlygu manteision y Gymraeg gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer prentisiaethau, profiad gwaith a/neu gyfleoedd gwirfoddoli mewn sefydliadau a gweithleoedd Cymraeg eu hiaith sy'n manteisio i'r eithaf ar botensial siaradwyr dwyieithog.
4. Gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo manteision y Gymraeg a bod yn ddwyieithog gyda rhieni / gofalwyr ynghyd â sut y gallant gefnogi dilyniant disgyblion hyd yn oed os nad y Gymraeg yw'r iaith lafar gartref.
5. Gweithio gyda darparwyr allanol a LIC ar unrhyw fentrau cenedlaethol i hyrwyddo'r Gymraeg fel pwnc Safon Uwch.
6. Sicrhau bod 100% o ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn parhau i gymryd pob cymhwyster (ac eithrio llenyddiaeth ac iaith Saesneg) drwy gyfrwng y Gymraeg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4, gan gynnwys TGAU a chymwysterau tebyg.
7. Parhau i weithio gyda chydweithwyr mewn ysgolion Saesneg ledled Caerdydd i sicrhau bod pob disgybl yn gallu ymgymryd â TGAU Cymraeg ail iaith neu unedau Llwybr Lefel Mynediad<sup>16</sup> ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4.
8. Gweithio gyda phartneriaid i lobïo Cymwysterau Cymru er mwyn sicrhau bod cymwysterau TGAU newydd Cymru i gefnogi'r cwricwlwm arfaethedig yn cynnig testunau sy'n fwy cyfoes ac yn fwy perthnasol i ddysgwyr
9. Cefnogi ysgolion i gynllunio'n bwrpasol i gynyddu awydd, gwydnwch a hyder dysgwyr ysgolion uwchradd i ddefnyddio a thyfu'r sgiliau Cymraeg y llwyddir i'w caffael yn y sector cynradd, a gweithio gyda phartneriaid allanol i hyrwyddo hyn.

---

<sup>15</sup> Strategaeth Caerdydd Ddwyeithog Thema 3, Amcan 5

<sup>16</sup> Unedau Llwybr Lefel Mynediad yn cynnwys 6365, 6366, 6367, 6368 a 6369

10. Gweithio gyda Chaerdydd Ddwyeithog a phartneriaid i gefnogi cynnydd yn nifer y myfyrwyr sy'n astudio cyrsiau addysg bellach ac uwch drwy gyfrwng y Gymraeg<sup>17</sup>.

Dros y 10 mlynedd nesaf byddwn yn:

11. Adolygu'r nifer sy'n manteisio ar ac yn cwblhau Safon Uwch Cymraeg ers dechrau'r cynllun a cheisio adborth pobl ifanc i ganfod pa ffactorau a arweiniodd at eu penderfyniad i barhau â'u hastudiaethau yn y Gymraeg neu drwy gyfrwng y Gymraeg a'u barn am effaith y wybodaeth a'r adnoddau a ddatblygwyd ac a rannwyd gyda hwy.
12. Ymgysylltu â byrddau arholi i gynrychioli'r awydd sydd am ystod ehangach o gyrsiau a chymwysterau (yn enwedig o ran cyfleoedd dysgu galwedigaethol) a gyflwynir trwy gyfrwng y Gymraeg i sicrhau lefel gydradd â'r ystod sydd ar gael yn Saesneg.
13. Archwilio'r cwrpas i wneud defnydd mwy strategol o'r opsiynau e-ddysgu Cymraeg presennol ochr yn ochr â ph'un a oes potensial i ddatblygu modiwlau dysgu ar-lein Caerdydd er mwyn darparu ystod ehangach o bynciau ac ehangu'r cynnig o gymwysterau a phrofiadau dysgu posibl ar draws sector addysg Gymraeg Caerdydd ynghyd â chefnogi datblygu sgiliau mewn dysgu digidol yng Nghyfnod Allweddol 4 ac yn gynharach.

Mae'r prif bartneriaid sy'n gyfrifol am weithredu'r camau uchod yn cynnwys:

- |   |  |
|---|--|
| <ul style="list-style-type: none"><li>• Cyngor Caerdydd</li><li>• Consortiwm Canolbarth y De</li><li>• Ysgolion Caerdydd</li><li>• Coleg Caerdydd a'r Fro (CCF)</li></ul> | <ul style="list-style-type: none"><li>• Prifysgol Caerdydd</li><li>• Prifysgol Metropolitan Caerdydd</li><li>• Byrddau Arholi yn cynnwys CBAC</li><li>• Cyngor y Gweithlu Addysg</li></ul> |
|---|--|

---

<sup>17</sup> Strategaeth Caerdydd Ddwyeithog Thema Un, Amcan 12

## Deiliant 5 - Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol

Yng nghyfnod y CSCA blaenorol (2017-2020) mae Cyngor Caerdydd a phartneriaid wedi:

- cynnal 'Gyrfa Gymraeg - Ffair Swyddi Cymraeg Caerdydd' dan arweiniad Caerdydd Ddwyeithog i dynnu sylw at opsiynau gyrfa a manteision gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae'r pandemig wedi bod yn gatalydd ar gyfer mwy o gynnwys ar-lein yn Gymraeg, gan gynnwys sianel youtube S4C ar gyfer plant 11-13 oed a Hansh yn gweithio gyda phobl ifanc i greu cynnwys.
- Mae'r cyfleoedd dysgu a chymdeithasu ar-lein wedi cynyddu'n sylweddol drwy gydol y pandemig ac er bod llawer o weithgareddau wyneb yn wyneb wedi aildechrau, mae'n parhau i ategu'r cynnig hwn gydag amrywiaeth o gyfleoedd dysgu ar-lein

Mae Caerdydd yn cydnabod gwerth i bobl ifanc ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg mewn amrywiaeth o gyd-destunau i wella eu caffael ar iaith a meithrin eu hyder wrth siarad yr iaith wrth gyfathrebu bob dydd er mwyn bodloni dyheadau Cymraeg 2050. Er gwaethaf y tarfu yn sgil y pandemig mae partneriaid Fforwm Addysg Gymraeg Caerdydd wedi parhau i ddarparu gweithgareddau cyfoethogi drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgolion, fel gweithgareddau allgyrsiol gyda llawer yn symud ar-lein lle bo hynny'n bosibl yn ystod y pandemig.

Yng Nghaerdydd, mae 17 o ysgolion cynradd Cymraeg wedi ennill Gwobr Efydd y [Siarter Iaith](#) gydag 8 yn symud ymlaen i ennill y wobr arian erbyn 2021. Mewn ysgolion uwchradd, mae 2 ysgol wedi ennill y wobr efydd.

Mae'r cynllun Cymraeg Campus wedi'i gyflwyno ar gyfer ysgolion lle mae iaith yr addysgu yn Saesneg ac yn 2021, roedd 15 o ysgolion cynradd wedi cael efydd gyda 2 ysgol uwchradd yn treialu cynllun uwchradd Cymraeg Campus.

Anogir dysgwyr sy'n mynychu ysgolion Cymraeg a Saesneg i gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau diwylliannol, cymdeithasol a chwaraeon drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn gwella eu hyder a chadw eu rhuglder yn y Gymraeg gan gynnwys ymhlith lefelau uchel arall o gyfranogiad a chynrychiolaeth yn nigwyddiadau a chyfleoedd cymdeithasol yr Urdd (Eisteddfod yr Urdd, cystadlaethau chwaraeon cenedlaethol, gweithgareddau awyr agored a theithiau preswyl) ynghyd â chynrychiadau'r celfyddydau perfformio mewn ysgolion.

Mae fforwm partneriaid Caerdydd Ddwyeithog wedi gwneud gwaith i nodi a choladu cyfeirlyfr o brofiad gwaith a chyfleoedd gwirfoddoli sy'n gofyn am sgiliau Cymraeg. Wrth symud ymlaen, disgwylir i hyn fod o fudd wrth arddangos gwerth a throsglwyddo sgiliau Cymraeg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Y gobaith yw y bydd hyn yn cryfhau'r Gymraeg fel rhan lewyrchus o ddiwylliant Caerdydd ac yn hanfodol i hunaniaeth y Brifddinas.



Dyma'r sefyllfa bresennol sy'n ymwneud â chyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol a'n prif darged ar gyfer y deng mlynedd nesaf:

Sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu cefnogi i fwynhau a chadw eu defnydd a'u hyder yn eu sgiliau Cymraeg y tu hwnt i'r ysgol drwy sicrhau amrywiaeth eang o gyfleoedd hygyrch yng Nghaerdydd a fydd yn cyffroi, yn ymgysylltu ac yn annog pobl ifanc gan gyfrannu felly at y dyhead i gofleidio'r iaith fel iaith fyw yn ein prifddinas.

Er mwyn cyflawni'r canlyniad hwn a sicrhau bod dysgwyr yn cael mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol, yn y 5 mlynedd cyntaf byddwn yn:

1. Mynd i'r afael â'r gwaith o fapio'r ddarpariaeth bresennol y tu allan i'r ysgol ar y cyd â darparwyr eraill i nodi bylchau a bod yn sail i drafodaethau sy'n ymwneud â chydweithredu / partneriaethau newydd er mwyn cynyddu / ehangu'r ddarpariaeth i ateb y galw.
2. Ymgymryd â gweithgareddau ymgysylltu â ffocws iddynt gyda phobl ifanc ynghylch pa gyfleoedd dysgu a chymdeithasu Cymraeg yr hoffent eu gweld yn cyd-fynd ag ymrwymiad Dinas sy'n Dda i Blant Caerdydd gan gynnwys sefydlu Fforwm Ieuenctid Caerdydd Ddwyeithog<sup>18</sup>
3. Cynnal ymchwil gyda phobl ifanc ac oedolion sydd wedi cyrraedd lefel o ruglder yn y Gymraeg yn y gorffennol ond sydd wedi colli hyder i'w ddefnyddio er mwyn deall a mynd i'r afael yn well â'r her o gadw iaith y tu hwnt i addysg statudol.
4. Cynnal arolwg gyda busnesau Caerdydd a chyn-fyfyrrwyr ysgolion Cymraeg i archwilio'r posibilïadau i gefnogi cyfleoedd pellach ar gyfer cyfleoedd amgen i'r rhai sydd eisoes ar gael er mwyn ehangu'r cwmpas ac ymgysylltu â diddordebau mwy arbenigol.
5. Darparu swyddog consortia dynodedig i bob ysgol i gefnogi'r Siarter Iaith a chynnydd Cymraeg Campus sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo, cefnogi, herio ac achredu holl ysgolion Caerdydd i wneud cynnydd gyda'r Gwobrau Siarter Iaith a Chymraeg Campus.
6. Sicrhau bod yr holl gyfleoedd a gynigir yng Nghaerdydd yn cael eu hyrwyddo'n gynhwysfawr ac yn gydlynol yng Nghaerdydd i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth a chynyddu cyfranogiad mewn dysgu a defnyddio'r Gymraeg.
7. Sicrhau cyllid a chynyddu cydweithio rhwng y Gwasanaeth Ieuenctid a sefydliadau partner gan gynnwys Menter Caerdydd a'r Urdd i wella ystod a dosbarthiad y cyfleoedd sydd ar gael ledled Caerdydd i bobl ifanc ar y cyd â Strategaeth Ddwyeithog Caerdydd<sup>19</sup>.

---

<sup>18</sup> Strategaeth Ddwyeithog Caerdydd Thema Dau, Amcanion 1,2 ac 8 a Thema Tri, Amcan 2

<sup>19</sup> Strategaeth Caerdydd Ddwyeithog 2022-2027, Thema Tri, Amcanion 2, 3 ac 8

8. Blaenoriaethu darpariaeth, cyfleoedd a mynediad i'r celfyddydau yn y Gymraeg yng Nghaerdydd ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd ar y cyd â Strategaeth Ddwieithog Caerdydd drwy:
  - Tafwyl
  - Sesiynau darllen ac ysgrifennu creadigol<sup>20</sup>.
  - Cynyddu cydweithrediad celfyddydol â blynyddoedd 12 a 13 mewn Ysgolion Uwchradd a gydag Israddedigion yng Ngholegau a Phrifysgolion Caerdydd.<sup>21</sup>
9. Gweithio gyda phartneriaid i gefnogi'r fenter yn Strategaeth Ddwieithog Caerdydd i gynyddu gweithgarwch gydag ysgolion Saesneg gan ffurfio clybiau, cynnal gweithdai, ac annog gweithgareddau'n uniongyrchol gyda'r ysgolion drwy gyfrwng y Gymraeg<sup>22</sup>
10. Mae holl ysgolion Caerdydd yn cymryd rhan yn rhaglen achredu Siarter Iaith y Gymraeg (a elwir ar hyn o bryd yn Siarter Iaith a Cymraeg Campus), gyda phob ysgol yn gweithio i gyrraedd y lefel nesaf erbyn 2027).

Erbyn diwedd y cynllun 10 mlynedd byddwn yn:

11. Gwerthuso effaith y Siarter Iaith a Chymraeg Campus i gefnogi'r gwaith o fireinio'r cynlluniau dros amser, yn enwedig ochr yn ochr â gweithredu'r cwricwlwm newydd.
12. Darparu cymorth i ysgolion yn eu defnydd o'r Gymraeg mewn ysgolion chyfleoedd dysgu Cymraeg, Llythrennedd a Chyfathrebu proffesiynol o ansawdd uchel gan gynnwys cymorth pwrpasol ar gyfer ysgolion/clystyrau unigol a chyfleoedd i gydweithio rhwng ysgolion a phartneriaethau rhwng cymheiriaid fel y bo'n briodol.
13. Hyrwyddo cyfranogiad gweithredol plant mewn partneriaethau traws-ysgol i wella eu mwynhad o ddefnyddio'r Gymraeg gan gefnogi normaleiddio'r iaith ym mhob lleoliad er mwyn cydlyniant a gwell awydd i ymwneud â'r iaith.

Mae'r prif bartneriaid sy'n gyfrifol am weithredu'r camau uchod yn cynnwys:

- |   |  |
|---|--|
| <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyngor Caerdydd, gan gynnwys Caerdydd Ddwieithog ac Addewid Caerdydd</li> <li>• Yr Urdd</li> <li>• Menter Caerdydd</li> <li>• CCD</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• S4C</li> <li>• Ysgolion</li> <li>• Coleg Caerdydd a'r Fro (CCF)</li> <li>• Partneriaid y Brifysgol, y Coleg Cymraeg, Prifysgol Caerdydd a Met Caerdydd</li> </ul> |
|---|--|

<sup>20</sup> Strategaeth Caerdydd Ddwieithog 2022-2027 Thema Dau, Amcan 8, Thema Tri Amcan 3

<sup>21</sup> Strategaeth Caerdydd Ddwieithog 2022-2027 Thema Tri, Amcan 4

<sup>22</sup> Strategaeth Caerdydd Ddwieithog 2022-2027 Thema Dau, Amcan 3

## Deilliant 6 - Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg Gymraeg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) (yn unol â'r dyletswyddau a osodir gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thriwlynys Addysg (Cymru) 2018

Yng nghyfnod y CSCA blaenorol (2017-2020) mae Cyngor Caerdydd a phartneriaid wedi:

- Sefydlu canolfan ddysgu newydd ar gyfer hyd at 20 o ddisgyblion yn Ysgol Pwll Coch
- Ymestyn y nifer dynodedig ar gyfer y ganolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Glantaf i 30, a chymerwyd camau i wella'r cyfleusterau
- Sefydlu dosbarth Llesiant cynradd yn Ysgol Pen-y-Groes, gan gynnig lleoedd cofrestredig dros dro i hyd at 8 disgybl
- Gweithio gyda'r tair ysgol uwchradd i ddatblygu 'canolfan lesiant rithwir' sy'n gweithredu ar draws y tair ysgol, ar gyfer hyd at 18 o ddisgyblion sydd mewn perygl o gael eu gwahardd neu o ymddieithrio

Mae'r sefyllfa bresennol o ran darparu addysg Gymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yng Nghaerdydd a'n targedau ar gyfer y deng mlynedd nesaf fel a ganlyn:

Mae nifer yr achosion o ADY yn y sector Cymraeg yn parhau i fod yn is nag ar gyfer ysgolion Caerdydd yn gyffredinol:

Ebrill 2021	Pob ysgol	% y boblogaeth ddisgyblion	Ysgolion Cymraeg	% y boblogaeth ddisgyblion.
<b>Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy</b>	3045	5.54	320	3.72
<b>Â datganiad</b>	1360	2.48	116	1.35

Fodd bynnag, bu cynnydd yn nifer y disgyblion ag ADY sylweddol a chymhleth sy'n dewis addysg Gymraeg, fel y dengys y twf yn y galw am ddarpariaeth arbenigol:

- Agorodd y ganolfan ddysgu yn Ysgol Pwll Coch yn 2018-19 gyda 2 ddisgybl: 9 disgybl yn 2021.
- Roedd y ganolfan ddysgu yn Ysgol Glantaf yn darparu ar gyfer 11 o ddisgyblion yn 2016: 24 o ddisgyblion yn 2021

Cynhaliwyd arolwg o'r angen presennol gan y Tîm Cymorth Awtistiaeth yn 2020-21 a nodwyd 21 o ddisgyblion cynradd sy'n debygol o fod angen lleoliad mewn canolfan awtistiaeth naill ai wrth bontio i'r ysgol uwchradd neu ar ryw adeg yn ystod CA2.

I gyflawni'r canlyniad hwn a sicrhau darpariaeth ddysgu ychwanegol o ansawdd uchel ar gyfer pob disgybl mewn addysg cyfrwng Cymraeg sydd wedi neu a allai ddatblygu anghenion dysgu ychwanegol

Yn y 5 mlynedd cyntaf byddwn yn:

1. Datblygu ymhellach yr ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol o ran ADY i feithrin gallu'r gweithlu cyfrwng Cymraeg i nodi a diwallu ystod o anghenion dysgu ychwanegol.
2. Parhau i gefnogi amrywiaeth o ddulliau o ymyrraeth gynnar a chefnogaeth ar draws pob ysgol Gymraeg, er mwyn sicrhau cyfle ieithyddol cyfartal.
3. Darparu gwybodaeth a chyingor i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd, gan sicrhau bod gwefannau ysgolion a'r cyngor yn cynnwys gwybodaeth ynghylch sut mae anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu nodi a'u diwallu yn ein hysgolion Cymraeg, gan gynnwys gwybodaeth am ddarpariaeth arbenigol<sup>23</sup>
4. Gofyn yn rheolaidd am farn dysgwyr a'u teuluoedd am effeithiolrwydd ac effaith darpariaeth ddysgu ychwanegol er mwyn 'adolygu'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol'<sup>24</sup>.
5. Monitro ceisiadau am drosglwyddo o ysgolion Cymraeg i'r sector Saesneg yn y ddinas a chynnal ymchwil bellach lle mae gan y rhai sy'n optio allan o'r sector hwn CDUau ADY ar waith i sicrhau gwell dealltwriaeth o bryderon a sicrhau bod sicrwydd a chymorth priodol yn cael eu darparu gyda'r bwriad o'u gweld yn ailystyried ac aros.
6. Adolygu effaith y Dosbarth Llesiant cynradd Cymraeg a'r 'Ganolfan Adnoddau Arbenigol rithwir' uwchradd ar gyfer disgyblion ag anghenion iechyd a lles emosiynol ynghyd ag ystyried y dysgu a'r goblygiadau ar gyfer datblygu darpariaeth arbenigol yn y sector yn y dyfodol.
7. Adolygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg 'Cyfnod 3 a Chyfnod 4' fel rhan o adolygiad ledled y ddinas, er mwyn penderfynu ar y ffordd orau o wella ymhellach ar atal ac ymyrraeth gynnar ADY.
8. Datblygu a chyflawni nifer uwch o leoedd arbenigol uwchradd i'w darparu mewn CAA sydd wedi'i leoli ym mhob un o'r ysgolion uwchradd Cymraeg gydag anghenion arbenigol gwahanol ym mhob canolfan i gyflawni lefel o ddarpariaeth arbenigol sy'n gydradd â sectorau eraill ac sy'n ymateb yn briodol i anghenion unigol.
9. Datblygu a darparu nifer cynyddol o leoedd arbenigol cynradd i'w darparu mewn canolfannau adnoddau arbenigol mewn o leiaf tair ysgol gynradd sy'n bwydo'r ysgolion uwchradd perthnasol.

Dros y 10 mlynedd nesaf byddwn yn:

10. Darparu CAAau ADY pellach ar safleoedd cynradd wrth i ardaloedd CDLI preswyl mawr ddatblygu

<sup>23</sup> Fel yr amlinellir yng Nghod ADY 2020

<sup>24</sup> YN unol â Chod ADY 2020

11. Gweithio gyda phartneriaid ym maes lechyd i wella mynediad at gymorth therapi a chyngor drwy gyfrwng y Gymraeg
12. Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i wella mynediad at asesiadau ac adnoddau Cymraeg

Mae'r prif bartneriaid sy'n gyfrifol am weithredu'r camau uchod yn cynnwys:

- Cyngor Caerdydd
- Consortiwm Canolbarth y De
- Ysgolion Caerdydd
- Gwasanaethau'r GIG
- Gwasanaethau Plant

## **Deilliant 7 - Cynyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg**

Yng nghyfnod y CSCA blaenorol (2017-2020) mae Cyngor Caerdydd a phartneriaid wedi:

- Galluogi staff yr ysgol i gyrchu datblygiad proffesiynol yn y Gymraeg drwy amrywiaeth o gyfleoedd, o gyrsgiau i ddechreuwr hyd at y Rhaglen Sabothol Cymraeg dwys
- Cefnogwyd nifer cynyddol o staff yng Nghaerdydd i'w derbyn i'r Rhaglen Darpar Benaethiaid yn 2020/21 sy'n arwain at asesiad NPHQ.
- Mae ehangu aelodaeth y Fforwm Addysg Gymraeg i gynnwys Prifysgol Metropolitan Caerdydd i elwa o'u mewnbwn ynghylch Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghaerdydd wedi cael ei werthfawrogi'n fawr o ran rhoi mwy o ddealltwriaeth ynghylch y potensial a'r rhwystrau i gynyddu'r gweithlu.

Dim ond ar ddata a adroddwyd gan yr ysgol y gellir seilio'r targedau presennol sy'n adlewyrchu hunanasesiad rhuglder gan aelodau unigol o staff sydd wedi'u cynnwys yn y setiau data 'Addysgu/gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn ôl Awdurdod Lleol'<sup>25</sup>. Ar sail y data sydd ar gael, byddem yn disgwyl y bydd angen cynyddu'r gweithlu 8% er mwyn cefnogi'r cynnydd mewn lleoedd yn y CSCA hwn. Fodd bynnag, bydd angen adolygu'r targed hwn yn dilyn trafodaeth gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid lleol i sefydlu gwaelodlinau mwy safonol ac yng ngoleuni Cynllun Datblygu'r Gweithlu deng mlynedd Llywodraeth Cymru sydd i'w gyhoeddi yn ddiweddarach yn 2022.

Mae twf sylweddol yn y gweithlu sy'n gallu dysgu Cymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg yn hollbwysig er mwyn i Gaerdydd lwyddo i sicrhau twf siaradwyr Cymraeg drwy gyfrwng addysg yn ein hysgolion a chyfleoedd dysgu ehangach.

Mae Cyngor Caerdydd yn cydnabod bod recriwtio gweithlu digonol eisoes yn cyflwyno heriau ar draws pob sector addysg. Hyd yma, mae Caerdydd yn bennaf wedi parhau i ddenu staff yn lleol ac o bob cwr o Gymru gyda'r heriau i'w teimlo fwyaf mewn ysgolion uwchradd, yn enwedig mewn pynciau fel mathemateg a gwyddoniaeth. Fodd bynnag, wrth i'r sector ehangu fel rhan o'r ymdrech genedlaethol i gynyddu Addysg Gymraeg a mwy o Gymraeg drwy ysgolion dwy iaith, fe ddaw'r her hon yn fwy ar draws yr ystodau oedran. Mae hyder cenedlaethol o ran adnoddau digonol yn isel ar hyn o bryd.

Darlun rhannol yw sicrhau bod digon o athrawon Cymraeg rhugl o ansawdd uchel i staffio'r nifer cynyddol o ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwy iaith. Ar ben hynny, bydd y disgwyliadau uwch i addysgu a dysgu gan ddefnyddio mwy o Gymraeg mewn ysgolion Saesneg hefyd yn golygu bod angen uwchsgilio ar draws llawer o'r gweithlu addysgu a dysgu.

---

<sup>25</sup> [Addysgu / gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn ôl awdurdod lleol \(llyw.cymru\)](#)

Felly, rydym wedi ymrwymo i weithio'n agos gydag ALlau eraill yng Consortiwm Canolbarth y De (CCD) i gynllunio a chefnogi staff ysgolion ar draws pob sector i wella eu sgiliau Cymraeg ymhellach ynghyd â darparwyr hyfforddiant y gweithlu Addysg Hyfforddiant Gychwynnol a'r gweithlu Gofal Plant cyfrwng Cymraeg i gefnogi cynnydd mewn Athrawon Newydd Gymhwyso, staff cymorth dysgu ac ymarferwyr gofal plant er mwyn helpu i leihau'r prinder gweithlu a ragamcennir yn y dyfodol a sicrhau y gellir gweithredu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg lleol ar y cyd yn effeithiol yn y dyfodol i gyrraedd targed y llywodraeth.

I gyflawni'r deilliant hwn a chynyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, yn y 5 mlynedd cyntaf byddwn yn:

1. Cynnal archwiliad canolog o'r gweithlu i adolygu staffio presennol ynghyd ag ystyried swyddi gwag staff addysgu a staff cymorth yn y presennol ac yn y dyfodol i gefnogi recriwtio a chadw staff sydd â sgiliau Cymraeg gan gynnwys staff addysgu a dysgu sy'n gwbl rhugl. Bydd hyn yn cynnwys:
  - Dadansoddi canlyniad data cyfrifiad gweithlu'r ysgo, data'r Fframwaith Iaith a ffynonellau tystiolaeth ansoddol i gefnogi cynllunio'r gweithlu i lywio'r gwaith o gynllunio rhaglenni dysgu proffesiynol sy'n adlewyrchu anghenion ein gweithlu lleol sy'n benodol i gynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg ym mhob ysgol.
  - Cynnal archwiliad i adolygu ac adlewyrchu newidiadau mewn math o ysgol/dynodiad ieithyddol ar draws pob cyfnod a chynllunio'n strategol i gefnogi uwchsgilio lle bo angen.
  - Monitro Cynlluniau Datblygu Ysgolion i sicrhau bod arweinwyr yn dangos ystyriaeth weithredol ac yn cynllunio ar gyfer gwella sgiliau ieithyddol gweithlu eu hysgolion ac yn annog staff i gymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu Cymraeg a chaffael iaith.
  - Monitro nifer yr ymgeiswyr Cymraeg eu hiaith sy'n dewis symud ymlaen i swyddi arwain ar ôl cwblhau rhaglenni datblygu arweinyddiaeth cenedlaethol ac annog ymarferwyr cymwys iawn ac arweinwyr i barhau i chwilio am gyfleoedd i wneud y mwyaf o'u cymwysterau er budd ysgolion a disgyblion Caerdydd.
2. Adolygu Cynllun Datblygu'r Gweithlu Llywodraeth Cymru<sup>26</sup> a cheisio prif ffrydio argymhellion ar lefel leol i wneud y mwyaf o'r gweithlu addysgu a dysgu Cymraeg rhugl a'i dyfu, gan gynnwys y twf gofynnol a'r arbenigeddau sydd ganddo.
3. Sicrhau bod ysgolion yn cael gafael ar yr adnoddau sydd ar gael i ddatblygu gweithlu Cymru mewn ysgolion gan gynnwys:
  - Cyngor, cymorth ac arweiniad i ysgolion ar sut i adlewyrchu sgiliau Cymraeg eu staff yn gywir drwy wneud y gorau o gyfraniad Swyddog Cymraeg mewn Addysg CCD.
  - Annog a monitro'r niferoedd staff addysgu sydd ar gwrs newydd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol fel llwybr arall ar gyfer datblygu hyder ieithyddol o fewn y gweithlu addysgu a dysgu.

---

<sup>26</sup> Disgwyl cyhoeddi ganol 2022

- Sicrhau bod pob tîm arweinyddiaeth ysgol a llywodraethwyr yn ymwybodol o'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a'r angen am sgiliau dwyieithog a bod monitro ac uwchsgilio eu staff yn allweddol fel rhan o'u hyfforddiant fel llywodraethwyr a'u DPP.
  - Sicrhau bod staff o ysgolion Cymraeg yn gwneud cais am raglenni datblygu arweinyddiaeth cenedlaethol perthnasol gan gynnwys y Rhaglen Darpar Brifathrawon sy'n arwain at gymhwyster CPCP.
4. Gweithio i gefnogi twf yn y gweithlu addysgu drwy:
- Weithio gyda phartneriaid allanol i hyrwyddo mentrau ar lwybrau i addysgu a rhannu unrhyw wybodaeth berthnasol gydag ysgolion a pharhau i ddarparu dysgu a chymorth proffesiynol i athrawon ANG, yn enwedig drwy rôl mentoriaid sefydlu rhanbarthol.
  - Hyrwyddo'r llwybrau lluosog a'r cymhellion ar gyfer hyfforddiant athrawon i ategu'r cynnwys sydd ar gael drwy Gyngor y Gweithlu Addysg.
  - Datblygu a chydlynu ymgyrch i hyrwyddo addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg i fyfyrwyr addysg bellach ac uwch ar y cyd â Chaerdydd Ddwyieithog a phartneriaid-ddarparwyr, ochr yn ochr ag archwilio cyfleoedd i ariannu Swyddog Pontio i gefnogi'r gwaith hwn.<sup>27</sup>
  - Archwilio'r posibiladau i ddatblygu ymgyrch hyrwyddo a recriwtio leol i dargedu'r angen am amrywiaeth pellach ar draws y gweithlu addysgu a dysgu, yn enwedig yn y gweithlu sy'n siarad Cymraeg i gefnogi cynyddu amrywiaeth disgyblion yn y sector addysg Gymraeg yn yr hirdymor a sicrhau bod pob teulu a disgybl yn teimlo bod eu hysgol yn adlewyrchu eu cymuned leol.<sup>28</sup>
5. Byddwn yn cefnogi datblygiad proffesiynol parhaus staff o ran y Gymraeg drwy:
- Weithio'n agos gyda phartneriaethau Addysg Gychwynnol Athrawon i gefnogi hyfforddiant myfyrwyr o athrawon Cymraeg rhugl, gan gynnwys sicrhau bod ysgolion Cymraeg Caerdydd yn cael eu nodi fel ysgolion arweiniol, ysgolion hyfforddi neu ysgolion lleoliad.
  - Darparu cymorth rhagweithiol ar ôl y cynllun sabothol i ymarferwyr a chwilio am gyfleoedd i gyfranogwyr ddefnyddio a datblygu eu sgiliau Cymraeg ymhellach yn eu cyd-destun proffesiynol yn rheolaidd gyda golwg ar weld staff yn gweithio mewn darpariaeth sydd ymhellach ar hyd y continwwm dwyieithog (h.y. ysgolion/lleoliadau iaith deuol neu leoliadau Cymraeg).<sup>29</sup>
  - Uwchsgilio cymhwysedd ieithyddol y gweithlu addysgu a dysgu cyfrwng Saesneg presennol i sicrhau eu bod yn teimlo'n hyderus i gefnogi dysgu Cymraeg gwell gyda phob disgybl fel rhan o gynnig y Cwricwlwm i Gymru newydd

Dros y 10 mlynedd nesaf byddwn yn:

<sup>27</sup>Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog Thema Un, Amcan 12

<sup>28</sup> Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog Thema Un, Amcan 13

<sup>29</sup> Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog Thema Un, Amcan 13



6. Gwerthuso effaith cwrs y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol newydd ar gyfer staff addysgu yng Nghaerdydd ac a yw'n profi i fod yn effeithiol fel ffordd o ddatblygu hyder ieithyddol o fewn y gweithlu addysgu a dysgu.
7. Ei gwneud yn ofynnol i lywodraethwyr pob ysgol gynnwys adroddiad ar y Gymraeg i ddathlu ac ystyried gwell defnydd a datblygiad sgiliau Cymraeg ymhlith disgyblion ynghyd â chyfleoedd caffael iaith â ffocws iddynt ar gyfer eu staff addysgu a dysgu, a hynny yn eu hadroddiad blynyddol i rieni sydd yn gyson â Chwricwlwm i Gymru 2022.
8. Sicrhau bod ysgolion yn gosod ac yn adrodd ar dargedau ar gyfer datblygu sgiliau Cymraeg o fewn cynlluniau datblygu ysgolion yng nghyd-destun gwella safonau er mwyn sicrhau bod ffocws cryf ar flaenoriaethu datblygiad proffesiynol parhaus sy'n cynnwys gwella sgiliau ieithyddol.
9. Dwysáu gwaith gyda darparwyr Addysg Uwch ynghyd â CCD i sicrhau bod y Cynllun Sabothol Cymraeg yn cael ei ddefnyddio'n fwy strategol i ddiwallu anghenion ysgolion, yn enwedig y rhai lle bydd newidiadau o ran faint o Gymraeg a addysgir a fydd felly yn effeithio ar anghenion sgiliau'r staff.

Mae'r prif bartneriaid sy'n gyfrifol am weithredu'r camau uchod yn cynnwys:

- CCD
- Darparwyr AGA – Met Caerdydd, Y Brifysgol Agored, Coleg Cymraeg
- Cyngor y Gweithlu Addysg
- Addewid Caerdydd

ATODIAD 1

Tafllwybr Caerdydd 2050

CSCA 2022 – 2031

Awst 2021

## Cynnwys

### **1. Cyd-destun Polisi**

- (i) Cyd-destun Polisi Cenedlaethol Cymraeg 2050
- (ii) Strategaeth Caerdydd Ddwyeithog 2017-2022

### **2. Data cefndirol**

- (i) Cylchred poblogaeth diweddar
- (ii) Capasiti ysgolion a lleoedd gwag
- (iii) Ysgolion Cynradd - Capasiti
- (iv) Ysgolion Cynradd – Niferoedd diweddar ar y gofrestr a lleoedd gwag
- (v) Ysgolion Uwchradd - Capasiti
- (vi) Ysgolion Uwchradd – Niferoedd diweddar ar y gofrestr a lleoedd gwag

### **3. Newidiadau arfaethedig i gapasiti ysgolion: 2021 - 2025**

### **4. Newidiadau Diweddarach: 2026 - 2031**

- (i) Poblogaeth
- (ii) Newidiadau i ddarpariaeth ysgolion yn y dyfodol (2026-2031)
- (iii) Taflwybr
- (iv) Methodoleg taflwybr
- (v) Amcanestyniadau nifer disgyblion
- (vi) Casgliadau

## Cyd-destun Polisi Cenedlaethol Cymraeg 2050

Yn 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth Gymraeg *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg* yn unol ag Adran 78 Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r strategaeth yn cefnogi 'hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg'. Ei nod yn y tymor hir yw i Gymru gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae'r strategaeth yn enwi addysg drochi cyfrwng Cymraeg fel y 'prif ddull ar gyfer sicrhau bod plant yn gallu datblygu eu sgiliau Cymraeg, ac ar gyfer creu siaradwyr newydd' (*Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg, tud21*). Felly, bydd argaeledd addysg Gymraeg yn allweddol i gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg.

Y targed cenedlaethol yw:

- Cynyddu cyfran pob grŵp blwyddyn ysgol sy'n derbyn addysg Gymraeg o 22 y cant (yn seiliedig ar 7,700 o ddysgwyr saith oed yn 2015/16) i 30 y cant (tua 10,500 ym mhob grŵp blwyddyn) erbyn 2031, ac yna 40 y cant (tua 14,000 ym mhob grŵp blwyddyn) erbyn 2050.

Cydnabyddir yn y strategaeth y bydd y dull yn amrywio ar draws gwahanol ranbarthau yng Nghymru yn dibynnu ar nodweddion eu poblogaethau. Mae'r strategaeth hefyd yn nodi ardaloedd sydd â dwysedd poblogaeth uchel ond canran is o siaradwyr Cymraeg fel ardaloedd sydd â photensial penodol ar gyfer twf.

Mae Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol osod targed deng mlynedd yn amlinellu'r cynnydd disgwylidig yn y plant Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ardal yr awdurdod lleol yn ystod oes Cynllun.

Rhaid i'r targed gael ei gefnogi gan ddatganiad yn nodi sut y byddai Awdurdod Lleol yn cyflawni'r cynnydd disgwylidig yn nifer y plant Blwyddyn 1 a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod oes y Cynllun. Dyma'r targed deng mlynedd cyffredinol ar gyfer CSCA 2022 - 2031.

Mae'r fethodoleg a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru i gyfrifo'r targed yn gyson â'r cerrig milltir yn Gymraeg 2050 sy'n ymwneud â'r cynnydd yn nifer y dysgwyr mewn addysg Gymraeg sydd eu hangen i gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Bydd nifer y dysgwyr sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn amrywio ym mhob grŵp blwyddyn, felly bydd y targed yn seiliedig ar nifer y dysgwyr Blwyddyn 1 (5/6 oed), sy'n cynrychioli dechrau addysg statudol. Data CYBLD ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 1 yw'r set ddata fwyaf cynhwysfawr sydd ar gael ar gyfer dysgwyr sydd ar gamau cynharaf addysg gynradd. Mae CYBLD yn gasgliad electronig o ddata ar lefel disgyblion ac ysgolion a ddarperir gan bob ysgol a gynhelir yn y sector cynradd, canol, uwchradd, meithrin ac arbennig ym mis Ionawr bob blwyddyn; fodd bynnag, yn 2021, cafwyd y data ym mis Ebrill.

Mae Awdurdodau Lleol wedi'u grwpio i gategoriâu gwahanol sy'n adlewyrchu'r gwahaniaethau (a chydabod elfennau tebyg) rhwng y 22 awdurdod. Roedd y ffactorau a ystyriwyd wrth grwpio yn cynnwys canran y dysgwyr a addysgir yn Gymraeg ym mhob ardal, y modelau darpariaeth addysg Gymraeg a fabwysiadwyd gan Awdurdodau Lleol, a natur ieithyddol ardal.

Mae Caerdydd wedi'i gosod yn 'Grŵp 3' sy'n cael ei ddisgrifio fel a ganlyn:

"Roedd rhwng 14% ac 19% o blant Blwyddyn 1 yn yr awdurdodau lleol hyn yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2019/20. Efallai mai addysg gymunedol Gymraeg yw'r norm mewn un/nifer fach iawn o ardaloedd, ond dyma'r eithriad nid y rheol. Fel arfer mae dewis i'w gael rhwng addysg Gymraeg ac addysg Saesneg."

Mae'r tabl isod yn nodi gwaelodlin 2019/2020 a nodwyd gan Lywodraeth Cymru, a'r targedau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, ar gyfer Caerdydd:

**Tabl 1: Gwaelodlinau a thargedau Caerdydd a gyhoeddwyd yng nghanllawiau'r CSCA**

	2019/20		2030/31		2030/31	
			Ystod Is		Ystod Uwch	
	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Caerdydd	702	16.9%	1,035	25%	1,200	29%
Cymru	7848	23.3%	10415	31%	11690	35%

Mae'r niferoedd ar y gofrestr (NAG) ar gyfer Ionawr 2020 yn dangos bod ychydig o dan 4,700 o blant yn mynychu ysgolion cynradd Cymraeg (4-11 oed) yng Nghaerdydd ac ychydig dros 3,200 mewn ysgolion uwchradd Cymraeg (11-18 oed). Mae'r ffigurau NAG yn dangos bod cyfran gyffredinol y plant sydd mewn addysg Gymraeg llawn amser (4-18 oed) yng Nghaerdydd yn 16% ym mis Ionawr 2020.

## Strategaeth Caerdydd Ddwyeithog 2017-2022

Gosododd Cyngor Caerdydd ei *Caerdydd Ddwyeithog: Strategaeth 5 Mlynedd yr Iaith Gymraeg 2017-2022* yn 2016. Nod y strategaeth hon yw creu 'Caerdydd wirioneddol ddwyeithog.' Mae hefyd yn anelu at gyfrannu at ddyblu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd erbyn 2050 yn unol â *Cymraeg 2050*.

Yn gynwysedig yng nghynllun gweithredu'r strategaeth roedd y targedau i:

- Gynyddu nifer y myfyrwyr sy'n mynychu ysgolion Cymraeg 12.3% erbyn 2022.
- Cynyddu nifer y plant saith oed a addysgir trwy'r Gymraeg 1.2%, o 15.2% yn Ionawr 2016 i 16.4% erbyn 2020.

Rhan annatod o Strategaeth Caerdydd Ddwyeithog oedd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-2020 (CSCA), a oedd yn canolbwyntio ar dwf a darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg.


O'r saith deilliant strategol yn CSCA 2017-2020, edrychodd Deilliant 1 ar ddarparu lleoedd cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd ac ychwanegodd darged ychwanegol i'r ddau a nodwyd yn y strategaeth Caerdydd Ddwyeithog:

- Cynyddu nifer y plant oed Derbyn sy'n mynd i addysg Gymraeg bob blwyddyn.

O'r tri tharged a nodir yn Strategaeth Caerdydd Ddwyeithog a'r CSCA, mae dau eisoes wedi'u cyrraedd.


Mae ffigurau NAG ar gyfer Ionawr 2020 yn dangos bod 16.5% o blant saith oed yng Nghaerdydd yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ganran yn amrywio rhwng 2016 a 2020, gyda gostyngiad yn 2018, ond y duedd gyffredinol yw cynnydd yn nifer y plant saith oed sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Ffigur 1: Canran y plant saith oed mewn addysg Gymraeg**




Mae nifer y plant oedran Derbyn sy'n mynd i addysg Gymraeg wedi amrywio rhwng 2010 a 2020, er bod y duedd gyffredinol yn gynnydd araf. Fodd bynnag, gall hyn fod oherwydd newidiadau yn nifer y plant ym mhob carfan, a hefyd newidiadau o ran dewis o blaid addysg Ggymraeg. O edrych ar ganran y plant oedran Derbyn mewn addysg Gymraeg mae amrywiadau o hyd o flwyddyn i flwyddyn, ond mae'r duedd gyffredinol yn gynnydd mwy serth.

**Ffigur 2: Niferoedd i'r Dosbarth Derbyn mewn ysgolion Cymraeg yng Nghaerdydd (data CYBLD)**



**Ffigur 3: Canran y plant oedran Derbyn mewn addysg Gymraeg yng Nghaerdydd (data CYBLD)**



Pennwyd y trydydd targed i gynyddu nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgolion Cymraeg 12.3% ar gyfer 2022. Ym mis Ionawr 2017 roedd 7,272 o ddisgyblion 4-18 oed yn mynd i ysgolion Cymraeg. Roedd hyn wedi cynyddu i 7,902 o ddisgyblion cyfrwng Cymraeg ym mis Ionawr 2020, sy'n gynydd o 8.7%. Ar gyfartaledd mae nifer y disgyblion mewn ysgolion Cymraeg wedi cynyddu dros 200 o ddisgyblion bob blwyddyn. Er mwyn cyrraedd y targed o 8,107 o ddisgyblion erbyn 2022, a nodir yn Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog, dim ond cynnydd o 205 o ddisgyblion eraill fyddai eu hangen ar y nifer presennol. Felly mae'n debygol iawn y bydd y cyrhaeddir y targed o 12.3% erbyn 2022. Fodd bynnag, mae llawer o'r cynnydd hwn yn cael ei lywio gan batrymau poblogaeth yn hytrach na newid o ran dewis.

Er mwyn cyfrannu at dargedau newydd Cymraeg 2050, bydd y ddogfen hon yn edrych ar y ddarpariaeth bresennol yng Nghaerdydd a pha gamau y gellir eu cymryd er mwyn helpu i gyrraedd targed Llywodraeth Cymru o filiwn o Siaradwyr Cymraeg.



## Data cefndirol


### Cylchred poblogaeth diweddar

Mae cyfraddau geni yng Nghaerdydd wedi amrywio'n sylweddol yn y blynyddoedd diweddar. Mae data poblogaeth a gyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru (Stats Wales) yn dangos patrwm cylchol dros y 25 mlynedd diwethaf.

Mae Ffigur 7 isod yn dangos bod nifer y genedigaethau wedi gostwng rhwng 1996 a 2002, ac ar yr adeg honno fod y nifer wedi gostwng i 3,569. Yn nhermau cynllunio lleoedd ysgol, mae hyn yn cyfateb i 119 o Ddosbarthiadau Mynediad (DM).


Dilynwyd hynny gan gyfnod o dwf tan yr uchafbwynt o 4770 (159 DM) yn 2011, cynnydd o dros 33%. Dechreuodd genedigaethau ostwng yn 2012 ac maent wedi bod yn gostwng oddi ar hynny. Yn dilyn y patrwm hwn, mae'n fwy tebygol y byddwn yn parhau i weld cynnydd a chwymp yn y gyfradd enedigaethau yn hytrach na chynnydd mwy graddol a chyson dros amser.

**Ffigur 4: Genedigaethau yng Nghaerdydd 1996 – 2019 (Stats Cymru)**



Mae'r cylchred hwn a welwyd yn nata cyfraddau geni Caerdydd yn wahanol i'r amcanestyniadau poblogaeth a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2011 a 2014, ac mae hefyd yn wahanol i'r amcanestyniadau diweddaraf yn 2018 a gyhoeddwyd yn 2020:

**Ffigur 5: Amcanestyniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer nifer y plant 0 oed o gymharu â'r gyfradd enedigaethau**



Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau rhif a chanran ar gyfer Caerdydd sy'n seiliedig ar boblogaeth 2030/31 yn y garfan berthnasol o tua 4,140 o blant. Fodd bynnag, mae dadansoddiad o'r data poblogaeth diweddaraf a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn dangos amcanestyniad poblogaeth sy'n is.

Mae'r Cyngor yn casglu data cofrestru meddygon teulu gan y GIG bob blwyddyn sy'n dangos y bydd y gyfradd enedigaethau yng Nghaerdydd 2020, pan gaiff ei chyhoeddi, yn is na'r gyfradd enedigaethau a ragamcennir gan Lywodraeth Cymru. Felly, rhaid i unrhyw dargedau tymor byr neu ganolig a osodir yng Nghaerdydd ystyried y data cyfraddau geni diweddaraf sydd ar gael.

## Capasiti ysgolion a lleoedd gwag

Ar hyn o bryd mae'r ddarpariaeth Gymraeg yn cyfrif am oddeutu 16% o gapasiti lleoedd ysgol (4-18 oed) yng Nghaerdydd.

Darperir tua 18% o leoedd cynradd (4-11 oed) a 15% o leoedd uwchradd (11-18 oed) drwy gyfrwng y Gymraeg. Wrth ystyried ysgolion cymunedol yn unig (h.y. ac eithrio ysgolion ffydd sydd yn ysgolion cyfrwng Saesneg yn unig yng Nghaerdydd), darperir tua 20% o'r lleoedd cynradd (4-11 oed) a 23% o'r lleoedd uwchradd (11-18 oed) drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn nodi'r canlynol ynghylch lleoedd gwag:

*"Mae angen rhai lleoedd gwag fel y gall ysgolion ymdopi ag amrywiadau mewn niferoedd disgyblion, ond mae gormod o leoedd gwag, y gellid eu dileu, yn golygu bod adnoddau'n cael eu gwastraffu'n ddiangen. Os oes mwy na 10% o leoedd gwag mewn ardal yn gyffredinol, dylai awdurdodau lleol adolygu eu darpariaeth ac ystyried os y dylent wneud cynigion ar gyfer cael gwared arnynt, os y bydd yn gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y ddarpariaeth.*

*Fel arfer, ni ddylid bod angen darparu lleoedd ychwanegol mewn ysgolion os oes gan ysgolion eraill o'r un fath leoedd gwag o fewn pellter rhesymol. Fodd bynnag efallai y bydd cynigion i gynyddu nifer y lleoedd mewn ymateb i'r galw am fath arbennig o ddarpariaeth e.e. cyfrwng Cymraeg, yn dal yn briodol - yn enwedig os oes darpariaeth effeithiol o leoedd wedi'i chynllunio ar gyfer ardal yr awdurdod lleol."*

## Ysgolion Cynradd - Capasiti

Gwelwyd '**Neb yn siarad Cymraeg yn y cartref**' fel y rheswm mwyaf tebygol (62.4%) pan nad oedd rhieni yn ystyried cyfrwng Cymraeg. Dilynwyd hyn gan '**Dwyf i ddim yn teimlo y bydd siarad Cymraeg yn fanteisiol i 'mhlentyn**' (55.9%).





(Sylfaen: 93)

0.0 10.0 20.0 30.0 40.0 50.0 60.0 70.0

DS. Nid yw canrannau yn dod i 100% oherwydd y gallai ymatebwyr ddewis mwy nag un ateb


Nododd 20 o ymatebwyr 'Arall'; mae manylion am y rhain yn y tabl isod: -

Thema	Nifer	Enghraifft o sylwadau
Dewis Saesneg	5	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Well gen i iddynt astudio trwy'r Saesneg."</li> <li>"Roeddwn eisiau i 'mhlentyn ddysgu yn Saesneg."</li> </ul>
Rhagolygon gyrfa	5	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Mae siarad Cymraeg yn fanteisiol ond gall addysg Gymraeg eu cyfyngu yn addysgol yn nes ymlaen."</li> <li>"Rydym yn teimlo wrth ddysgu Cymraeg fod plant yn colli pynciau eraill mwy perthnasol."</li> </ul>
Profiad negyddol	4	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Cael bod y rhai oedd yn bleidiol i'r Gymraeg yn codi dychryn ac yn blwyfol."</li> </ul>
Lleoliad	1	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Roeddwn eisiau ysgol agosaf i'n cartref (dyma oedd y prif reswm). Nid oedd yr ysgol Gymraeg yn agos."</li> </ul>
Amrywiol	5	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Nid dyma oedd un o'r ffactorau pwysicaf wrth gynllunio addysg a datblygiad fy mhlentyn."</li> <li>"Dim ond am dair blynedd y bûm yma. Bu'n rhaid i mi ffoi o 'ngwlad dan orfodaeth."</li> </ul>

### Os Do – Pam?

Cafodd ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn ystyried cyfrwng Cymraeg i'w plentyn gyfle i esbonio pam.

Gwelwyd '**Roeddwn eisiau i 'mhlentyn fod yn ddwyieithog**' fel y prif reswm (88.5%) pam fod rhieni wedi ystyried cyfrwng Cymraeg; dilynwyd hyn gan '**Roeddwn eisiau i 'mhlentyn garu ein hiaith genedlaethol**' (72.6%) ac '**Rwyf eisiau i 'mhlentyn siarad Cymraeg i gael mwy o ddewisiadau gyrfa yng Nghymru pan fydd yn oedolyn**' (65.2%).




DS. Nid yw canrannau yn dod i 100% oherwydd y gallai ymatebwyr ddewis mwy nag un ateb

Dewisodd 28 ymatebydd 'Arall' y rhoddir manylion amdanynt yn y tabl isod: -

Thema	Nifer	Enghraifft o sylwadau
Siaradwr Cymraeg	17	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Mae fy nghymar a'i deulu yn siarad Cymraeg."</li> <li>"Cymraeg yw ein hiaith."</li> <li>"Rwy'n Gymro Cymraeg felly doedd dim angen meddwl ddwywaith! Y peth naturiol i'w wneud."</li> </ul>
Eisiau iddynt ddysgu Cymraeg	5	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Roedd fy ngŵr yn awyddus fel athro ieithoedd a heb gael y cyfle ei hun i ddysgu."</li> <li>"Am ein bod yn deulu Cymraeg, a bod gan ein plant yr hawl i dderbyn eu haddysg yn eu hiaith eu hunain."</li> </ul>
Gwell adnoddau	3	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Mwy o gyllid mewn ysgolion Cymraeg."</li> </ul>
Dosbarthiadau llai	2	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Mae gan yr ysgolion well adnoddau a dosbarthiadau llai."</li> </ul>
Diffyg cyfrwng Saesneg	1	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Diffyg lle mewn ysgolion cyfrwng Saesneg."</li> </ul>
Datblygu sgiliau ieithyddol	1	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Darparu'r arfau ieithyddol i ddysgu ieithoedd eraill yn nes ymlaen mewn bywyd."</li> </ul>
Amrywiol	5	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Heb iaith – heb hunaniaeth."</li> <li>"Lle'r oeddwn i'n byw, y dewis oedd ysgol Gymraeg wael, neu ysgol Saesneg wael. Fe wnes i symud tŷ."</li> </ul>


Wnaethoch chi ymrestru eich plentyn mewn ysgol cyfrwng Cymraeg?

Fe wnaeth dau o bob tri (66.7%) o rieni a ymatebodd ymrestru eu plant mewn ysgol cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd ledled y ddinas o 15.6 % o blant a ymrestrwyd mewn addysg cyfrwng Cymraeg



## Os gwnaethoch ystyried ond na wnaethoch, pa ffactorau arweiniodd at hyn?

Yr oedd 95 o ymatebwyr i'r arolwg oedd wedi ystyried ymrestru eu plant mewn addysg Gymraeg ond wedi penderfynu yn ei erbyn. Y prif resymau dros hyn oedd **'Pryderon ynghylch y gallu i gefnogi'r plentyn gartref.'** (55.8%), **'Dwyf i ddim yn teimlo y bydd siarad Cymraeg o fantais i 'mhlentyn'** (36.8%) a **'Phellter o'r ysgol'** (17.9%).




DS. Nid yw canrannau yn dod i 100% oherwydd y gallai ymatebwyr ddewis mwy nag un ateb

Nododd 16 ymatebydd 'Arall'. Mae'r themâu ac enghreifftiau o sylwadau isod: -

Thema	Nifer	Enghraifft o sylwadau
Eisiau cyfrwng Saesneg	3	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Mae ysgolion cyfrwng Saesneg yn fwy amrywiol ac yn cynrychioli poblogaeth y ddinas."</li> </ul>
Lleoliad	2	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Ysgol ardderchog ar stepen ein drws felly dyma benderfynu mai dyma oedd y dewis gorau."</li> </ul>
Diffyg argaeledd	2	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Nid yw'r ysgol cyfrwng Cymraeg yn yr ardal orau. Siomedig nad oes mwy o ddewis. Mae dwy ysgol cyfrwng Saesneg yn y pentref."</li> </ul>
Sgiliau iaith	1	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Nid wyf i/rhieni yn siarad Cymraeg."</li> </ul>
Ddim yn flaenoriaeth	1	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Nid Cymraeg yw fy mlaenoriaeth. Safon addysg gyffredinol dda yw'r flaenoriaeth."</li> </ul>
Amrywiol	7	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Gallu dysgu Cymraeg fel dewis."</li> <li>"Nid yw'r plentyn yn yr ysgol eto."</li> </ul>

Lle daethoch o hyd i wybodaeth am eich dewisiadau o ysgol?

'Gwefan y Cyngor' oedd yr adnodd mwyaf tebyg (60.7%) wrth chwilio am wybodaeth am ddewis ysgol. Dilynwyd hyn gan 'Teulu a chyfeillion' (54.4%) ac 'Ysgolion Lleol' (45.9%).




DS. Nid yw canrannau yn dod i 100% oherwydd y gallai ymatebwyr ddewis mwy nag un ateb


Nododd 26 o ymatebwyr ffynhonnell 'Arall' ac y mae manylion amdanynt yn y tabl isod: -

<b>Thema</b>	<b>Nifer</b>	<b>Enghraifft o sylwadau</b>
<b>Dim ond yn gwybod</b>	<b>7</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• "Dim ond yn gwybod."</li> <li>• "Eisoes yn gyfarwydd â'r ysgol."</li> </ul>
<b>Cyfryngau cymdeithasol / rhyngwyd</b>	<b>6</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• "Cyfryngau cymdeithasol – nid ffrindiau ond ar grwpiau rhieni Facebook lleol."</li> <li>• "Gwefan "My Local School"."</li> </ul>
<b>Estyn</b>	<b>5</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• "Estyn"</li> <li>• "Adroddiadau Estyn, a thystiolaeth arall nad oes digon ohono, yn hytrach nag achlust."</li> </ul>
<b>Aelodau o'r gymuned</b>	<b>4</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• "Adborth cymunedol yn unig."</li> </ul>
<b>Gwaith</b>	<b>2</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• "Rwy'n gweithio mewn addysg."</li> </ul>
<b>Teulu/Cyfeillion</b>	<b>2</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• "Cyfaill."</li> </ul>
<b>Ddim yn gwybod</b>	<b>1</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• "Wir, alla'i ddim cofio."</li> </ul>
<b>Amrywiol</b>	<b>4</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• "Roeddwn yn dysgu yn yr ysgol."</li> </ul>

Hoffech chi weld mwy o wybodaeth yn cael ei darparu am ddewisiadau ysgol?  
Byddai rhyw ddwy ran o dair (65.5%) o rieni yn hoffi gweld darparu mwy o wybodaeth am ddewis ysgolion.




Pa wybodaeth fyddai'n fuddiol i chi i gefnogi gwneud penderfyniadau am addysg eich plentyn a lle hoffech chi gael y wybodaeth hon?  
Soniodd bron i dri o bob pump (58.0%) o rieni 'Un wefan yn dal yr holl wybodaeth' fel y ffactor mwyaf buddiol wrth wneud penderfyniadau am addysg eu plant.




Ydych chi'n cytuno â chamau arfaethedig y Cyngor ynghylch hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg?

Yr oedd tri o bob pump (60.1%) o rieni yn cytuno â chamau'r Cyngor ynghylch hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg.



Cynyddodd cytuno i dri o bob pedwar (74.1%) o ymatebwyr ymysg siaradwyr Cymraeg; mae hyn 14 pwynt canran yn uwch na'r canfyddiadau cyffredinol.

Yr ymatebwyr oedd leiaf tebygol o gytuno oedd staff ysgolion a gwrywod (42.8% a 52.0%).




DS: - Dylid bod yn ofalus wrth ystyried meintiau sylfaen isel.

**Mae Cymraeg 2050 yn gosod nod o gael 1 filiwn o siaradwyr Cymraeg. I symud tuag at hyn, amlinellodd Llywodraeth Cymru dargedau i bob awdurdod lleol am nifer y disgyblion ym Mlwyddyn 1 sy'n derbyn eu haddysg trwy'r Gymraeg. Er mwyn cyrraedd hyn yng Nghaerdydd rhaid i ni gynyddu o'r 18% presenol i rhwng 25%-29% erbyn y flwyddyn academaidd 2030/31.**

Ydych chi'n cytuno gyda thargedau Llywodraeth Cymru i ddisgyblion sy'n dod i ddsbarthiadau derbyn dros y 10 mlynedd nesaf?

Mae dros dri o bob pump (62.4%) o ymatebwyr yn cytuno â thargedau Llywodraeth Cymru i ddisgyblion sy'n dod i ddsbarthiadau derbyn dros y 10 mlynedd nesaf; mae hyn yn cynnwys 39.7% oedd yn cytuno'n gryf.







Wrth gymharu ymatebion siaradwyr Cymraeg a'r ymatebion cyffredinol, mae cytuno yn uwch o ryw 24.4 pwynt canran (86.8% i 62.4%).

Ymatebwyr oedd yn dweud eu bod yn anabl a staff ysgolion oedd leiaf tebygol o gytuno (50.0% a 53.8%).

Ydych chi'n cytuno gyda thargedau Llywodraeth Cymru i ddisgyblion sy'n dod i ddosbarthiadau derbyn dros y 10 mlynedd nesaf?






DS: - Dylid bod yn ofalus wrth ystyried meintiau sylfaen isel.


Oes gyda chi awgrymiadau am sut y gall yr awdurdod lleol gynyddu nifer y disgyblion sy'n cyrchu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg, yn enwedig y sawl na fyddai'n draddodiadol yn ei ddewis?

Dyweddodd dros ddau o bob pump (43.8%) o ymatebwyr fod ganddynt awgrym am sut y gall yr awdurdod lleol gynyddu nifer y disgyblion sy'n cyrchu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg, yn enwedig y sawl na fyddai'n draddodiadol yn ei ddewis.



## Nodwch

'Mwy o gefnogaeth i rieni' (74.4%) oedd yn cael ei weld fel y ffordd fwyaf dylanwadol o gynyddu nifer y disgyblion sy'n cyrchu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg; dilynwyd hyn gan 'Fwy o ysgolion cyfrwng Cymraeg' (65.0%).



DS. Nid yw canrannau yn dod i 100% oherwydd y gallai ymatebwyr ddewis mwy nag un ateb


Yr oedd gan 90 o ymatebwyr awgrymiadau 'Eraill'; o'u dadansoddi, cafwyd 16 thema. Mae manylion y tair prif thema ac enghreifftiau o sylwadau fel a ganlyn: - (Gellir gweld rhestr lawn o themâu gyda sylwadau enghreifftiol yn Atodiad B).

Thema	Nifer	%	Enghraifft o sylwadau
Hybu'r iaith yn well	12	13.3	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Hyrwyddo manteision, gwell swyddi i ieithwyr, mwy o gyfleoedd."</li> <li>"Pwysleisio fod that Cymraeg yn rhoi manteision i bobl yn y gweithle, mewn busnes a'r byd y tu hwnt i addysg."</li> </ul>
Mwy o wersi/cyrsiau Cymraeg	12	13.3	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Mwy o hyfforddiant a chefnogaeth o ansawdd i athrawon ddysgu Cymraeg. Cyrsiau Cymraeg am ddim i'r holl athrawon."</li> <li>"Coleg Cymraeg yng Nghaerdydd."</li> </ul>
Agwedd fwy cynhwysol	11	12.2	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Mae angen gwneud mwy i ddwyn poblogaethau C2DE a BAME i mewn, mae'n cael ei weld fel dewis Gwyn/DC."</li> <li>"Cymuned Gymraeg fwy cynhwysol sy'n croesawu integreiddio, yn hytrach na hyrwyddo arwahanrwydd."</li> </ul>

*Yng Nghaerdydd, rydym yn ystyried anghenion disgyblion trwy gydol eu taith addysgol. Mae hyn yn cynnwys rhoi i ddisgyblion yr arfau i adeiladu ar eu gwybodaeth o'r Gymraeg a'u sgiliau a phontio'n llwyddiannus rhwng cyfnodau addysg.*


Ydych chi'n cytuno â'r agwedd arfaethedig i gynyddu hyder disgyblion mewn Cymraeg ar draws holl ysgolion y wladwriaeth yng Nghaerdydd?

Yr oedd bron i dri o bob pedwar (73.4%) o ymatebwyr yn cytuno a'r agwedd arfaethedig i gynyddu hyder disgyblion mewn Cymraeg ar draws holl ysgolion y wladwriaeth yng Nghaerdydd; y mae hyn yn cynnwys 44.3% oedd yn cytuno'n gryf.



Ymatebodd bron bob un (93.4%) o'r ymatebwyr oedd yn siarad Cymraeg trwy ddweud eu bod yn cytuno â'r agwedd hon; mae hyn 20 pwynt canran yn uwch na'r canfyddiadau o'r ymatebwyr yn gyffredinol (73.4%).

Ymatebwyr gwryw a rhai 55+ oed oedd leiaf tebygol o gytuno â'r agwedd (66.3% a 68.1%).




DS: - Dylid bod yn ofalus wrth ystyried meintiau sylfaen isel.

Ydych chi'n cytuno â'r agwedd o ddatblygu darpariaeth drochi yn y Gymraeg i ddarparu cefnogaeth iaith ddwys i ddal i fyny os bydd angen?

Yr oedd dros ddwy ran o dair (68.2%) yn cytuno a'r agwedd o ddatblygu darpariaeth drochi yn y Gymraeg i ddarparu cefnogaeth iaith ddwys i ddal i fyny os bydd angen ; yr oedd hyn yn cynnwys 44.1% oedd yn cytuno'n gryf.

Ydych chi'n cytuno â'r agwedd o ddatblygu darpariaeth drochi yn y Gymraeg i ddarparu cefnogaeth iaith ddwys i ddal i fyny os bydd angen?


(Sylfaen: 580)



Unwaith eto, yr oedd cytuno yn cynyddu'n sylweddol fesul ymatebwyr oedd yn siaradwyr Cymraeg (90.5%); mae hyn 22.3 pwynt canran yn uwch na rhai'r canfyddiadau cyffredinol (68.2%).

Ymatebwyr oedd yn staff ysgolion a rhai 55+ oed oedd leiaf tebygol o gytuno â'r agwedd (56.3% a 61.7%).

Ydych chi'n cytuno â'r agwedd o ddatblygu darpariaeth drochi yn y Gymraeg i ddarparu cefnogaeth iaith ddwys i ddal i fyny os bydd angen?




DS: - Dylid bod yn ofalus wrth ystyried meintiau sylfaen isel.

*Yn y cynllun, mae deiliant penodol i gynyddu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.*

Oes gyda chi blentyn ag anghenion dysgu ychwanegol, neu a oes gennych brofiad o weithio gyda phlant ag anghenion dysgu ychwanegol?


Mae gan ychydig dros chwarter (27.5%) o ymatebwyr blentyn ag anghenion dysgu ychwanegol neu mae ganddynt brofiad o weithio gyda phlant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn cymharu ag oddeutu 17.9% o blant yn ysgolion Caerdydd sydd ar y gofrestr ADY.



Ydych chi'n cytuno â'r blaenoriaethau arfaethedig ar gyfer cefnogi pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol i gyrchu addysg cyfrwng Cymraeg?


Mae bron i ddwy ran o dair (64.6%) o ymatebwyr yn cytuno â'r blaenoriaethau arfaethedig ar gyfer cefnogi pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol i gyrchu addysg cyfrwng Cymraeg.

WESP Consultation



Siaradwyr Cymraeg unwaith eto oedd yn cefnogi'r raddfa uchaf o gytundeb, gyda mwy na phedwar o bob pump (82.7%) o'r grŵp hwn yn cytuno â'r blaenoriaethau arfaethedig; mae hyn 22.1 pwynt canran yn uwch na rhai'r canfyddiadau cyffredinol (64.6%).

Ymatebwyr oedd yn staff ysgolion a rhai 55+ oed oedd leiaf tebygol o gytuno (58.3% a 59.1%).



DS: - Dylid bod yn ofalus wrth ystyried meintiau sylfaen isel.




Dywedwch wrthym beth ydych chi'n ddeall am y modd yr ydym yn darparu ar gyfer disgyblion ag ADY mewn addysg cyfrwng Cymraeg?

Rhoddodd 87 ymateb am eu dealltwriaeth o ddarpariaeth ADY mewn addysg Gymraeg; gosodwyd y rhain mewn 6 thema, a cheir y manylion isod, gydag enghreifftiau o sylwadau: -

Thema	Nifer	Enghraifft o sylwadau
Gallai'r gefnogaeth fod yn well/Diffyg adnoddau	36	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Mae uned yn YGG Glantaf. Mae'r wybodaeth a roddir yn y cyflwyniad yn anghywir. Nid oes digon o adnoddau i'r plant ac y mae angen cryn dipyn o gyllid. Mae angen datblygu'r ganolfan hon a defnyddio eu gwybodaeth arbenigol. Dylid sicrhau fod pobl ifanc sy'n siarad Cymraeg yn cael yr un cyfleoedd â'r rhai mewn darpariaeth ADY cyfrwng Saesneg."</li> <li>" Mae angen mwy o arbenigwyr i asesu disgyblion yn Gymraeg, mwy o adnoddau yn Gymraeg a mwy o unedau ADY ledled y sir."</li> <li>"Rwy'n gweithio gyda phlant sy'n ceisio lloches, gan gynnwys plant heb oedolyn gyda hwy. Nid ydynt yn siarad Saesneg na Chymraeg. Does dim cyfle ar hyn o bryd iddynt ddysgu Cymraeg a rhaid i ni ystyried integreiddio. Rwy'n gryf o'r farn y dylid cael darpariaeth iaith Gymraeg iddynt."</li> </ul>
Dim fawr o wybodaeth	10	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Does gen i ddim gwybodaeth lawn am y ffordd yr ydych yn darparu ar gyfer disgyblion ag anghenion ychwanegol - dylai pob plentyn ag anghenion ychwanegol dderbyn ystyriaeth i'r anghenion hynny a chael cefnogaeth fel y gallant ddysgu a ffynnu."</li> </ul>
Mae un iaith yn ddigon i ymdopi â hi	7	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Os yw teuluoedd yn siarad Cymraeg, yna gallant helpu eu plant gyda'r iaith. Mae gan blentyn ag anghenion dysgu ddigon i ymdopi ag ef heb orfod dysgu ail iaith trwy orfodaeth."</li> </ul>
Dylid darparu addysg waeth beth fo unrhyw ADY	6	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Mae plant mewn ysgolion Cymraeg sydd ag ADY yn aml yn cael eu hanfon i ysgolion cyfrwng Saesneg. Mae llawer o ysgolion Saesneg yn teimlo bod yr ysgolion Cymraeg yn symud eu problemau atynt hwy, yn enwedig gyda phlant a phroblemau ymddygiad. Mae hyn yn gyffredin. Mae plant awtistig yn cael Cymraeg yn arbennig o anodd. Nid yw'n deg gofyn i blant â'r anghenion hyn astudio Cymraeg."</li> </ul>
Ymarferiad drud / Fawr o fanteision	3	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Wn i ddim os oes digon o alw am ysgol arbennig cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd neu a oes digon o athrawon/cyn-orthwyr arbenigol. Mae'n edrych fel cynnig drud a diangen."</li> </ul>
Amrywiol	26	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Alla'i ond gwneud sylw am ysgolion uwchradd. Mae Cymraeg achlysurol yn cael ei ddefnyddio, lluniau yn Gymraeg a Saesneg yn cael eu harddangos. Gair yr wythnos."</li> <li>"Mae fy mab ag ASD ac wedi cael trafferth mewn addysg Gymraeg, ond y mae yn awr yn rhugl ei Gymraeg wedi symud i ysgol Saesneg."</li> </ul>

Sut ydych chi'n teimlo mae'n cymharu â darpariaeth ADY yn y gymuned cyfrwng Saesneg ac ysgolion ffydd?



*DS. Nid yw canrannau yn dod i 100% oherwydd y gallai ymatebwyr ddewis mwy nag un ateb*

Sut ydych chi'n teimlo y gallai fod yn wahanol i gwrdd â'ch disgwyliadau?

Yna gofynnwyd i ymatebwyr, 'Sut ydych chi'n teimlo y gallai fod yn wahanol i gwrdd â'ch disgwyliadau?'- Derbyniwyd 60 sylw, ac o'u dadansoddi, cafwyd 8 thema. Mae manylion y themâu ac enghreifftiau o sylwadau isod: -


Thema	Nifer	Enghraifft o sylwadau
<b>Angen mwy o gefnogaeth/adnoddau</b>	<b>33</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Canolfan ADY benodol yng Nghaerdydd, lle gall disgyblion unigol gael gefnogaeth am rai dyddiau/rhan o ddyddiau yr wythnos."</li> <li>" Mwy o adnoddau ar gael yn Gymraeg – does dim prawf dyslecsia ar gael yn Gymraeg ar hyn o bryd – rwy'n ei chael yn anodd profi dysgwyr sydd gen i yn eu mamiaith."</li> <li>"Mae'r Canolfannau Adnoddau Arbenigol yng Nglantaf a Phwll Coch yn fach ac mewn ystafelloedd dosbarth traddodiadol. Nid yw'r cyfleusterau hyn yn briodol i'n dysgwyr gydag anghenion cymhleth y mae eu teuluoedd am iddynt gael addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r staff rhagorol yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Glantaf yn gweithio allan o ystafelloedd dosbarth dros dro ac ni allant gyrchu mannau dysgu eang yn rheolaidd, megis neuaddau chwaraeon. Nid oes gan eu dysgwyr fynediad hyd yn oed at ystafell synhwyraidd. Mae llawer o ysgolion arbennig ledled y ddinas sy'n rhoi darpariaeth cyfrwng Saesneg gyda chyfleusterau fel pyllau nofio, mannau chwarae meddal ac ystafelloedd therapi. Does gan ein dysgwyr cyfrwng Cymraeg ddim. Mae'r Hafan ym Mhwll Coch mewn un ystafell ddosbarth. Fel isafswm, mae ar y canolfannau adnoddau arbennig hyn angen adeiladau pwrpasol gyda chyfleusterau i'r llu disgyblion ddaw trwy'r sector cyfrwng Cymraeg gydag amrywiaeth o anghenion meddygol ac addysgol cymhleth."</li> </ul>
<b>Dylai ADY fod yn deg/darpariaeth lawn waeth beth fo'r iaith</b>	<b>17</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Dylai pob darpariaeth ADY fod yn deg waeth beth fo'r cyfrwng – mae angen i'r plant hyn ddefnyddio iaith y cartref i gael cefnogaeth lawn rhwng y plentyn, y cartref a'r ysgol."</li> <li>"Rwy'n deall i rai gydag ADY, nad dysgu trwy iaith arall yw'r dewis gorau ond o'r hyn a glywais gan gyfeillion, mae'r ysgolion cyfrwng Cymraeg yn barod iawn i symud y plant allan o'r system. Efallai bod hyn oherwydd nad yw'r help yno ar hyn o bryd, felly byddai blaenoriaethu a chefnogi'r rhai sy'n dysgu plant ag ADY yn fan cychwyn."</li> </ul>
<b>Dim cefnogaeth fawr yn y cyfrwng Cymraeg</b>	<b>10</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>" Ymddengys fod plant ag ADY mewn ysgolion Cymraeg yn cael eu hannog i ymrestru mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, yn enwedig os ydynt yn dod o aelwyd Saesneg. Y casgliad yw na all y plant ymdopi â dysgu Cymraeg pan nad yw'r broblem o raid yn broblem caffael iaith."</li> </ul>
<b>Ddim yn gwybod</b>	<b>5</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Rwyf ond wedi gweithio mewn ysgolion Saesneg, ac y mae fy mhlant yn mynd i ysgolion Saesneg, felly dwyf i ddim yn gwybod pa mor wahanol yw'r gefnogaeth ADY. Dylai fod yr un fath waeth pa iaith maent yn siarad."</li> </ul>

<b>Iaith ychwanegol yn rhoi gormod o bwysau</b>	<b>4</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Yn bersonol, rwy'n teimlo fod dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg i lawer o blant ag ADY, ac eithrio am y rhai sydd â'r Gymraeg yn iaith gyntaf, yn rhwystr ychwanegol i ddysgu. Trwy fy ngwaith rwyf wedi dod ar draws plant, yn enwedig y rhai â dyslecsia a phroblemau iaith a lleferydd, fu'n rhaid gadael darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Buaswn yn dathlu unrhyw gefnogaeth ychwanegol i'r rhai yn y cyfrwng Cymraeg, ond ni fuaswn yn annog addysg trwy ail iaith."</li> </ul>
<b>Sylwadau negyddol</b>	<b>2</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Nid wyf yn meddwl fod y cynnig hwn yn dderbyniol. Buasai yn rhoi ein plant dan anfantais oni bai y buasent yn aros yng Nghymru."</li> </ul>
<b>Cymraeg i siaradwyr Cymraeg</b>	<b>1</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Peidiwch â gadael i blant y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Nid oes ganddynt unrhyw siarad/darllen/dealltwriaeth Cymraeg yn eu cartrefi."</li> </ul>
<b>Amrywiol</b>	<b>7</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Mae gormod o amrywiolion sy'n gwneud y deilliant yn heriol mewn gwahanol ysgolion."</li> </ul>


*Tra bod a wnelo'r cynllun hwn yn benodol ag addysg, yr ydym yn cydnabod y gwerth o gael pobl ifanc yn cyrchu cyfleoedd i brofi a defnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r dosbarth. Mae'r gefnogaeth hon yn magu hyder yn yr iaith ac yn sicrhau ei fod yn cael ei wreiddio yng Nghaerdydd yn awr ac yn y dyfodol.*

A yw eich plentyn/plant yn cyrchu cyfleoedd i brofi a defnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r dosbarth ar hyn o bryd?

Mae gan ryw ddau o bob pump (42.3%) o ymatebwyr blentyn sydd ar hyn o bryd yn cyrchu cyfleoedd i brofi a defnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r dosbarth.




Yr oedd ymatebion 'Siaradwyr Cymraeg' deirgwaith yn fwy tebygol o fod â phlentyn sydd ar hyn o bryd yn cyrchu cyfleoedd i brofi a defnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r dosbarth o gymharu ag ymatebion lleiafrifoedd ethnig (74.5% a 25.0%).



DS: - Dylid bod yn ofalus wrth ystyried meintiau sylfaen isel.

**Nodwch:**

Clwb chwaraeon (58.6%) oedd y lle mwyaf cyffredin lle gall plant ddenfyddio eu Cymraeg y tu hwnt i'r dosbarth; a chlybiau allgyrsiol oedd y rhai mwyaf cyffredin wedyn (56.8%).




(Sylfaen: 222)

*DS. Nid yw canrannau yn dod i 100% oherwydd y gallai ymatebwyr ddewis mwy nag un ateb*

Sut ydych chi'n teimlo am yr hyn sydd i'w gynnig ar hyn o bryd i bobl ifanc ddefnyddio eu Cymraeg yng Nghaerdydd?

Yr oedd dros ddau o bob pump (46.9%) o ymatebwyr yn teimlo bod digon o amrywiaeth ond dim digon ohono ar draws y ddinas.




(Sylfaen: 486)

Beth mwy allwn ni wneud i annog pobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg yng Nghaerdydd?

Teimlai ymatebwyr mai'r ffordd orau i annog pobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg yng Nghaerdydd fyddai '**Mwy o gyfleoedd anffurfiol i siarad Cymraeg**' (71.4%); dilynwyd hyn gan '**Amlygu manteision tymor-hir siarad Cymraeg y tu hwnt i'r ysgol o ran cyflogaeth**' (64.1%).

Beth mwy allwn ni wneud i annog pobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg yng Nghaerdydd?

Ticiwch bob un sy'n berthnasol




DS. Nid yw canrannau yn dod i 100% oherwydd y gallai ymatebwyr ddewis mwy nag un ateb

*Bydd parhau i ddatblygu'r gweithlu addysg yn allweddol i gael Caerdydd i gyrraedd ei uchelgais am addysg cyfrwng Cymraeg yn y brifddinas.*

Oes gyda chi bryderon am gael digon o staff dysgu Cymraeg/Saesneg hollol ddwyieithog o ansawdd uchel i gyflwyno'r uchelgais a osodir allan?

Yr oed gan ryw dri o bob pump (61.8%) o ymatebwyr bryderon am gael digon o staff dysgu Cymraeg/Saesneg hollol ddwyieithog o ansawdd uchel i gyflwyno'r uchelgais a osodir allan


Oes gennych chi bryderon am gael digon o staff dysgu Cymraeg/Saesneg hollol ddwyieithog o ansawdd uchel i gyflwyno'r uchelgais a nodwyd?



Cynyddu wnaeth y pryderon hynny o'u hystyried gan 'Staff ysgolion' a 'Siaradwyr Cymraeg' (75.7% a 74.5%).

Pobl o leiafrifoedd ethnig a rhai dan 35 oed oedd leiaf tebygol o fod â phryderon (47.4% a 55.9%).





DS: - Dylid bod yn ofalus wrth ystyried meintiau sylfaen isel.

Beth yn eich barn chi sy'n rhaid newid?

Gofynnwyd i ymatebwyr a nododd eu bod yn pryderu 'Beth yn eich barn chi sy'n rhaid newid?' – derbyniwyd 238 sylw, ac o'u dadansoddi, cafwyd 17 thema. Mae manylion o'r tair prif thema ac enghreifftiau o sylwadau isod: - (Mae rhestr lawn o themâu gydag enghreifftiau o sylwadau yn Atodiad C).


Thema	Nifer	%	Enghraifft o sylwadau
<b>Gwell hyfforddiant a DPP/Targeddu myfyrwyr</b>	<b>75</b>	<b>31.5</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Mae angen i'r staff gael mynediad rhwydd at ddysgu ac ymarfer cyson."</li> <li>"Mwy o hyfforddiant o ansawdd dda i staff ysgolion, nid dim ond gwranddo ar-lein."</li> <li>"Hyfforddi'r sawl nad ydynt yn siarad Cymraeg i siarad Cymraeg."</li> <li>"Mae angen staff ychwanegol, llwybrau amgen (a'r rhai presennol yn agored i bynciau pellach) i ddysgu. Dylai staff gyda chymwysterau llawn gael cyfleoedd yn yr ysgolion i ddatblygu eu hunain ymhellach trwy rolau secondio."</li> <li>"Annog mwy o ddisgyblion Lefel A i barhau i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg mewn Addysg Uwch."</li> <li>"Targeddu myfyrwyr addysg all siarad Cymraeg a chynnig hyfforddiant iddynt i'w codi i'r safon angenrheidiol."</li> </ul>
<b>Recriwtio siaradwyr Cymraeg</b>	<b>54</b>	<b>22.7</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Annog mwy o siaradwyr Cymraeg i ddod yn athrawon."</li> <li>"Angen mwy o athrawon sy'n siarad Cymraeg ac mae hyn yn cychwyn o sicrhau fod llinell yn mynd i'r proffesiwn hon a'r ysgol uwchradd ymlaen."</li> </ul>

			<ul style="list-style-type: none"> <li>• "Rwy'n meddwl y dylid cael isafswm nifer o staff dysgu dwyieithog ym mhob ysgol."</li> <li>• "Mae angen dybryd am fwy o athrawon Cymraeg fel ail iaith. Heb hyn, bydd ysgolion yn cael eu gorfodi i leihau nifer yr oriau o ddarpariaeth Cymraeg."</li> <li>• "Mwy o staff sy'n siarad Cymraeg."</li> <li>• "Mwy o athrawon cyfrwng Cymraeg mewn pynciau Gwyddoniaeth."</li> </ul>
<b>Mwy o Staff / Prinder athrawon</b>	<b>52</b>	<b>21.8</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• "Mae prinder athrawon eisoes yn y cyfrwng Cymraeg a Saesneg ledled Cymru. Mae hyn yn arbennig o ddifrifol yn y cyfrwng Cymraeg - yn enwedig mewn pynciau STEM ac ieithoedd modern tramor. Buaswn i'n awgrymu gwell tâl ac amodau i'r holl athrawon ond buaswn yn gwrthwynebu unrhyw gymhellion arbennig i siaradwyr Cymraeg gan na fyddai hyn yn deg."</li> <li>• "Dwyf i ddim yn meddwl bod digon o staff ar hyn o bryd i wneud hyn."</li> <li>• "Dim digon o staff dysgu."</li> <li>• "Mae angen mwy o staff yn enwedig mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn y grwpiau oedran iau lle nad yw'r plant oll yn ddwyieithog."</li> <li>• "Angen mwy o athrawon a rhai o well ansawdd."</li> </ul>

Beth sydd ei angen i gynyddu nifer y staff mewn ysgolion sy'n siarad Cymraeg?

Hoffai tri o bob pump (61.2%) o ymatebwyr weld 'Mwy o ddarpar-athrawon trwy gyfrwng y Gymraeg'; ac yna 'Cefnogaeth i'r ysgol ryddhau staff ar gyfer hyfforddiant' (58.2%) a 'Mwy o gyfleoedd dysgu i'r staff presennol' (51.1%).

## Beth sydd ei angen i gynyddu nifer y staff mewn ysgolion sy'n siarad Cymraeg?



*DS. Nid yw canrannau yn dod i 100% oherwydd y gallai ymatebwyr ddewis mwy nag un ateb*

Oes gennych chi sylwadau pellach am y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg?

Gofynnwyd i ymatebwyr wedyn a oedd unrhyw sylwadau pellach am y cynllun strategol - derbyniwyd 183 o sylwadau, ac o'u dadansoddi, cafwyd 24 thema. Mae manylion o'r tair prif thema ac enghreifftiau o sylwadau isod:- (Gellir cael rhestr lawn o themâu ac enghreifftiau o sylwadau yn Atodiad D).

PRODUCED BY CARDIFF RESEARCH CENTRE


## WESP Consultation

Thema	Nifer	%	Enghraifft o sylwadau
Dewis Personol	44	24.0	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Mae dewis yn allweddol. Peidiwch â'i orfodi am y byddwch yn troi pobl ymaith."</li> <li>"Peidiwch â'i orfodi. Gwych i rai gael y dewis ond peidiwch â mynd ag ef oddi wrth y rhai sydd ddim ei eisiau."</li> <li>"Er fy mod wedi dewis addysg cyfrwng Cymraeg i'm plant, nid yw'n iawn i bawb. Dylid cynyddu'r ddarpariaeth yn unig os oes galw amdano."</li> <li>"Rwy'n teimlo na ddylid gorfodi ein plant ifanc i ddysgu Cymraeg. Os ydynt am ei ddysgu, dylent ddewis hynny. Yn union fel Ffrangeg/Sbaeneg neu unrhyw iaith arall. Yr ydym yn byw yn y DU ac felly Saesneg ddylai fod yn iaith gyntaf."</li> <li>"Ie, tydw i ddim yn meddwl mai'r agwedd iawn yw gorfodi plant i ddysgu cyfrwng Cymraeg os na all y rhieni eu cefnogi. Mae y tu ôl ymlaen. Dylai pob plentyn ddysgu Cymraeg ochr yn ochr â Saesneg, ond dylai'r llywodraeth fod yn cyllido dysgu Cymraeg i oedolion (mae'n rhy ddrud o lawer ar hyn o bryd) a hefyd rhoi cymhellion i oedolion ddysgu - rhyw fath o wobr os yw o leiaf un oedolyn ar aelwyd yn gallu siarad Cymraeg neu ei ddysgu. Mae plant yn dysgu rhoi gwerth ar iaith trwy ei siarad gyda rhiant. Os nad yw'r rhieni yn ei siarad gartref, neu yn waeth byth yn ei sarhau, bydd y plentyn yn ei gweld fel rhywbeth diangen, ac amherir ar eu dysgu academaidd."</li> <li>"Oherwydd bod Cymraeg yn orfodol, yn yr ysgolion, mae'r disgyblion yn ei gasáu. Erbyn Blwyddyn 9 maent yn gwybod beth maent yn hoffi neu beidio. Os nad yw myfyriwr yn dda iawn yn academaidd, bydd yn cael trafferth, a bydd y trafferthion hynny yn parhau ym myd gwaith. Mae angen i chi roi dewis i ddisgyblion i fod eisiau dysgu'r iaith. Felly byddant yn ei mwynhau ac yn elwa yn hytrach na chael eu gorfodi arnynt ac yna byddant yn cymryd yn ei herbyn."</li> </ul>
Sylwadau negyddol	32	17.5	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Leihau dysgu Cymraeg a gwneud gwell defnydd o'r amser yn yr ysgol."</li> <li>"Rhowch y gorau i'r cynllun camwahaniaethol hwn. Mae pawb yn siarad Saesneg ac y mae cosbi'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg yn ein gwneud yn ddieithr yn ein gwlad ein hunan. Ataliwch hyn."</li> <li>"Gwastraff arian pan fo addysg yng nghymru y tu ôl i wledydd eraill."</li> <li>"Ymarferiad sy'n eliffant gwyn, i dicio bocsys ar waethaf ei effaith andwyol ar addysg."</li> <li>"Rhowch y gorau i dreisio meddyliau'r ifanc. Os na ellwch ennill gyda'r rhai hyn a doethach, felly pam troi at yr ifanc? Gadewch i'r iaith fyw ar ei haeddiannau ac nid am fod rhai delfrydwyr yn tybio y dylid ei hachub. Rydych yn gwastraffu ein harian."</li> <li>"Mae'r arian sy'n cael ei daflu at hyn yn wirion! Mae disgyblion yn cael trafferthion gyda'r sylfeini yn Saesneg, cyllidebau ysgol yn lleihau, ond eto mae arian yn cael ei daflu at addysg Gymraeg. Petai'r ysgolion cynradd Cymraeg yn llawn, digon teg, ond tydyn nhw ddim."</li> </ul>

Agwedd yn rhannu	30	16.4	<ul style="list-style-type: none"> <li>• "Rwy'n rhiant gwyn dosbarth canol. Fy mhrif gŵyn gydag addysg cyfrwng Cymraeg fy mab yw bod demograffeg y disgyblion bron 100% yn wyn. Rwy'n teimlo bod hyn yn drychineb mewn dinas amrywiol sydd wedi integreiddio'n dda. Mae hyn yn cael ei anwybyddu, hyd y gwelaf, gan bawb sy'n hyrwyddo'r Gymraeg."</li> <li>• "Nid yw'r cynllun hwn yn cynnwys pobl hŷn fyddai'n ei chael yn anodd dysgu iaith newydd. Nid yw gwneud y Gymraeg yn ofyniad mewn swyddi/addysg yn syniad da. Mae'n hawdd dweud 'wel, fe allech ddysgu' neu 'mae gennym gyrsiau am ddim', ond dyw hi ddim yn bosib i rai gan nad oes ganddynt naill ai mo'r amser neu'r gallu meddyliol i ddysgu."</li> <li>• "Peidiwch â chau ysgolion cynradd Saesneg. Hyfforddych a thalu am yr ysgolion sy'n bod eisoes. Mae Caerdydd yn ddinas amrywiol a byddwch yn cau allan cymaint o deuluoedd. Mae'n dda eich bod wedi crybwyll yr agwedd ADY, ond rhaid ymdrin hefyd a'r agwedd SIA. Mae symudedd rhai diwylliannau yn golygu bod ysgol Gymraeg lawn yn debyg o apelio llai."</li> <li>• "Mae'n symudiad hwn yn ymddangos yn wleidyddol iawn ac yn edrych fel petai'n gorfodi plant a phobl ifanc. Mae Caerdydd yn amlddiwylliannol, a daeth llawer o deuluoedd o orllewin Lloegr, heb fod yn siaradwyr Cymraeg naturiol, felly mae perygl i hyn greu rhaniad."</li> <li>• "Mae'n ymrannol iawn. Does dim ymgynghori a dim trafodaeth. Os ydych yn gwrthwynebu cewch eich bwlio arlein ac ar y stryd. Cerbyd cenedlaetholgar ydyw sy'n mynd yn ei flaen, ac y mae'r mwyafrif tawel wedi rhoi'r gorau i ofyn pam? Brad y Llyfrau Gleision o chwith yw hyn. Mae'r iaith yn cael ei gorfodi ar bobl ac unrhyw obaith o fwynhad yn cael ei lethu. Trist iawn. Mae'r cwestiwn ydych chi'n ystyried eich hun yn Gymro/Cymraes yn crynhoi hyn."</li> </ul>
------------------	----	------	---

*Amdanoch chi*

Darparwch eich cod post isod i adael i ni ganfod barn ac anghenion ymatebwyr fesul ardal: -



Faint oedd eich oed ar eich pen-blwydd diwethaf?

	Nifer	%
Dan 16	4	0.7
16-24	8	1.4
25-34	83	14.2
35-44	210	36.0
45-54	168	28.8
55-64	66	11.3
65-74	22	3.8
75+	6	1.0
Well gen i beidio â dweud	16	2.7
<b>Cyfanswm Ymatebwyr</b>	<b>583</b>	<b>100.0</b>

Ydych chi ...?

	Nifer	%
Gwryw	173	29.7
Benyw	381	65.5
Arall	2	0.3
Well gen i beidio â dweud	26	4.5
Cyfanswm Ymatebwyr	582	100.0

Ydych chi yno yn disgrifio eich hun fel Traws?

	Nifer	%
Ydw	3	0.5
Na	532	93.3
Well gen i hunan-ddisgrifio	4	0.7
Well gen i beidio â dweud	31	5.4
Cyfanswm Ymatebwyr	570	100.0

Oes unrhyw blant yn byw ar eich aelwyd?

	Nifer	%
Dim plant	158	27.7
Oes, dan 5 oed (cyn-ysgol)	107	18.7
Oes 5 - 11 oed (ysgol gynradd)	229	40.1
Oes, 11 - 16 oed (ysgol uwchradd)	185	32.4
Oes, 16 - 18 oed, mewn addysg amser llawn, neu'n gweithio	61	10.7
Oes, 16 - 18 oed ond nid mewn addysg amser llawn nac yn gweithio	11	1.9
Cyfanswm Ymatebwyr	571	100.0

Ydych chi'n berson anabl?

	Nifer	%
Ydw	22	3.8
Na	532	91.9
Well gen i beidio â dweud	25	4.3
Cyfanswm Ymatebwyr	579	100.0

Ticiwch unrhyw rai o'r canlynol sy'n berthnasol i chi:

	Nifer	%
Salwch neu gyflwr iechyd tymor-hir (e.e., cancer, diabetes, neu asthma)	52	43.7
Anawsterau iechyd meddwl	18	15.1
Nam symud	11	9.2
Byddar/Wedi mynd yn fyddar/Trwm fy nghlyw	14	11.8
Nam gweledol	4	3.4
Nam/anawsterau dysgu	6	5.0
Defnyddiwr cadair olwyn	1	0.8
Well gen i beidio â dweud	28	23.5
Arall	3	2.5
Cyfanswm Ymatebwyr	119	-

Ydych chi'n synied amdanoch eich hun fel yn perthyn i unrhyw grefydd benodol?

	Nifer	%
Na, dim crefydd	372	64.8
Cristion (gan gynnwys yr Eglwys yng Nghymru, Catholig, Protestant a phob enwad Cristnogol arall)	179	31.2
Mwslim	8	1.4
Bwdist	0	0.0
Iddewig	2	0.3
Hindŵ	1	0.2
Sic	0	0.0
Well gen i beidio ag ateb	9	1.6
Arall	3	0.5
Cyfanswm Ymatebwyr	574	100.0

Sut buasech chi'n disgrifio eich sgiliau iaith Gymraeg?

	Nifer	%
Rhugl	199	34.2
Cymedrol	56	9.6
Sylfaenol	122	21.0
Dysgwr	88	15.1
Dim	117	20.1
Cyfanswm Ymatebwyr	582	100.0



Ydych chi'n ystyried eich hun yn Gymro/Cymraes?

	Nifer	%
Ydw	480	82.6
Na	101	17.4
Cyfanswm Ymatebwyr	581	100.0

Beth yw eich grŵp ethnig?

*Lle defnyddir y term 'Prydeinig', mae hyn yn cyfeirio at unrhyw un o bedair cenedl Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, neu unrhyw gyfuniad o'r rhain.*

	Nifer	%
Gwyn - Cymraeg/Sais/Saesnes/Albanaidd/Gogledd Iwerddon/Prydeinig	517	89.4
Well gen i beidio â dweud	21	3.6
Gwyn –Unrhyw gefndir gwyn arall	10	1.7
Grwpiau Ethnig Cymysg/Lluosog – Unrhyw rai eraill	5	0.9
Gwyn - Gwyddelig	4	0.7
Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig - Pacistanaidd	4	0.7
Grwpiau Ethnig Cymysg/Lluosog - Gwyn ac Asiaidd	3	0.5
Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Du Cymreig/Prydeinig - Caribiaidd	3	0.5
Unrhyw grŵp ethnig arall (nodwch)	3	0.5
Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig - Indiaidd	2	0.3
Grwpiau Ethnig Cymysg/Lluosog - Gwyn a Du Caribiaidd	2	0.3
Arabaid	1	0.2
Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig - Bangladeshaid	1	0.2
Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Du Cymreig/Prydeinig - Affricanaidd	1	0.2
Grwpiau Ethnig Cymysg/Lluosog - Gwyn a Du Affricanaidd	1	0.2
Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig – Unrhyw un arall	0	0.0
Cyfanswm Ymatebwyr	578	100.0

## Atodiad A

	Under 35	55+	Female	Male	Minority ethnicity	Identify as disabled	Welsh speaker	Children in household	All respondents	School Staff
More nursery children/ three-year olds receive their education through the medium of Welsh.	4.4	4.7	4.4	5.1	4.7	4.2	4.9	4.6	4.6	4.2
More reception class children/ five-year olds receive their education through the medium of Welsh.	4.1	4.4	4.0	4.7	4.4	4.3	4.5	4.3	4.2	4.0
More children continue to improve their Welsh language skills when transferring from one stage of their statutory education to another.	4.0	4.3	4.2	3.9	4.3	4.4	3.8	4.2	4.2	4.0
More learners study for assessed qualifications in Welsh (as a subject) and subjects through the medium of Welsh.	3.0	2.8	2.7	2.9	2.9	2.9	2.8	2.7	2.8	2.9
More opportunities for learners to use Welsh in different contexts in school.	4.6	4.4	4.4	4.0	4.0	4.5	4.0	4.2	4.3	4.3
An increase in the provision of Welsh-medium education for pupils with additional learning needs (ALN)	3.3	2.6	3.4	3.1	3.3	3.4	3.1	3.4	3.3	3.5
Increase the number of teaching staff able to teach Welsh (as a subject) and teach through the medium of Welsh	4.8	5.0	5.1	4.5	4.8	4.9	5.1	5.0	4.9	5.3

## Atodiad B

Thema	Nifer	%	Enghraifft o sylwadau
<b>Hyrwyddo'r iaith yn well</b>	<b>12</b>	<b>13.3</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Hyrwyddo manteision, gwell swyddi i ieithwyr, mwy o gyfleoedd."</li> <li>" Pwysleisio fod that Cymraeg yn rhoi manteision i bobl yn y gweithle, mewn busnes a'r byd y tu hwnt i addysg."</li> </ul>

Mwy o wersi/cyrsiau Cymraeg	12	13.3	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Mwy o hyfforddiant a chefnogaeth o ansawdd i athrawon ddysgu Cymraeg. Cyrsiau Cymraeg am ddim i'r holl athrawon."</li> <li>"Coleg Cymraeg yng Nghaerdydd."</li> </ul>
Agwedd fwy cynhwysol	11	12.2	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Mae angen gwneud mwy i ddwyn poblogaethau C2DE a BAME i mewn, mae'n cael ei weld fel dewis Gwyn/DC."</li> <li>"Cymuned Gymraeg fwy cynhwysol sy'n croesawu integreiddio, yn hytrach na hyrwyddo arwahanrwydd."</li> </ul>
Mwy o gefnogaeth	10	11.1	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Efallai cynnig cyrsiau Cymraeg am ddim i rieni sy'n dewis ysgol cyfrwng Cymraeg?"</li> <li>"Pecynnau dysgu y gellir eu hanfon gartref, gyda deunyddiau hawdd eu cyrchu i rieni a phlant."</li> </ul>
Mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith	10	11.1	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Mwy o weithgareddau hamdden am ddim trwy gyfrwng y Gymraeg y tu allan i'r ysgol."</li> <li>"Mwy o gyfle i ddefnyddio ac astudio'r Gymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg yn ysgolion cyfrwng Saesneg Caerdydd."</li> </ul>
Mwy o lefydd meithrin	9	10.0	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Darparu mwy o feithrinfeydd cyn-ysgol Cymraeg."</li> </ul>
Gwneud pob ysgol yn ddwyieithog	9	10.0	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Pam na fedr ysgolion yng Nghymru fod yn wirioneddol ddwyieithog? e.e., Saesneg yn y bore, Cymraeg yn y prynhawn."</li> </ul>
Mwy o staff / hyfforddiant i staff	8	8.9	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Cyflogi staff amlieithog i gefnogi plant gyda chefnidiroedd ieithyddol eraill."</li> </ul>
Gwnewch hi'n orfodol / Agor ysgolion Cymraeg yn unig	7	7.8	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Agor ysgolion cyfrwng Cymraeg yn unig o hyn allan; sicrhau addysg cyfrwng Cymraeg yn ddiodyn."</li> </ul>
Dewis personol	4	4.4	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Peidio â gorfodi'r iaith ar bobl. Mae dewis gwneud rhywbeth yn llawer gwell na gorfod gwneud."</li> </ul>
Agwedd yn ymrannol	4	4.4	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Dim ysgolion Cymraeg. Dim ysgolion Saesneg. Ysgolion gwirioneddol ddwyieithog. Mae'r drefn bresennol yn ymrannol."</li> </ul>
Lleoliad	3	3.3	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Lleoli ysgolion Cymraeg yn nes at adref. Mae'n rhaid i ni deithio yn sylweddol ymhellach i ysgol Gymraeg na'r un Saesneg."</li> </ul>
Rhannu adnoddau rhwng ysgolion Cymraeg / Saesneg	2	2.2	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Hyfforddi athrawon mewn ysgolion CS ar sut i ddysgu Cymraeg er mwyn annog siaradwyr Cymraeg mewn ysgolion CS."</li> </ul>
Arwyddion	1	1.1	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Llai, nid yw Cymraeg yn cael ei defnyddio'n gyffredin ym mhrifddinas Cymru, ac y mae arwyddion dwyieithog yn drysu ymwelwyr."</li> </ul>
Amrywiol	9	10.0	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Ysgolion ffydd Cymraeg?"</li> </ul>

DS: Nid yw'r canrannau cyffredinol yn dod i 100% gan y gall sylwadau'r ymatebwyr ddod dan fwy nag un thema.

## Atodiad C

Thema	Nifer	%	Enghraifft o sylwadau
Gwell hyfforddiant a DPP / Targeddu myfyrwyr	75	31.5	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Mae angen i'r staff gael mynediad rhwydd at ddysgu ac ymarfer cyson."</li> <li>"Mwy o hyfforddiant o ansawdd dda i staff ysgolion, nid dim ond gwranddo arlein."</li> <li>"Hyfforddi'r sawl nad ydynt yn siarad Cymraeg i siarad Cymraeg."</li> <li>"Mae angen staff ychwanegol, llwybrau amgen (a'r rhai presennol yn agored i bynciau pellach) i ddysgu. Dylai staff gyda chymwysterau llawn gael cyfleoedd yn yr ysgolion i ddatblygu eu hunain ymhellach trwy rolau secondio."</li> <li>"Annog mwy o ddisgyblion Lefel A i barhau i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg mewn Addysg Uwch."</li> <li>"Targeddu myfyrwyr addysg all siarad Cymraeg a chynnig hyfforddiant iddynt i'w codi i'r safon angenrheidiol."</li> </ul>
Recriwtio siaradwyr Cymraeg	54	22.7	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Annog mwy o siaradwyr Cymraeg i ddod yn athrawon."</li> <li>"Angen mwy o athrawon sy'n siarad Cymraeg ac mae hyn yn cychwyn o sicrhau fod llinell yn mynd i'r proffesiwn hon a'r ysgol uwchradd ymlaen."</li> <li>"Rwy'n meddwl y dylid cael isafswm nifer o staff dysgu dwyieithog ym mhob ysgol."</li> <li>"Mae angen dybryd am fwy o athrawon Cymraeg fel ail iaith. Heb hyn, bydd ysgolion yn cael eu gorfodi i leihau nifer yr oriau o ddarpariaeth Cymraeg."</li> <li>"Mwy o staff sy'n siarad Cymraeg."</li> <li>"Mwy o athrawon cyfrwng Cymraeg mewn pynciau Gwyddoniaeth."</li> </ul>
Mwy o Staff / Prinder athrawon	52	21.8	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Mae prinder athrawon eisoes yn y cyfrwng Cymraeg a Saesneg ledled Cymru. Mae hyn yn arbennig o ddifrifol yn y cyfrwng Cymraeg - yn enwedig mewn pynciau STEM ac ieithoedd modern tramor. Buaswn i'n awgrymu gwell tâl ac amodau i'r holl athrawon ond buaswn yn gwrthwynebu unrhyw gymhellion arbennig i siaradwyr Cymraeg gan na fyddai hyn yn deg."</li> <li>"Dwyf i ddim yn meddwl bod digon o staff ar hyn o bryd i wneud hyn."</li> <li>"Dim digon o staff dysgu."</li> <li>"Mae angen mwy o staff yn enwedig mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn y grwpiau oedran iau lle nad yw'r plant oll yn ddwyieithog."</li> </ul>

			<ul style="list-style-type: none"> <li>"Angen mwy o athrawon a rhai o well ansawdd."</li> </ul>
<b>Magu hyder i ddefnyddio'r iaith/rhoi mwy o gyfleoedd i'w defnyddio bob dydd</b>	<b>32</b>	<b>13.4</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Mwy o gefnogaeth i bawb, ond yn enwedig y sawl sydd â sgiliau iaith Gymraeg ond heb yr hyder na'r ymarfer i ddefnyddio'r sgiliau hynny yn y dosbarth."</li> <li>"Mwy o hyfforddiant i'r sawl sy'n siarad Cymraeg ond heb fod yn hyderus i'w defnyddio yn y gwaith."</li> <li>"Annog y staff fedr siarad a darparu sgiliau i ddefnyddio'r iaith y tu allan i'r man gwaith."</li> </ul>
<b>Hyrwyddo gwell ar ddysgu fel gyrfa</b>	<b>30</b>	<b>12.6</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Rhaid hyrwyddo gyrfaedd dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a chynnig cefnogaeth i'r sawl sydd am fanteisio ar gyfleoedd o'r fath."</li> <li>"Annog mwy o ddisgyblion i ystyried addysg fel gyrfa lwyddiannus."</li> <li>"Gofalu bod y proffesiwn dysgu yn ddeniadol, a'r amodau gwaith yn ffafriol fel nad yw staff â sgiliau yn gadael y proffesiwn."</li> </ul>
<b>Gwell amodau gwaith</b>	<b>24</b>	<b>10.1</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Mae prinder athrawon eisoes yn y cyfrwng Cymraeg a Saesneg ledled Cymru. Mae hyn yn arbennig o ddifrifol yn y cyfrwng Cymraeg - yn enwedig mewn pynciau STEM ac ieithoedd modern tramor. Buaswn i'n awgrymu gwell tâl ac amodau i'r holl athrawon ond buaswn yn gwrthwynebu unrhyw gymhellion arbennig i siaradwyr Cymraeg gan na fyddai hyn yn deg."</li> <li>"Rhaid gwneud y proffesiwn yn fwy deniadol i ddenu a chadw staff. Nid mater o dâl yn unig yw hyn, ond amodau gwaith hefyd – mae pwysau gwaith a phrosesau atebolrwydd yr haen ganol yn ormod."</li> <li>"Mwy o dâl i ddenu athrawon newydd."</li> </ul>
<b>Mwy o gefnogaeth</b>	<b>23</b>	<b>9.7</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Mwy o gefnogaeth mewn ysgolion uwchradd. Mwy o waith trochi i wella safon Cymraeg plant hŷn."</li> <li>"Mwy o hyfforddi athrawon a chefnogaeth i ysgolion ryddhau staff i gael hyfforddiant dwys / tymor-hir"</li> <li>"Cefnogi athrawon er mwyn gwneud yn sicr y bydd llai yn gadael y proffesiwn."</li> </ul>
<b>Cymhelliant i hyfforddi athrawon</b>	<b>22</b>	<b>9.2</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Cymhellion i unigolion sydd â diddordeb mewn dysgu i ddilyn eu cymhwyster dysgu a'u cyflogaeth trwy gyfrwng y Gymraeg."</li> <li>"Cymhellion ariannol i fyfyrwyr sy'n ystyried mynd yn athrawon."</li> <li>"Mwy o gymhellion ariannol i bobl hyfforddi fel addysgwyr"</li> </ul>
<b>Gostwng disgwyliadau / recriwtio / targedau</b>	<b>16</b>	<b>6.7</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Rhaid cael llai o dargedau diystyr a mwy o ddealltwriaeth o'r hyn mae ar rieni a phlant ei angen."</li> <li>"Gostwng y disgwyliad ynghylch beth yw athro/athrawes llwyr ddwyieithog. Peidio â dysgu mathemateg a gwyddoniaeth yn Gymraeg. Cael mwy o gymysgedd o Saesneg a Chymraeg a dysgwyr ym mhob ysgol."</li> </ul>
<b>Gwell athrawon</b>	<b>12</b>	<b>5.0</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Gwell athrawon."</li> <li>"Angen mwy o athrawon ac o safon well."</li> </ul>

Mwy o wersi Cymraeg	11	4.6	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Mwy o wersi penodol Gymraeg o'r cyfnod cynnar ym mhob ysgol."</li> <li>"Gwersi Cymraeg am ddim i oedolion /athrawon."</li> </ul>
Sylwadau negyddol	7	2.9	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Mwy o dryloywder o'r cychwyn. Mae'r agenda yn swnio'n fwy cyfan gwbl Gymraeg ac nid yn ddwyieithog."</li> </ul>
Newid y cwricwlwm	5	2.1	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Rwy'n meddwl y dylai'r pwyslais fod ar ddatblygu sgiliau llythrennedd ac nid ar yr iaith Gymraeg."</li> </ul>
Mwy o ysgolion cyfrwng Cymraeg	5	2.1	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Dal i gynyddu darpariaeth ac ehangu'r ddarpariaeth uwchradd yn ne'r ddinas."</li> </ul>
Mwy o adnoddau i ysgolion cyfrwng-Saesneg	4	1.7	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Rhaid rhoi arian i ysgolion cynradd Saesneg yn hytrach na dim ond adeiladu ysgolion Cymraeg schools!"</li> </ul>
Pryderon ADY	4	1.7	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Mwy o hyfforddiant, mae'n debyg. Mae'n od iawn clywed athrawes Gymraeg yn cwyno am dreigliadau pan nad yw hi ei hun yn wastad yn gywir a phan glywn gymaint o gamgymeriadau gan athrawon eraill ("o golau" "mae nhw."). Mae angen i bobl sy'n helpu plant ag anghenion ychwanegol wybod beth sydd ei angen er mwyn helpu."</li> </ul>
Amrywiol	30	12.6	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Mater o gyflenwad a galw yw hyn, does bosib?"</li> <li>"Fel athro nad yw'n siarad Cymraeg, lle'r ydw i yn ffitio i mewn?"</li> <li>"Mae angen mynd i'r afael â'r argyfwng recriwtio athrawon, yn enwedig yn y pynciau llai poblogaidd. Rhaid i hyn ddigwydd ar lefel uchaf Llywodraeth Cymru. Mae angen strategaeth gadarn."</li> </ul>

DS. Nid yw canrannau yn dod i 100% oherwydd y gallai ymatebwyr ddewis mwy nag un ateb.

## Atodiad D

Thema	Nifer	%	Enghraifft o sylwadau
Dewis personol	44	24.0	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Mae dewis yn allweddol. Peidiwch â'i orfodi am y byddwch yn troi pobl ymaith."</li> <li>"Peidiwch â'i orfodi. Gwych i rai gael y dewis ond peidiwch â mynd ag ef oddi wrth y rhai sydd ddim ei eisiau."</li> <li>"Er fy mod wedi dewis addysg cyfrwng Cymraeg i'm plant, nid yw'n iawn i bawb. Dylid cynyddu'r ddarpariaeth yn unig os oes galw amdano."</li> <li>"Rwy'n teimlo na ddylid gorfodi ein plant ifanc i ddysgu Cymraeg. Os ydynt am ei ddysgu, dylent ddewis hynny. Yn union fel Ffrangeg/Sbaeneg neu unrhyw iaith arall. Yr ydym yn byw yn y DU ac felly Saesneg ddylai fod yn iaith gyntaf."</li> </ul>

			<ul style="list-style-type: none"> <li>"Ie, tydw i ddim yn meddwl mai'r agwedd iawn yw gorfodi plant i ddysgu cyfrwng Cymraeg os na all y rhieni eu cefnogi. Mae y tu ôl ymlaen. Dylai pob plentyn ddysgu Cymraeg ochr yn ochr â Saesneg, ond dylai'r llywodraeth fod yn cyllido dysgu Cymraeg i oedolion (mae'n rhy ddruod o lawer ar hyn o bryd) a hefyd rhoi cymhellion i oedolion ddysgu - rhyw fath o wobr os yw o leiaf un oedolyn ar aelwyd yn gallu siarad Cymraeg neu ei ddysgu. Mae plant yn dysgu rhoi gwerth ar iaith trwy ei siarad gyda rhiant. Os nad yw'r rhieni yn ei siarad gartref, neu yn waeth byth yn ei sarhau, bydd y plentyn yn ei gweld fel rhywbeth diangen, ac amherir ar eu dysgu academaidd."</li> <li>" Oherwydd bod Cymraeg yn orfodol, yn yr ysgolion, mae'r disgyblion yn ei gasáu. Erbyn Blwyddyn 9 maent yn gwybod beth maent yn hoffi neu beidio. Os nad yw myfyriwr yn dda iawn yn academaidd, bydd yn cael trafferth, a bydd y trafferthion hynny yn parhau ym myd gwaith. Mae angen i chi roi dewis i ddisgyblion i fod eisiau dysgu'r iaith. Felly byddant yn ei mwynhau ac yn elwa yn hytrach na chael eu gorfodi arnynt ac yna byddant yn cymryd yn ei herbyn."</li> </ul>
<b>Negative comments</b>	<b>32</b>	<b>17.5</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Leihau dysgu Cymraeg a gwneud gwell defnydd o'r amser yn yr ysgol."</li> <li>"Rhowch y gorau i'r cynllun camwahaniaethol hwn. Mae pawb yn siarad Saesneg ac y mae cosbi'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg yn ein gwneud yn ddieithr yn ein gwlad ein hunan. Ataliwch hyn."</li> <li>"Gwastraff arian pan fo addysg yng nghymru y tu ôl i wledydd eraill."</li> <li>"Ymarferiad sy'n elfiant gwyn, i dicio bocsys ar waethaf ei effaith andwyol ar addysg."</li> <li>"Rhowch y gorau i dreisio meddyliau'r ifanc. Os na ellwch ennill gyda'r rhai hyn a doethach, felly pam troi at yr ifanc? Gadewch i'r iaith fyw ar ei haeddiannau ac nid am fod rhai delfrydwyr yn tybio y dylid ei hachub. Rydych yn gwastraffu ein harian."</li> <li>"Mae'r arian sy'n cael ei daflu at hyn yn wirion! Mae disgyblion yn cael trafferthion gyda'r sylfeini yn Saesneg, cyllidebau ysgol yn lleihau, ond eto mae arian yn cael ei daflu at addysg Gymraeg. Petai'r ysgolion cynradd Cymraeg yn llawn, digon teg, ond tydyn nhw ddim."</li> </ul>
<b>Agwedd yn ymrannol</b>	<b>30</b>	<b>16.4</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Peidiwch â chau ysgolion cynradd Saesneg. Hyfforddwch a thalu am yr ysgolion sy'n bod eisoes. Mae Caerdydd yn ddinas amrywiol a byddwch yn cau allan cymaint o deuluoedd. Mae'n dda eich bod wedi crybwyll yr agwedd ADY, ond rhaid ymdrin hefyd a'r agwedd SIA. Mae symudedd rhai diwylliannau yn golygu bod ysgol Gymraeg iawn yn debyg o apelio llai."</li> <li>"Mae'n symudiad hwn yn ymddangos yn wleidyddol iawn ac yn edrych fel petai'n gorfodi plant a phobl ifanc. Mae Caerdydd yn amlddiwylliannol, a daeth llawer o deuluoedd o orllewin Lloegr, heb fod yn siaradwyr Cymraeg naturiol, felly mae perygl i hyn greu rhaniad."</li> </ul>

			<ul style="list-style-type: none"> <li>"Mae'n ymrannol iawn. Does dim ymgynghori a dim trafodaeth. Os ydych yn gwrthwynebu cewch eich bwlio arlein ac ar y stryd. Cerbyd cenedlaetholgar ydyw sy'n mynd yn ei flaen, ac y mae'r mwyafrif tawel wedi rhoi'r gorau i ofyn pam? Brad y Llyfrau Gleision o chwith yw hyn. Mae'r iaith yn cael ei gorfodi ar bobl ac unrhyw obaith o fwynhad yn cael ei lethu. Trist iawn. Mae'r cwestiwn ydych chi'n ystyried eich hun yn Gymro/Cymraes yn crynhoi hyn."</li> <li>"Peidiwch â chau ysgolion cynradd Saesneg. Hyfforddwch a thalu am yr ysgolion sy'n bod eisoes. Mae Caerdydd yn ddinas amrywiol a byddwch yn cau allan cymaint o deuluoedd. Mae'n dda eich bod wedi crybwyll yr agwedd ADY, ond rhaid ymdrin hefyd a'r agwedd SIA. Mae symudedd rhai diwylliannau yn golygu bod ysgol Gymraeg iawn yn debyg o apelio llai."</li> <li>"Mae'n symudiad hwn yn ymddangos yn wleidyddol iawn ac yn edrych fel petai'n gorfodi plant a phobl ifanc. Mae Caerdydd yn amlddiwylliannol, a daeth llawer o deuluoedd o orllewin Lloegr, heb fod yn siaradwyr Cymraeg naturiol, felly mae perygl i hyn greu rhaniad."</li> </ul>
<b>Gwastraff adnoddau</b>	<b>29</b>	<b>15.8</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Am wastraff arian. Nid yw Cymraeg yn iaith fasnachol y tu allan i Gymru nac yng Nghymru."</li> <li>"Mae gormod o bwyslais yn cael ei roi ar addysg Gymraeg. Byddai modd ail-ddefnyddio'r amser a'r adnoddau a werir ar hyn gyda sgiliau allweddol fel Mathemateg, Gwyddoniaeth a Saesneg."</li> <li>"Rwy'n pryderu fod arian yn cael ei wastraffu ar rywbeth nad oes mo'i angen."</li> </ul>
<b>Blaenoriaethau pwysicach</b>	<b>24</b>	<b>13.1</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Defnyddiwch yr arian i brosiectau blaenoriaeth. Ar hyn o bryd, nid yw hyn yn flaenoriaeth."</li> <li>"Ar hyn o bryd, rydym yn gweld mewn ysgolion fod llawer o blant islaw eu lefelau darllen cyfartalog mewn Saesneg. Rwy'n meddwl bod angen i ddatblygu hyn fod yn flaenoriaeth, yna gweithio ar ddatblygu niferoedd y siaradwyr Cymraeg."</li> <li>"Pan fo plant yng Nghymru y tu ôl i blant cenhedloedd eraill, mae'n ymddangos yn chwerthinllyd gwario arian fel hyn yn lle cael y sylfeini'n iawn."</li> </ul>
<b>Pryderon am ragolygon gyrfa</b>	<b>23</b>	<b>12.6</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Rwy'n credu bod astudio Cymraeg y tu hwnt i ddewisiadau TGAU yn anghywir! Ychydig iawn o'r plant sy'n mynd ymlaen i fod yn siaradwyr Cymraeg ac felly rwy'n teimlo nad yw'n llawer o fantais iddynt. Byddai'n well rhyddhau dewis fel y gallant astudio pwnc sy'n eu symbylu neu yn rhoi mantais iddynt ar eu llwybr gyrfa neu astudio."</li> <li>"Oherwydd bod Cymraeg yn orfodol, yn yr ysgolion, mae'r disgyblion yn ei gasáu. Erbyn Blwyddyn 9 maent yn gwybod beth maent yn hoffi neu beidio. Os nad yw myfyriwr yn dda iawn yn academaidd, bydd yn cael trafferth, a bydd y trafferthion hynny yn parhau ym myd gwaith. Mae angen i chi roi dewis i ddisgyblion i fod eisiau dysgu'r iaith. Felly byddant yn ei mwynhau ac yn elwa yn hytrach na chael eu gorfodi arnynt ac yna byddant yn</li> </ul>



			<p>cymryd yn ei herbyn."</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>"Rwy'n pryderu y bydd yn lleihau cyfleoedd i bobl ifanc petaent yn dewis astudio neu weithio y tu allan i Gymru. Rwy'n falch iawn fod fy merch wedi gadael cyn i ddim o hyn gael ei weithredu. Mae llawer o'm pryderon yn codi o'r ffaith i mi gael myfyrwraig ar brofiad gwaith oedd ond wedi cael addysg cyfrwng Cymraeg hyd at 16 oed ac wedyn wedi cychwyn ar gwrs astudiaethau iechyd cyfrwng Saesneg mewn coleg yng Nghaerdydd. Doedd hi ddim wedi arfer ysgrifennu'n ffurfiol yn Saesneg ac yr oedd yn ysgrifennu traethodau yn Gymraeg ac yna'n eu cyfieithu. Yn rhyfedd iawn, roedd yn rhaid iddi fynychu dosbarthiadau Cymraeg wythnosol lle'r oedden nhw'n gwneud cyfarchion sylfaenol, lliwiau ac ati - yn amlwg, roedd hi'n gwybod hyn i gyd, ond pam oedd yn rhaid i'r myfyrwyr eraill ddysgu stwff mor sylfaenol a hwythau oll wedi gorfod cymryd TGAU Cymraeg y flwyddyn flaenorol? Mae angen mwy o onestrwydd am y strategaeth hon a llai o dicio bocsys."</li> </ul>
<b>Angen Mwy</b>	<b>22</b>	<b>12.0</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Angen mynd ymhellach fel na fydd cenedlaethau'r dyfodol yn colli allan ar eu hiaith a'u treftadaeth ddiwylliannol fel y gwnes i."</li> <li>"Gwnewch fwy i helpu oedolion fel fi sydd â rhyw sylfaen mewn Cymraeg ac yn gweithio mewn ysgolion, ond sydd heb gyfle i wella na dod yn rhugl. Mae'n drueni fod y cyfan wedi ei anelu at fyfyrwyr a bod ganddynt hwy gyn lleied o bobl i fod yn esiamplau iddynt."</li> <li>"Mae angen mwy o uchelgais. Rhaid i'r targed am ddisgyblion sy'n astudio yn Gymraeg fod yn uwch. Mae angen mwy o athrawon needed. Mae angen mwy o ysgolion cyfrwng- Cymraeg. Ddylai hyn ddim cael ei yrru gan ganfyddiad o alw – fe fydd yn creu'r galw. "Codwch hwy, ac fe fyddant yn dod."</li> </ul>
<b>Safle cyfartal i'r ddwy iaith/ysgolion</b>	<b>21</b>	<b>11.5</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Dylai pawn gael y cyfle i astudio Cymraeg os ydynt eisiau, ond rwy'n meddwl y dylid dyrannu cyllid yn decach i bob ysgol waeth beth yw'r iaith."</li> <li>"Mae angen cydbwysedd o ran cefnogi ysgolion cyfrwng Cymraeg y ddinas, ac ysgolion uwchradd yn arbennig, trwy wella'r adnoddau adeiledig. Cafodd llawer o ysgolion uwchradd cyfrwng- Saesneg y ddinas adeiladau newydd, ac y mae hynny'n beth da, trwy raglen ysgolion yr 21ain ganrif. Ond petawn i'n rhiant nad oedd yn siŵr am ddewis addysg uwchradd Gymraeg neu Saesneg i 'mhlant, buaswn yn ystyried yr adnoddau a'r adeiladau sydd gan wahanol ysgolion wrth benderfynu, ac ar hyn o bryd, mae'r ysgolion cyfrwng- Saesneg yn ddewis mwy deniadol o lawer. Mae rhieni eisiau eu plant i gael profiad addysgol gwerthfawr a chadarnhaol, ac y mae adeiladau, cyfarpar ac adnoddau yn rhan allweddol o hynny."</li> </ul>

			<ul style="list-style-type: none"> <li>"Dylid rhoi blaenoriaeth i gefnogi sgiliau llythrennedd a rhifedd waeth beth yw cyfrwng yr addysg."</li> </ul>
<b>Prinder athrawon/gwell ansawdd</b>	<b>21</b>	<b>11.5</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Mae arnom angen athrawon all gyflwyno'r Gymraeg fel ail iaith."</li> <li>"Hyrwyddo/marchnata'r colegau hyfforddi a chodi proffil yr argyfwng staffio sy'n datblygu yng ngwahanol gyfnodau'r cyfrwng Cymraeg."</li> <li>"Mae'n gynllun rhagorol, ond does dim modd ei gyflwyno heb athrawon Cymraeg eu hiaith."</li> </ul>
<b>Mwy o ddefnydd bob dydd/cyfleoedd i ddysgu</b>	<b>20</b>	<b>10.9</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Hyfforddi siaradwyr di-Gymraeg i ddysgu. Yn hytrach na dim ond cyflogi siaradwyr Cymraeg. Caniatáu i staff ddysgu trwy hyfforddiant sydd eisiau dysgu Cymraeg."</li> <li>"Diffyg clybiau ôl-ysgol neu grwpiau/gweithgareddau FFORDDIADWY yn GYFFREDINOL, heb sôn am y cyfrwng Cymraeg/dwyieithog. Adferwch fwy o ddarpariaeth wedi'r ysgol - yn enwedig mewn ardaloedd lle cynhelir clybiau ieuencid, canolfannau cymuned ac unrhyw ddosbarthiadau - e.e., Pentwyn."</li> <li>"Agorwch fwy o ganolfannau preswyl i bobl ddysgu Cymraeg a'u gwneud yn fforddiadwy. Mae ar blant angen mwy nag un daith i Langrannog yn eu haddysg uwchradd i gyfoethogi eu dysgu. Dylai teithiau preswyl fod yn flynyddol ac ar gost isel."</li> </ul>
<b>Targed yn ymddangos yn ymestynnol/amheus</b>	<b>19</b>	<b>10.4</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Amcanion amheus gyda fawr ddim o ran manteision amlwg wedi eu hyrwyddo gan fuddiannau sefydledig."</li> <li>"Mae dogfen y taflwybr (Atodiad 2) yn fuddiol, trylwyr a gwerthfawr. Nid yw hynny'n cael ei adlewyrchu yn strategaeth y CSCA. Cyfeirir at gynlluniau hysbys megis Plasdŵr, ond fawr ddim awgrymiadau fel arall, e.e., awgrym y gall ysgol uwchradd newydd ddod yn sgil y Cynllun Datblygu Lleol newydd, ond dim manylion am ba ysgolion fyddai'n bwydo'r ysgol honno. Rhoddir blaenoriaeth i fodel ysgol ddeuol Plasdŵr heb esbonio pam, tra dywed canllawiau CSCA y llywodraeth mai'r model trochi sydd orau o ran creu siaradwyr Cymraeg! Ni fydd llwyddiant arbrawf Plasdŵr (creu siaradwyr newydd o'r ffrwd Saesneg) yn hysbys tan ddiwedd cyfnod y CSCA hwn - felly mae'n od mentro cymaint ar hynny. Does dim trafodaeth o gwbl ar ddatblygu'r sector Saesneg (ar wahân i'r Cwricwlwm newydd). Lle mae'r cynigion i symud ysgolion ar hyd y continwmm? Awgryma'r ddemograffeg y bydd y llyfnydd gwag mewn ysgolion yn y sector cyfrwng Saesneg dros y blynyddoedd nesaf, ac o bosib bydd hynny yn galw am ad-drefnu - ac eto, does dim trafodaeth nac awgrym yn y CSCA o'r posibiladau a'r cyfleoedd allai ddeillio o hynny. Mae cymdogaethau 15-munud yn uchelgais - ond mae rhai ardaloedd o Gaerdydd ymhell o gael addysg cyfrwng Cymraeg o fewn pellter cerdded 15 munud - yn enwedig ardaloedd difreintiedig lle gall addysg cyfrwng Cymraeg helpu i wrthweithio'r tlodi hwnnw. Gan rai o'r ardaloedd hyn y mae'r dwysedd poblogaeth uchaf, ond y niferoedd isaf o siaradwyr Cymraeg- yma y mae'r manau lle mae potensial mawr i dyfu'r iaith, ond dim trafodaeth yn y CSCA. Fel y saif, mae'r CSCA ( ..?)."</li> </ul>

<b>Siaredir ieithoedd eraill yng Nghaerdydd</b>	<b>11</b>	<b>6.0</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Nid wyf yn cytuno ag ef. Mae'n dymor-byr ac annemocrataidd pan feddylwch am ddadansoddiad yr ieithoedd eraill a siaredir yng Nghaerdydd."</li> <li>"Rhowch y gorau i'r cynllun. Llawer gwell hyrwyddo ieithoedd rhyngwladol eraill sy'n cael eu defnyddio megis Ffrangeg, Almaeneg, a Sbaeneg. Mae'r strategaeth yn hollol anghywir."</li> </ul>
<b>Ieithoedd eraill yn fwy llesol</b>	<b>10</b>	<b>5.5</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Rwy'n meddwl ei bod yn wastraff arian gorfodi hyn. Dylai fod yn ddewis i'r rhieni pan fydd y plentyn yn dechrau yn yr ysgol. Dylid dysgu iaith y gellir ei defnyddio yn Ewrop a thu hwnt, fel Sbaeneg, o lefel mynediad a meithrin."</li> <li>"Byddai'n well gen i gael mwy o gyfleoedd yn yr ysgol sydd am ddim i rieni (h.y., gwersi cerddoriaeth) a gwersi sgiliau bywyd yn hytrach na gwthio'r iaith Gymraeg ar blant/rhieni mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Petaem eisiau i'n plentyn gael mwy o wybodaeth o'r Gymraeg, buasem wedi dewis addysg cyfrwng Cymraeg. Byddai pob iaith ryngwladol arall fel Ffrangeg, Sbaeneg ac Almaeneg o fwy o ddiddordeb i addysg ein plentyn. Defnyddir y Gymraeg yng Nghymru yn unig!"</li> </ul>
<b>Mwy o gefnogaeth/hyfforddiant i athrawon cyfrwng Saesneg</b>	<b>9</b>	<b>4.9</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Os ydych wir eisiau Caerdydd ddwyieithog, rhaid cael y Gymraeg yn cael ei siarad a'i defnyddio fel cyfrwng dysgu yn yr ysgol. Mae myfyrwyr yn dueddol o rannu a rhestru pynciau, ac i fod yn onest, mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, mae'r Gymraeg yn dod yn eithaf isel! Rwy'n cefnogi'r Gymraeg ac annibyniaeth i Gymru, ond mae angen i ni wella'r defnydd o Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Dewch ag athrawon sy'n siarad Cymraeg i'r ysgolion cyfrwng Saesneg fel bod dysgwyr oedran ysgol uwchradd yn dechrau gweld y Gymraeg yn cael ei defnyddio y tu allan i wersi Cymraeg."</li> </ul>
<b>Dylai fod yn broses organig</b>	<b>8</b>	<b>4.4</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Dwyf i ddim yn meddwl y dylid gorfodi'r Gymraeg. Bydd naill ai yn cynyddu'n naturiol, neu ddim. Dwyf i ddim eisiau dysgu Cymraeg."</li> </ul>
<b>Dim rhagfarn yn erbyn y rhain nad ydynt yn ddwyieithog</b>	<b>8</b>	<b>4.4</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Er bod amddiffyn yr iaith yn glodwiw, ni ddylai dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg fod yn brif flaenoriaeth ar hyn o bryd. Mae darpariaeth iaith Saesneg dan anfantais ac nid yw'r Gymraeg yn iaith ryngwladol, sy'n golygu anfantais posib i'r rhai a addysgwyd trwy gyfrwng y Gymraeg."</li> </ul>
<b>Pryderon am y defnydd tymor-hir o'r iaith</b>	<b>8</b>	<b>4.4</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Wedi gadael yr ysgol, does gan y mwyafrif o ddisgyblion o gartrefi di-Gymraeg fawr o gyfle i ddefnyddio'r iaith. Gall y disgyblion o gartrefi Cymraeg ddefnyddio'r iaith gartref. Mae angen rhywbeth i wneud y pontio o ysgol i goleg a phrifysgol trwy gyfrwng y Gymraeg yn bosib; nid yw hyn yn bodoli ar hyn o bryd, ac y mae cyfleoedd yn cael eu colli. Mae pobl ifanc yn symud allan o Gymru oherwydd bod addysg uwch trwy gyfrwng y Gymraeg yn brin. Dylai pob prifysgol yng Nghymru gynnig pob cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg."</li> </ul>
<b>Sylwadau cadarnhaol</b>	<b>8</b>	<b>4.4</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Mae'n hanfodol bwysig cael Cymru lle mae pobl yn gweld y Gymraeg yn hollol normal."</li> </ul>

<b>Cymraeg heb fod mor gyffredin yn y byd â Saesneg</b>	<b>7</b>	<b>3.8</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Mae'r targedau yn ymddangos yn ymestynnol iawn ac fe fuaswn yn casáu gweld y Saesneg dan anfantais oherwydd cynyddu'r Gymraeg. Petae'r Gymraeg yn cael ei siarad ledled y byd mor aml â'r Saesneg, ac yn ychwanegu gwerth y tu allan i Gymru, buaswn yn fwy cefnogol."</li> </ul>
<b>Dylai fod yn orfodol</b>	<b>7</b>	<b>3.8</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Mewn egwyddor, mae'n syniad gwych. Rwy'n credu y dylai pob ysgol gynradd newydd fod yn gyfrwng Cymraeg. Dyw hyn ddim yn anodd, ond y mae'n galw am ymrwymiad ariannol gan Gaerdydd a LIC. Mae llawer o fanteision amrywiol i ddwyieithrwydd, ond yr wyf hefyd yn credu ei fod yn ymestyn meddwl plentyn yn gynnar ac yn annog datblygiad yr ymennydd yn ogystal â gadael iddynt rannu yn niwylliant y wlad lle maent yn byw."</li> </ul>
<b>Digon ar gael eisoes</b>	<b>6</b>	<b>3.3</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Mae gormod o lefydd cyfrwng Cymraeg ac y mae'r cyfrwng Cymraeg eisoes yn derbyn mwy o arian. Bydd cynyddu fwyfwy yn rhoi plant eraill dan anfantais."</li> </ul>
<b>Effeithio ar fuddsoddi/y gymuned fusnes</b>	<b>5</b>	<b>2.7</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>"DA CHI ail-ystyriwch yr holl strategaeth hon gan y bydd yn troi mewnffuddsoddi i ffwrdd o Gymru a thrwytho plant mewn cenedlaetholdeb Cymreig cul. Bydd agwedd fwy rhyngwladol yn well o lawer o Gaerdydd a Chymru."</li> </ul>
<b>Dylid dysgu rhai pynciau yn Saesneg</b>	<b>2</b>	<b>1.1</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Addysg uwchradd - dwyf i ddim yn cytuno â dysgu mathemateg a gwyddoniaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Pynciau technegol, cymhelth yw'r rhain sy'n cael eu gwneud yn fwy anodd i rai plant o gartrefi di-Gymraeg. Dylai plant sy'n mynd i ysgolion uwchradd Cymraeg gael y dewis o wneud y pynciau hyn yn Saesneg, a fyddai, rwy'n meddwl, yn annog mwy o rieni i anfon eu plant i ysgolion uwchradd Cymraeg."</li> </ul>
<b>Amrywiol</b>	<b>19</b>	<b>10.4</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>"Mae'n sefyllfa anodd, gan fod agwedd a safbwynt tiwtoriaid Cymraeg yn amrywio: yn anffodus, ymddengys bod Ni a Nhw yn eithaf amlwg. Gall tiwtoriaid fod yn hyfryd iawn, neu holi pam eich bod eisieu dysgu fy iaith. Gobeithio yr aiff y cynllun rhagddo a llwyddo'n wych, gan ddod â mwy a mwy o bobl ynghyd i sgwrsio yn yr iaith ryfeddol hon."</li> <li>"Mae'r ysgolion cyfun cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd mewn cyflwr gwael iawn, gyda rhai o'r cyfleusterau gwaethaf o'r holl ysgolion cyfun yng Nghaerdydd."</li> </ul>


*DS: Nid yw'r canrannau cyffredinol yn dod i 100% gan y gall sylwadau'r ymatebwyr ddod dan fwy nag un thema.*

## **CSCA Caerdydd - Ymgynghoriad Plant a Phobl Ifanc 'Sgwrs Fawr y Gymraeg' Crynodeb**


Ar ddydd Mercher 8 Rhagfyr Cynhaliodd Cyngor Caerdydd 'Sgwrs Fawr y Gymraeg' i ennyn diddordeb disgyblion ysgolion Caerdydd yn yr ymgynghoriad presennol ar gyfer y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Gwahoddwyd pob ysgol ar draws y ddinas i gymryd rhan yn y sgwrs drwy ateb cwestiynau drwy gyfrwng llwyfan o'r enw Mentimeter. Roedd y dull hwn yn caniatáu adborth ar unwaith lle mae'r canlyniadau'n cael eu diweddarau'n fyw gyda disgyblion yn gallu gweld y trosolwg o atebion gan yr holl ysgolion a oedd yn cymryd rhan. Cynhaliwyd sesiynau byw yn Gymraeg a Saesneg ar gyfer ysgolion cynradd drwy gydol y dydd tra bod disgyblion uwchradd yn cael arolwg y gallent ei gwblhau yn eu hamser eu hunain gydol y dydd. Yn gyfan gwbl, derbyniwyd 2656 o ymatebion gan 28 o ysgolion ledled y ddinas gan gynnwys 8 ysgol Gymraeg, 18 ysgol Saesneg ac 1 ysgol ddwy ffrwd. Rhoddodd mwyafrif (80%) o ysgolion uwchradd y ddinas gyda disgyblion o 16 ysgol eu barn ar y Gymraeg o fewn yr addysg a gânt. Hoffem ddiolch i'r staff a wnaeth y gorchwyl hwn yn bosibl a hwyluso cyfranogiad y disgyblion yn eu hysgolion.

Ymatebodd y disgyblion yn dda i'r arolwg ac roeddent yn awyddus i rannu eu barn ar y Gymraeg a sut i gyrraedd targed Cymraeg 2050 sef miliwn o siaradwyr Cymraeg. Mae'r amrywiaeth eang o ymatebion a gafwyd yn adlewyrchu'r gwahaniaethau sydd ym mhrofiadau cyfranogwyr o ran bywyd a brofwyd. Wrth flaenoriaethu pwysigrwydd rhesymau dros siarad Cymraeg, roedd disgyblion ysgolion uwchradd yn llawer mwy tebygol o nodi cyfleoedd cyflogaeth fel prif flaenoriaeth. Roedd y rhai a atebodd yr arolwg yn Saesneg yn fwy tebygol o flaenoriaethu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol fel y ffordd fwyaf defnyddiol o dyfu'r Gymraeg yng Nghaerdydd tra bod y rhai mewn sesiynau Cymraeg yn fwy tebygol o nodi mai mynychu ysgolion Cymraeg oedd y cyfleoedd mwyaf defnyddiol.

Gofynnwyd i'r disgyblion am eu hagweddau tuag at y Gymraeg. Gofynnwyd i'r disgyblion ar raddfa 5 pwynt (1 – anghytuno'n gryf, 5 - cytuno'n gryf) a oeddent yn cytuno â datganiadau am y Gymraeg. Er bod y disgyblion yn cytuno eu bod yn credu ei bod yn bwysig dysgu Cymraeg, i bob grŵp roedd gostyngiad yn y nifer a oedd yn cytuno'n gryf eu bod yn hoffi dysgu'r iaith.




Allwedd (1 – Anghytuno'n gryf, 2- Anghytuno, 3-Y Naill Na'r Llall, 4-Cytuno, 5- Cytuno'n gryf)



Allwedd (1 – Anghytuno'n gryf, 2- Anghytuno, 3-Y Naill Na'r Llall 4-Cytuno, 5- Cytuno'n Gryf)


O ran mwynhad dysgu Cymraeg, nododd disgyblion ysgol uwchradd fod heriau asesu ffurfiol yn cael effaith sylweddol ar yr hyn roeddent yn ei gysylltu â'r iaith. Ategwyd hyn ymhellach mewn sylwadau'n ymwneud ag ofn gwneud camgymeriadau.



Gofynnwyd i ddisgyblion hefyd ymateb i drydydd datganiad 'Rwy'n defnyddio fy sgiliau Cymraeg y tu allan i'r ysgol'. Roedd mwy o duedd i anghytuno â'r datganiad hwn ar draws pob grŵp, yn enwedig gan y rhai a atebodd yr arolwg yn Saesneg.



Allwedd (1 – Anghytuno'n gryf, 2- Anghytuno, 3-Y Naill Na'r Llall 4-Cytuno, 5- Cytuno'n Gryf)

Er mwyn archwilio'r datganiad hwn ymhellach gofynnwyd i'r disgyblion am eu defnydd presennol o'r Gymraeg y tu hwnt i ysgolion. Fel y disgwyliid, roedd amrywiant sylweddol yn ymatebion y disgyblion yn dibynnu ar gyfnod addysg ac iaith y sesiwn yr oeddent yn ei mynychu. Ymatebodd nifer sylweddol o bobl ifanc nad ydynt yn siarad Cymraeg y tu allan i gyd-destun ysgol. I'r rhai a oedd yn siarad Cymraeg y tu allan i'r ysgol, nodwyd siarad â theulu a ffrindiau cyn clybiau neu weithgareddau ffurfiol.






Mewn llawer o'r ymatebion yn nodi pa gyfleoedd fyddai'n eu hannog i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg, tynnodd disgyblion sylw at gyfleoedd cymdeithasol gan gynnwys clybiau drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd cefnogaeth sylweddol hefyd i gemau ac atgyfnerthu'r defnydd o iaith yn gadarnhaol a 'hwyllog' ar draws pob sesiwn. Er bod themâu cyffredin o ran gweithgarwch cymdeithasol wedi'u trefnu, roedd rhai awgrymiadau'n benodol i gyd-destun y disgybl penodol (e.e. treulio amser gyda neiniau a theidiau). Roedd awgrymiadau'r clwb yn amrywio o chwaraeon penodol (Rygbi a pêl-droed), i'r rhai a oedd yn canolbwyntio ar sgiliau yn y Gymraeg (clwb darllen, clwb Cymraeg), Grwpiau'n paratoi ar gyfer Eisteddfod yn ogystal â chyfleoedd i brofi diwylliant Cymru (ffilmiau a cherddoriaeth).


Gofynnwyd i ddisgyblion nodi ar raddfa 5 pwynt pa mor hyderus yr oeddent yn teimlo o ran sgiliau Cymraeg amrywiol (1 ddim yn hyderus o gwbl, 5 yn hyderus iawn). Roedd y rhai a atebodd yr arolwg




drwy gyfrwng y Gymraeg yn fwy tebygol o nodi eu bod yn hyderus iawn ar draws yr holl sgiliau sy'n adlewyrchu eu profiad personol a'u hamlygiad i'r iaith. Roedd disgyblion ysgolion cynradd yn debygol o fod â hunanhyder mwy cadarnhaol o ran eu sgiliau ar draws y ddwy iaith a allai adlewyrchu eu profiadau gyda'r Gymraeg. Mae'r graffiau isod yn amlinellu ystod y canlyniadau ar draws y llwyfan a'r iaith yr ymatebodd y disgyblion ynddi.




Allwedd (1 - Ddim yn hyderus o gwbl, 2 Ddim yn hyderus, 3 Y Naill Na'r Llall, 4 Hyderus, 5 - Hyderus iawn)



Allwedd (1 - Ddim yn hyderus o gwbl, 2 Ddim yn hyderus, 3 Y Naill Na'r Llall, 4 Hyderus, 5 - Hyderus iawn)



Allwedd (1 - Ddim yn hyderus o gwbl, 2 Ddim yn hyderus, 3 Y Nail! Na'r Llall, 4 Hyderus, 5 - Hyderus iawn)



Allwedd (1 - Ddim yn hyderus o gwbl, 2 Ddim yn hyderus, 3 Y Nail! Na'r Llall, 4 Hyderus, 5 - Hyderus iawn)

**Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb  
Templed Asesu Corfforaethol**



**Teitl y Strategaeth: Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-32**

**Diweddarau: Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-20**

**Pwy sy'n gyfrifol am ddatblygu a gweithredu'r**

**Polisi/Strategaeth/Prosiect/Gweithdrefn/Gwasanaeth/Swyddogaeth?**

Enw: Catherine Canning

Teitl y Swydd: Swyddog Polisi

Tîm Gwasanaeth: Cynllunio  
Trefniadaeth Ysgolion

Gwasanaeth: Addysg

Dyddiad Asesu:

**1. Beth yw amcanion y Polisi/Strategaeth/Prosiect/Gweithdrefn/  
Gwasanaeth/Swyddogaeth?**

Diben y CSCA yw gwella cyfleoedd i awdurdodau lleol gynllunio darpariaeth addysg Gymraeg er mwyn cefnogi'r disgygliad presennol ac yn y dyfodol ar gyfer twf mewn addysg Gymraeg.

Mae gwella'r gwaith o gynllunio addysg Gymraeg hefyd yn cefnogi cyfraniad Cyngor Caerdydd at uchelgais genedlaethol hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg fel y nodir yn y strategaeth Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg, Llywodraeth Cymru.

**2. Rhowch wybodaeth gefndirol am y  
Polisi/Strategaeth/Prosiect/Gweithdrefn/Gwasanaeth/Swyddogaeth ac  
unrhyw ymchwil a wneir (e.e. data defnyddwyr gwasanaeth yn erbyn  
ystadegau demograffig, AEGau tebyg a wnaed ac ati).**

Mae'n ofynnol i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru i baratoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg o dan Adran 84 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

Mae Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 yn gwneud darpariaeth i awdurdod lleol baratoi Cynllun deng mlynedd, i ddod i rym gyntaf o 1 Medi 2022, yn amodol ar gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru.

## CYNGOR CAERDYDD

### Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Templed Asesu Corfforaethol

Wrth baratoi'r cynllun hwn, cafwyd cyfres o ymarferion ymgysylltu gyda phartneriaid a rhanddeiliaid lleol i lywio'r gwaith o ddatblygu strategaeth ar gyfer Caerdydd. Ar hyn o bryd yn paratoi i fynd â'r cynllun drafft i ymgynghori ag ystod eang o randdeiliaid lleol gan gynnwys pobl ifanc, rhieni ac ysgolion ynghyd ag Aelodau Fforwm Addysg Gymraeg Caerdydd.

### 3 Asesu'r Effaith ar y Nodweddion Gwarchoddedig

#### 3.1 Oedran

A fydd y Polisi/Strategaeth/Prosiect/Gweithdrefn/Gwasanaeth/Swyddogaeth dan sylw yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol]** ar bobl iau/hŷn?

	Bydd	Na fydd	Dd/B
Hyd at 18 oed	x		
18 - 65 oed			x
Dros 65 oed			x

#### Rhowch fanylion/canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.

Gan fod y cynllun yn canolbwyntio ar addysg statudol, mae'n debygol o gael effaith ar y rhai o dan 18 oed sydd ac a fydd mewn addysg statudol dros y 10 mlynedd nesaf. Mae'n bosibl y gallai hyn gael effaith gadarnhaol wahaniaethol gyda mwy o gyfleoedd i brofi a defnyddio'r Gymraeg. Ni ragwelir y bydd hyn yn cael effaith negyddol wahaniaethol ar unrhyw un o'r grwpiau uchod.

#### Pa gam(au) gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?

#### 3.2 Anabledd

4.C.400	Cyhoeddiad	Tach 11	Perchennog y Broses: Rachel Jones	Awdurdodwyd: Rachel Jones	Tudalen 1
---------	------------	---------	-----------------------------------	---------------------------	-----------

## CYNGOR CAERDYDD

### Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Templed Asesu Corfforaethol

A fydd y Polisi/Strategaeth/Prosiect/Gweithdrefn/Gwasanaeth/Swyddogaeth dan sylw yn cael **effaith wahaniaethol** [gadarnhaol/negyddol] ar bobl anabl?

	Bydd	Na fydd	Dd/B
Nam ar y Clyw		x	
Nam Corfforol	x		
Nam ar y Golwg		x	
Anabledd Dysgu	x		
Salwch neu Gyflwr Iechyd Hirdymor	x		
Iechyd Meddwl		x	
Camddefnyddio Sylweddau		x	
Arall		x	

#### Rhowch fanylion/canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.

Mae Deilliant 6 y cynllun yn ymwneud yn benodol â datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ymhellach ar gyfer disgyblion ag ADY yn unol â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thriwlynys Addysg (Cymru) 2018 (ADYTA) Disgwylir y bydd creu lleoedd arbenigol newydd ar gyfer disgyblion ag ADY yn cefnogi mynediad pellach at ddarpariaeth yn y Gymraeg.

At hynny, bydd gwaith i sicrhau bod disgyblion ag ADY yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i barhau â'u haddysg cyfrwng Cymraeg ac yn teimlo'n llwyddiannus yn eu dysgu yn cael effaith gadarnhaol ar sicrhau dilyniant a sefydlogrwydd o fewn eu taith addysgol.

#### Pa gam(au) gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?

### 3.3 Ailbennu Rhywedd

A fydd y Polisi/Strategaeth/Prosiect/Gweithdrefn/Gwasanaeth/Swyddogaeth dan sylw yn cael **effaith wahaniaethol** [gadarnhaol/negyddol] ar bobl drawsryweddol?

	Bydd	Na fydd	Dd/B
<b>Pobl Drawsryweddol</b> (Pobl sy'n bwriadu ymgymryd, sydd yn ymgymryd neu sydd wedi ymgymryd â phroses [neu ran o broses] i ailbennu eu rhyw trwy newid priodoleddau ffisiolegol neu briodoleddau eraill rhywedd).		x	

## CYNGOR CAERDYDD

### Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Templed Asesu Corfforaethol

**Rhowch fanylion/canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.**

Ni ragwelir y byddai unrhyw effaith wahaniaethol na negyddol ar bobl drawsryweddol.

**Pa gam(au) gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?**

Dd/B

#### 3.4 Priodas a Phartneriaeth Sifil

A fydd y Polisi/Strategaeth/Prosiect/Gweithdrefn/Gwasanaeth/Swyddogaeth dan sylw yn cael **effaith wahaniaethol** [gadarnhaol/negyddol] ar briodas a phartneriaeth sifil?

	Byd d	Na fydd	Dd/ B
Priodas		x	
Partneriaeth Sifil		x	

**Rhowch fanylion/canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.**

Ni ragwelir y byddai'r polisi hwn yn cael effaith wahaniaethol ar y rhai mewn priodas neu bartneriaeth sifil

**Pa gam(au) gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?**

Dd/B

## CYNGOR CAERDYDD

### Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Templed Asesu Corfforaethol

--

#### 3.5 Beichiogrwydd a Mamolaeth

A fydd y Polisi/Strategaeth/Prosiect/Gweithdrefn/Gwasanaeth/Swyddogaeth dan sylw yn cael **effaith wahaniaethol** [gadarnhaol/negyddol] ar feichiogrwydd a mamolaeth?

	Byd d	Na fydd	Dd/ B
Beichiogrwydd		x	
Mamolaeth		x	

#### Rhowch fanylion/canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.

Ni ragwelir y byddai hyn yn cael unrhyw effaith negyddol ar feichiogrwydd a mamolaeth. Mae potensial y gallai camau a gymerir i gefnogi'r gwaith o hyrwyddo addysg Gymraeg gan gynnwys y peilot Cynllun Adnabod Cynnar gael effaith gadarnhaol ar rieni newydd gan y bydd hyn yn rhannu gwybodaeth am gael mynediad at addysg ac yn llywio darpariaeth yn y dyfodol.

#### Pa gam(au) gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?

Dd/B

#### 3.6 Hil

A fydd y Polisi/Strategaeth/Prosiect/Gweithdrefn/Gwasanaeth/Swyddogaeth dan sylw yn cael **effaith wahaniaethol** [gadarnhaol/negyddol] ar y grwpiau canlynol?

	Byd d	Na fydd	Dd/ B
Gwyn	x		
Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig	x		
Asiaidd/Asiaidd Prydeinig	x		
Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Du Prydeinig	x		
Grwpiau Ethnig Eraill	x		

## CYNGOR CAERDYDD

### Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Templed Asesu Corfforaethol

**Rhowch fanylion/canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.**

Bydd y strategaeth yn berthnasol i bob ysgol gymunedol a bydd yn ceisio cynyddu ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad â'r Gymraeg ar gyfer pob disgybl. Mae'n bosibl y bydd ein cynllun i ymgynghori â rhieni o gefndiroedd lleiafrifol am eu barn ar ddarpariaeth a dewisiadau addysg yn cefnogi cynllunio yn y dyfodol sy'n diwallu anghenion y gymuned yn briodol. O fewn y cynllun nodir bod angen mwy o hyrwyddo ar addysg Gymraeg i bob teulu, yn enwedig y rhai y nodir eu bod yn cael eu tangynrychioli o fewn y sector. Mae'n bosibl y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol gan y bydd yn ceisio mynd i'r afael â mythau a chamsyniadau niweidiol a chaniatáu i deuluoedd deimlo bod ganddynt fwy o ddewis o ysgolion ar gyfer eu plant.

**Pa gam(au) gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?**

Parhau i fonitro'r carfannau o ddisgyblion sy'n cael addysg Gymraeg, parhau i weithio gyda sefydliadau partner i hyrwyddo ystod amrywiol o siaradwyr Cymraeg a modelau rôl, gweithio gyda theuluoedd i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r cyfleoedd addysgol sydd ar gael i'w plentyn

### 3.7 Crefydd, Cred neu Ddiffyg Cred

A fydd y Polisi/Strategaeth/Prosiect/Gweithdrefn/Gwasanaeth/Swyddogaeth dan sylw yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol]** ar bobl sydd â gwahanol grefyddau, credoau neu ddiffyg cred?

	Bydd	Na fydd	Dd/B
Bwdhydd		X	
Cristion		X	
Hindŵ		X	
Dyneiddiwr		X	
Iddew		X	
Mwslim		X	
Sikh		X	
Arall		X	



## CYNGOR CAERDYDD

### Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Templed Asesu Corfforaethol

**Rhowch fanylion/canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.**

Ni ragwelir y bydd hyn yn cael effaith wahaniaethol ar bobl â ffydd neu ddim ffydd gan mai ysgolion cymunedol lle gall pobl ifanc o bob cefndir ddysgu gyda'i gilydd yw ffocws y strategaeth hon.

**Pa gam(au) gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?**

Dd/B

#### 3.8 Rhywedd

A fydd y Polisi/Strategaeth/Prosiect/Gweithdrefn/Gwasanaeth/Swyddogaeth dan sylw yn cael **effaith** wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol] ar ddynion a/neu fenywod?

	Byd d	Na fydd	Dd/ B
Dynion		x	
Menywod		x	

**Rhowch fanylion/canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.**

Ni ragwelir y byddai hyn yn cael unrhyw effaith wahaniaethol ar sail rhyw.

**Pa gam(au) gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?**

Dd/B

## CYNGOR CAERDYDD

### Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Templed Asesu Corfforaethol

#### 3.9 Cyfeiriadedd Rhywiol

A fydd y Polisi/Strategaeth/Prosiect/Gweithdrefn/Gwasanaeth/Swyddogaeth dan sylw yn cael **effaith** wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol] ar y grwpiau canlynol?

	Bydd	Na fydd	Dd/B
Deurywiol		x	
Dynion Hoyw		x	
Menywod Hoyw/Lesbiaid		x	
Heterorywiol/Syth		x	

**Rhowch fanylion/canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.**

Ni ragwelir y byddai hyn yn cael effaith wahaniaethol ar bobl o wahanol gyfeiriadedd rhywiol

**Pa gam(au) gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?**

Dd/B

#### 3.10 Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol

A fydd y Polisi/Strategaeth/Prosiect/Gweithdrefn/Gwasanaeth/Swyddogaeth dan sylw yn cael **effaith wahaniaethol** [gadarnhaol/negyddol] ar y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol?

	Bydd	Na fydd	Dd/B
	x		

**Rhowch fanylion/canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.**

Bydd y cynllun yn berthnasol i bob ysgol gymunedol yng Nghaerdydd. Rydym yn gobeithio ymgynghori'n gynhwysfawr â chymunedau a grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli mewn addysg Gymraeg er mwyn deall eu barn yn well ar eu dewisiadau

## CYNGOR CAERDYDD

### Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Templed Asesu Corfforaethol

ar gyfer addysg i'w plant. Ledled Caerdydd, mae gwahaniaeth nodedig rhwng nifer y plant sy'n cael prydau ysgol am ddim mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg o'u cyferbynnu â phroffil y dalgylchoedd y maent yn eu gwasanaethu. Drwy ymgysylltu â theuluoedd a chymunedau, bydd yn ein galluogi i gynllunio'n fwy priodol i fodloni eu dewisiadau a chefnogi mynediad at ac i ystyried amrywiaeth ehangach o ysgolion lleol.

#### Pa gam(au) gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?

Parhau i fonitro'r carfannau o ddisgyblion sy'n cael addysg Gymraeg, parhau i weithio gyda sefydliadau partner i hyrwyddo ystod amrywiol o siaradwyr Cymraeg a modelau rôl, gweithio gyda theuluoedd i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r cyfleoedd addysgol sydd ar gael i'w plentyn

#### 3.11 Y Gymraeg

A fydd y Polisi/Strategaeth/Project/Gweithdrefn/Gwasanaeth/Swyddogaeth dan sylw yn cael **effaith wahaniaethol (gadarnhaol/negyddol)** ar y Gymraeg?

	Bydd	Na fydd	Dd/B
	x		

#### Rhowch fanylion/canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.

Bydd y strategaeth hon yn ceisio cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg drwy annog cynnydd yn ei amlygrwydd ym mhob ysgol yng Nghaerdydd. Mae'r canlyniadau yn y strategaeth yn ceisio cynyddu nifer y plant sy'n cyrchu eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gefnogi'r bobl ifanc hynny i ddatblygu sgiliau lefel uwch yn y Gymraeg, datblygu lefelau uwch o gymorth o fewn y sector Cymraeg i ddisgyblion ag ADY a chynyddu cyfleoedd y gweithlu i gynyddu'r Gymraeg mewn ysgolion. Bydd y Cynllun yn eistedd ochr yn ochr â strategaeth y Gymraeg, gan gefnogi nodau cyffredin tuag at dargedau cenedlaethol Cymraeg 2050.

## CYNGOR CAERDYDD

### Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Templed Asesu Corfforaethol

**Pa gam(au) gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?**

Gweithredu'r cynllun a sicrhau bod camau gweithredu i gefnogi'r Gymraeg yn cael yr effaith gadarnhaol a fwriedir

#### 4. Ymgynghori ac Ymgysylltu

Pa drefniadau a wnaed i ymgynghori/ymgysylltu â'r gwahanol Grwpiau Cydraddoldeb?

Cynhaliwyd sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid gyda phartneriaid a grwpiau â diddordeb ym mis Gorffennaf 2021  
Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus llawn 8 wythnos rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2021 gydag ymatebion yn bwydo i'r cyflwyniad terfynol i Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2022.  
Gwnaed ymdrech i sicrhau bod ystod eang o safbwyntiau'n cael eu casglu gan gynnwys hyrwyddo drwy'r cyfryngau cymdeithasol, grwpiau cymunedol, rhwydweithiau ysgolion a sefydliadau partner.

Cynhaliwyd y Sgwrs Fawr Gymraeg gyda phobl ifanc ym mis Rhagfyr 2021 gyda 2656 o ymatebion yn dod i law. Cymerodd disgyblion o 80% (16/20) o'r ysgol uwchradd ran yn ogystal â 12 ysgol gynradd. Roedd yr ysgolion hyn yn cynnwys ysgolion Cymraeg a Saesneg yn ogystal ag ysgolion ffydd.

#### 5. Crynodeb o Gamau Gweithredu [a restrir yn yr Adrannau uchod]

Grwpiau	Camau Gweithredu
Oedran	
Anabledd	
Ailbennu Rhywedd	
Priodas a Phartneriaeth Sifil	
Beichiogrwydd a Mamolaeth	
Hil	Parhau i fonitro'r carfannau o ddisgyblion sy'n cael addysg

## CYNGOR CAERDYDD

### Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Templed Asesu Corfforaethol

	Gymraeg, parhau i weithio gyda sefydliadau partner i hyrwyddo ystod amrywiol o siaradwyr Cymraeg a modelau rôl, gweithio gyda theuluoedd i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r cyfleoedd addysgol sydd ar gael i'w plentyn
Crefydd/Cred	
Rhywedd	
Cyfeiriadedd Rhywiol	
Dyletswydd Economaid- gymdeithasol	Parhau i fonitro'r carfannau o ddisgyblion sy'n cael addysg Gymraeg, parhau i weithio gyda sefydliadau partner i hyrwyddo ystod amrywiol o siaradwyr Cymraeg a modelau rôl, gweithio gyda theuluoedd i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r cyfleoedd addysgol sydd ar gael i'w plentyn
Y Gymraeg	Gweithredu'r cynllun a sicrhau bod camau gweithredu i gefnogi'r Gymraeg yn cael yr effaith gadarnhaol a fwriedir
Cyffredinol Generig [yn berthnasol i'r holl grwpiau uchod]	

#### 6. Rhagor o Gamau Gweithredu

Dylid cynnwys unrhyw argymhellion ar gyfer camau gweithredu yr ydych yn bwriadu eu cymryd o ganlyniad i'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb hwn (a restrir yn y Crynodeb o Gamau Gweithredu) fel rhan o Gynllun Busnes eich Gwasanaeth i'w monitro'n rheolaidd.

#### 7. Awdurdodiad

Dylai'r templed gael ei lenwi gan Swyddog Arweiniol y Polisi/Strategaeth/Prosiect/Swyddogaeth a nodwyd a'i gymeradwyo gan y Rheolwr priodol ym mhob Gwasanaeth.

Cwblhawyd Gan: Catherine Canning	Dyddiad: 15/1/2022
Swydd: Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion	
Cymeradwywyd gan:	
Swydd: Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion	
Gwasanaeth: Addysg a Dysgu Gydol Oes	

- 7.1 Ar ôl cwblhau'r Asesiad hwn, sicrhewch y caiff y Ffurflen ei phostio ar Dudalen eich Cyfarwyddiaeth ar CIS - *Ledled y Cyngor/Systemau Rheoli/Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb* – fel bod cofnod o'r holl asesiadau yr ymgwymerir â nhw yn y Cyngor.

I gael rhagor o wybodaeth neu gymorth, cysylltwch â'r Tîm Canolbwytio ar Ddinasyddion drwy ffonio 029 2087 2536 / 3262 neu e-bostio [tîmcydraddoldeb@caerdydd.gov.uk](mailto:tîmcydraddoldeb@caerdydd.gov.uk)

4.C.400	Cyhoeddiad	Tach 11	Perchennog y Broses: Rachel Jones	Awdurdodwyd: Rachel Jones	Tudalen 1
---------	------------	---------	-----------------------------------	---------------------------	-----------

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol